600100578R

# LLYFR GWEDDI DEULUAIDD;

YN CYNNWYS

## Gweddiau Boreuol a Phrydnhawnol

AM

## BEDAIR WYTHNOS;

HEFYD,

GWEDDIAU AR WYLIAU ARBENNIG YR EGLWYS, AC AR ACHLYSURON ERAILL:

YNGHYD A PHAROTTOAD BYR I'R CYMMUN.

---

GAN

Y PARCH. R. WILLIAMS, B.A.,

CURAD LLANFAES A PHENMON, GER BEAUMARIS,

Gynt o Gaernarfon.

---

"Ond myfi, mi a'm tylwyth, a wasanaethwn yr Arglwydd."—Jos. xxiv. 15.

"A pha beth bynnag a ofynwch mewn gweddi, gan gredu, chwi a'i derbyniwch." MATT. xxi. 22.

---

CAERNARFON:

ARGRAPHWYD GAN H. HUMPHREYS, CASTLE SQUARE.

1853.

138. g. 16.

BIBLIOTHECA BODLEIANA

TO

THE VERY REVEREND

# J. H. COTTON, B.C.L.,

DEAN OF BANGOR,

WHO

HAS, IN AN EMINENT DEGREE, BROUGHT THE INFLUENCE

OF

The Poor Man's Church

TO

The Poor Man's Home,

THIS VOLUME OF FAMILY PRAYERS,

BEING

AN HUMBLE ATTEMPT TO PROMOTE PRACTICAL GODLINESS

AMONG

THE PEOPLE IN GENERAL,

IS, WITH HIS KIND PERMISSION,

Respectfully and gratefully Dedicated,

BY HIS VERY OBEDIENT

AND FAITHFUL SERVANT,

THE AUTHOR.

Y

# RHAGYMADRODD

AT

## Y DERBYNWYR.

---

NID yw y Llyfr hwn yn honni hawl i wreiddioldeb. Detholwyd y Gweddïau ag sydd ynddo allan o ysgrifeniadau Difinyddion duwiol a dysgedig Eglwys Loegr. Bernais yn fuddiol i gasglu y Gweddïau yn fyrion; ac amcenais, hyd y gallwn, arferyd brawddegau byrion hefyd. Gall pob un, a deimlo arno ei hun i wneuthur hynny, ychwanegu attynt, yn ol fel y byddo amgylchiadau yn galw. Yr oeddwn wedi parottôi Myfyrdodau ar Wyliau arbennig yr Eglwys, ynghyd â Gweddïau Prydnhawnol, ond gorfu i mi eu gadael allan o ddiffyg lle; ac oni buasai hyn, rhoddaswn fwy o amrywiaethau o Weddïau, i'w harferyd gan a thros y Claf. Yr wyf eisioes, pa fodd bynnag, wedi rhoddi mwy yn y gwaith nag a fwriedais ei wneyd ar y dechreu. Mae y Gweddïau a'r

Hyfforddiadau i'r Cleifion wedi eu Casglu o Weithiau Esgobion a Difinyddion duwiol ein Heglwys.

Yr wyf dan y rhwymedigaethau mwyaf i amryw o Offeiriaid, am edrych dros y gwaith, cyn ac wedi ei roddi yn y wasg, ac yma yn dymuno dychwelyd iddynt fy nïolchgarwch diffuant am eu caredigrwydd. Am y gorchwyl o ddethol a gosod defnyddiau y gwaith wrth eu gilydd, myfi sydd yn attebol. Yr wyf yn gwybod fod ynddo, yn y golygiad yma, anmherffeithiau lawer; ond, hyderaf y bydd i'm Cyd-gristionogion eu hesgusodi mewn yspryd cariad. Nid oes gennyf ond cyflwyno y Llyfr i fendith y Goruchaf, dan obaith y bydd o lesâd i lawer teulu; ac os bydd iddo atteb y diben o gyfodi ond un allor mewn teulu diweddi, ystyriaf hynny yn wobrwy nid bychan am fy llafur. Gan ddychwelyd fy nïolchgarwch am y gefnogaeth a roisoch i mi i ddwyn y gwaith allan,

Y gorphwysaf,

Eich gostyngedig was,

*Twthill,* ROBERT WILLIAMS.

Caernarfon, Mehefin, 1853.

# ARWEINIAD I MEWN.

Y MAE addoli Duw yn ddyledswydd sydd yn gorphwys ar bob teulu; a diau y bydd i bob teulu diweddi deimlo anfoddlonrwydd Duw am ei hesgeuluso. Geilw y Psalmydd ar Dduw i dywallt ei lid ar y cenhedloedd y rhai nid adnabuant ef, ac ar y teyrnasoedd ni alwasant ar ei enw. Ps. lxxix. 6. Heb ymarferiad o'r ddyledswydd hon, pa fodd y gellir disgwyl cael plant ufudd, gwasanaethyddion ffyddlon, neu fendith Duw yn y byd hwn, a'i gymmeradwyad yn yr hwn a ddaw.

Wrth addoliad teuluaidd y meddylir cydnabyddiaeth o Dduw, trwy ddarllen cyfran o'i Air sanctaidd ynghlyw yr holl deulu, ynghyd âg ymostyngiad ger ei fron mewn gweddi, i gyfaddef ein pechodau, i erfyn am ei drugareddau, ac i ddïolch iddo am y bendithion a dderbyniwn oddi ar ei law. Y mae' y ddyledswydd hon yn un fuddiol, bwysig, ac angenrheidiol; ac yn gweddu i bob teulu sydd yn proffesu y grefydd Gristionogol.

Gelwir ni at y ddyledswydd hon oblegid fod cynnydd crefydd yn ymddibynu, i gryn raddau, ar yr arferiad o honi. Os bydd i'r planhigion gael eu hesgeuluso, pa fodd y disgwylir iddynt gynnyddu? Ymarferiad o waith Duw ydyw moddion ein cynnydd mewn gras; a pha fwyaf diwyd y byddom gyd âg ef, mwyaf oll y cryfhâ ein gras, ac y cynnydda ein cysur; oblegid "enaid y diwyd a wneir yn fras." Y mae lles a budd-

ioldeb yn cydfyned â'r arferiad o'r ddyledswydd hon. Gwelodd Duw yn dda gyssylltu bendithion â phob cyflawniad crefyddol. Nid oes addewid i ni gael ei fendithion Ef, ond ar lwybr ein dyledswydd; ac nid oes un cyflawniad a mwy o effeithiau da yn cydfyned âg ef, nag addoliad teuluaidd. Effeithia i gadw y pen-teulu yn ei le priodol o ran ei ymddygiad atto ei hun, ac at ei deulu;—i ennill gair da yr holl gymmydogion;—i fagu y plant yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd;—i daenu y dylanwad goreu ar wasanaethyddion;—i ddïogelu cariad ac undeb rhwng aelodau y teulu a'u gilydd; ac i feithrin a chadw trefn gyffredinol yn y teulu. Pwy bynnag sydd am sicrhâu llywodraeth dda ac awdurdod ar ei deulu, deued âg ofn Duw i'w plith: bydd hyn yn sicr o ddïogelu ei awdurdod a'i ddylanwad arnynt yn fwy na dim arall. Nid yw y cynghor goreu o fawr werth, heb esampl dda i'w gefnogi. Nid yw pob un yn deall rhesymau, ond gall pawb ddeall iaith esamplau da. Deall hyd yn nod y plant lleiaf yn dra buan, mai addoli Duw y mae eu tad pan eu gwelant yn plygu o'i flaen ynghanol ei deulu.

Yr ydym yn cael ein hawdurdodi oddi wrth amryw grybwylliadau yn llyfr y Psalmau, fod Dafydd yn ddyledus am ei dduwioldeb boreu i ddylanwad duwiol-frydus ei fam. Y mae yn cydnabod ei hun gyd â dïolchgarwch yn was Duw, "a mab ei wasanaeth-wraig." Mabwysiadodd yntau yr un drefn tu ag at ei blant ei hun. "Canys yr oeddwn yn fab i'm tad," ebe Solomon, "yn dyner ac yn anwyl yngolwg fy mam.—Efe a'm dysgai." Yr oedd Timotheus "er yn fachgen yn gwybod yr Ysgrythyr lân," yn yr hon yr addysgwyd ef yn foreu, a thrwy yr hon y meddiannodd, trwy ras, y ffydd

ddiffuant, yr hon a drigodd gyntaf yn ei nain *Löis*, ac yn ei fam *Eunice*. Y mae y fath esamplau a hyn yn dra anrhydeddus ac annogol i ddiwydrwydd a ffyddlondeb rhïeni yn yr ymarferiad âg addoliad teuluaidd; fel un o'r moddion cyntaf i ddeffrôi ystyriaethau difrifol yn meddyliau pobl ieuaingc, ac i faentumio ymarweddiad teilwng o efelychiad.

Lle na ddygir ieuengctid i fynu yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd; lle na ddysgir hwynt i gydnabod Duw trwy ymarferiad boreu a chysson â gweddi deuluaidd, a ellir rhyfeddu eu bod yn tyfu i fynu mewn difaterwch o bethau sanctaidd a dwyfol, ac yn dyfod yn ysglyfaeth parod i benrhyddid ac annuwiaeth? Pa debygolrwydd sydd y bydd i'w haddysgiadau gael eu canlyn â dim effeithiau da ar eraill, pan nad yw eu cymmeriad a'u hymarweddiad eu hunain yn cael eu llywodraethu ganddynt? Chwi bennau teuluoedd, gofalwch na byddo i waed eich plant gael ei ofyn oddi ar eich dwylaw yn y farn. Os ewyllysiwch gynnyddu mewn gras, chwychwi a'ch plant, a mwynhâu presennoldeb Duw yn ei dŷ, ymwnewch âg ef gyd â thaerineb mewn gweddi yn eich cartref-leoedd. Cofiwch y bydd i'r Paganiaid gyfodi yn y farn a'ch condemnio, os esgeulusir gennych y ddyledswydd bwysig hon.

Yr oedd gan y Cenhedloedd dwyreiniol eu *Teraphim;* yr oedd gan yr Aiphtiaid, y Groegiaid, a'r Rhufeiniaid, yr hyn a alwent eu *Lares* a'u *Penates*, math o dduwiau teuluaidd, i'r rhai yr oeddynt yn talu addoliad; ac a fydd i Gristionogion fod heb allorau teuluaidd i gyflwyno arnynt, foreu a hwyr, i'r "gwir a'r bywiol Dduw," aberthau o weddi a mawl?

Gristionogion! A gaiff y Paganiaid fod yn fwy eu zêl dros eu duwiau meirw, na ni dros y Duw byw? Na atto Duw! Y mae pob bendith a thrugaredd sy'n cael eu mwynhâu gennym fel teulu, yn dyfod oddi wrtho ef. Yr ydym yn ymddibynu yn hollol ar ei ddaioni rhagluniaethol; ac os ydyw bendithion personol yn gofyn cydnabyddiaeth personol, sicr yw fod bendithion teuluaidd yn gofyn cydnabyddiaeth teuluaidd hefyd. A ydyw Duw yn gosod ei warcheidwaid o'n hamgylch, yn haul a tharian i ni, yn rhoddi gras a gogoniant, ac yn ein hamddiffyn rhag yr amrywiol ddrygau yr ydym yn agored iddynt ddydd a nos, heb gael teyrnged o glod a mawl teuluaidd oddi wrthym am hynny? Os felly, rhaid ein bod yn camddefnyddio ein trugareddau, yn ymddwyn yn anonest, ac yn dangos mewn effaith, nad oes gennym barch i'r Duw a'n gwnaeth, ac sy'n ein cynnal bob eiliad o'n bywyd. Yr ydym yn euog o lawer o bechodau teuluaidd, gan hynny dylem gyd-uno â'n gilydd mewn cyfaddefiad ger bron Duw; yr ŷm yn rhwymedig i Dduw am waredigaethau a thrugareddau teuluaidd,—felly ni a ddylem fel teulu, gyd-uno mewn gostyngeiddrwydd, mewn gweddi a diolchgarwch, ger bron yr Arglwydd ein Gwneuthurwr. Teilwng, gan hynny, i'w fabwysiadu gan Rïeni Cristionogol yw penderfyniad rhagorol brenhin duwiol Israel, "Byddaf ddeallus mewn ffordd berffaith. Rhodiaf mewn perffeithrwydd fy nghalon o fewn fy nhŷ;" ynghyd â hwnw hefyd o eiddo Josua dduwiol; "Myfi, mi a'm tylwyth a wasanaethwn yr Arglwydd."

# DANGOSEG.


### YR WYTHNOS GYNTAF.

| | Tu dalen. | | Tu dalen. |
|---|---|---|---|
| Bore Sabbath ... ...... | 17 | Prydnhawn Sabbath...... | 19 |
| Ddydd Llun ...... | 21 | Ddydd Llun .. | 23 |
| Ddydd Mawrth .... | 25 | Ddydd Mawrth | 27 |
| Ddydd Merchur.... | 29 | Ddydd Merchur | 30 |
| Ddydd Iou ........ | 32 | Ddydd Iou .. | 34 |
| Ddydd Gwener .... | 35 | Ddydd Gwener | 37 |
| Ddydd Sadwrn .... | 39 | Ddydd Sadwrn. | 40 |

### YR AIL WYTHNOS.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bore Sabbath .......... | 42 | Prydnhawn Sabbath...... | 44 |
| Ddydd Llun ...... | 46 | Ddydd Llun .. | 47 |
| Ddydd Mawrth .... | 49 | Ddydd Mawrth | 51 |
| Ddydd Merchur.... | 53 | Ddydd Merchur | 55 |
| Ddydd Iou ........ | 57 | Ddydd Iou.... | 59 |
| Ddydd Gwener .... | 60 | Ddydd Gwener. | 62 |
| Ddydd Sadwrn .... | 63 | Ddydd Sadwrn. | 65 |

### Y DRYDEDD WYTHNOS.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bore Sabbath .......... | 67 | Prydnhawn Sabbath .... | 69 |
| Ddydd Llun ...... | 70 | Ddydd Llun .. | 72 |
| Ddydd Mawrth .... | 72 | Ddydd Mawrth | 75 |
| Ddydd Merchur.... | 77 | Ddydd Merchur | 79 |
| Ddydd Iou ........ | 80 | Ddydd Iou.... | 82 |
| Ddvdd Gwener .... | 84 | Ddydd Gwener. | 85 |
| Ddydd Sadwrn .... | 87 | Ddydd Sadwrn. | 89 |

### Y BEDWAREDD WYTHNOS.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bore Sabbath .......... | 90 | Prydnhawn Sabbath...... | 92 |
| Ddydd Llun ...... | 94 | Ddydd Llun.... | 96 |
| Ddydd Mawrth .... | 98 | Ddydd Mawrth | 100 |
| Ddydd Merchur.... | 101 | Ddydd Merchur | 103 |
| Ddydd Iou ........ | 105 | Ddydd Iou .... | 107 |
| Ddydd Gwener .... | 109 | Ddydd Gwener. | 111 |
| Ddydd Sadwrn .... | 113 | Ddydd Sadwrn. | 115 |

COLECTAU i'w harferyd ar ol y Gweddïau ................ 118

## GWEDDIAU AR WYLIAU ARBENNIG YR EGLWYS.


Tu dalen.

Bore Ddydd Nadolig .... 120
Prydnhawn etto ........ 122
Bore Ddydd Gwener y Groglith ........ 123
Prydnhawn etto ........ 125
Sul y Pasg ............ 126
Dydd Iou y Dyrchafael .. 128
Sulgwyn ............ 130
Sul y Drindod .......... 131


## MYFYRDODAU A GWEDDIAU AR ACHOSION NEILLDUOL.


Myfyrdod ar Ddechreu Blwyddyn ............ 134
Gweddi ................ 138
Gweddi am Wlaw........ 139
Diolchgarwch am Wlaw .. 140
Am Dywydd Teg ........ 140
Diolchgarwch am Dywydd Teg ................ 141
Myfyrdod ar y Cynhauaf. 142
Gweddïau o Ddïolchgarwch am y Cynhauaf:—
Boreol Weddi .......... 144
Prydnhawnol Weddi .... 146
Myfyrdod ar Ddiwedd Blwyddyn ................ 148
Gweddi ................ 150

Gweddi wrth ddechreu Ysgol Sabbathol ...... 154
Un arall .............. 155
Gweddi wrth ddiweddu Ysgol Sabbathol........ 156
Un arall .............. 157


## GWEDDIAU I'R CLEIFION.


Gweddi dros Wraig ar ei Thrafael ............ 159
Diolchgarwch am Ryddhad ymwaredol, &c. ...... 160
Gweddi dros ddyn a fo newydd fyned yn glaf...... 161
Ffurf o adael y Claf i nawdd Duw ................ 163
Annogaethau i'r Claf .... 164
Gweddi dros y Claf...... 165
Gweddi dros Blentyn Claf 166
Gweddi i'w harferyd gan y Claf ei hun .......... 167
Un arall, gan y Parch. G. Jones, Llanddowror .. 168
Gweddi dros y Claf pan ymddengys rhyw obaith o wellhad .............. 170
Gweddi dros y Claf, lle na welir fawr obaith o wellhad ................ 171
Ffurf o orchymyn yr enaid i Dduw ar ei ymadawiad o'r corph ............ 172
Gweddi dros Ddyn Claf ar drangcedigaeth ....... 172
Cyfarwyddyd i orchymyn y Claf yn awr angau i ddwylaw Duw ........ 173
Ffurf o Weddïau byrion .. 174
Bendith y Claf........ .. 176
Gweddi i'w harferyd ar ymadawiad y Cristion ...... 177
Gweddi i'w harfer mewn Gwylnos ............ 177


## PAROTTOAD I'R CYMMUN.


Cyfarwyddyd byr ...... 180
Cyffes Pechodau ........ 189
Gweddi cyn derbyn y Cymmun ................ 189
Gweddi ar ol derbyn y Cymmun ............ 190
Cynghor .............. 191

# HYMNAU.

## HYMN—M.C.—*Y Nadolig.*

YM Methl'em Juda, dyma'r dydd
Daeth newydd da o'r ne';
Duw ymddangosodd yn y cnawd,
Ein Brawd yn dlawd ei le.

Rhyfeddwn byth tra byddwn byw,
Ddaioni Duw i ddyn;
Yr Iesu'n aberth roes i ni,
Trwy nodded Tri yn Un.

## HYMN—8, 7, 4.—*Gwener y Groglith.*

NID oes noddfa mewn creadur,
Rhaid ei chael yn nês i'r nef;
'R unig un i wael bechadur
Yw ei Aberth gwerthfawr Ef:
Mae'n ddigonol, &c.
Dros bechodau dynol-ryw.

Fe ddïoddefodd angau creulon
Dan yr hoelion ar y groes,
A gorchfygodd luoedd uffern
Trwy rinweddau'i farwol loes:
Sain "Gorphenwyd," &c.
Fyddo'n llenwi'r byd i gyd.

## HYMN—M.H.—*Y Pasg.*

O! Crist ein Pasg, yr Aberth gwiw,
Dïoddefodd bechod dynol-ryw;
Gan farw trosom ar y groes,
Y caeth yn rhydd, efe a'i rhoes.

Ar gyfer hyn o amser bu
Y lloer fel gwaed, a'r haul yn ddu;
Holl sêr y nef mewn galar trist,
O weled faint dïoddefaint Crist.

### HYMN—M. H.—*Dyrchafael.*

Boed i'r holl nefoedd lawenhâu,
Brenhin Gogoniant sy'n nesâu:
Brenhin Gogoniant, pwy yw Ef!
Ein Prynwr anwyl, Arglwydd nef.

Agorwch, lledwch byrth y nef,
Gwnewch ffordd yn barod iddo Ef;
Yr Hwn trwy rym ei werthfawr waed
Roes angau ac uffern tan ei draed.

### HYMN—M. N.—*Y Sulgwyn.*

Tyr'd Yspryd Glân o'r nef i lawr,
Diddanydd pur, tyr'd yma'n awr,
I'n gwael fynwesau ni:
Gâd ini brofi'th nefol ddawn,
'R addewid doed i ben yn llawn,
Diddanwch Israel cu.

### HYMN--4 llin. 6, a 8, 8.—*Diolchgarwch am y Cynhauaf.*

Mawr ddyled arnom sydd,
I foli Iôr y nef,
Wrth wel'd o ddydd i ddydd,
Mor dirion ydyw Ef:
Efe yw'n craig, ein twr a'n maeth,
Y flwyddyn hon ein cofio wnaeth.

O! cyd-foliannwn Dduw
Am bob trugaredd rad,

A gwel'd dirioned yw
Ei ofal am ein gwlad:
O! boed i'n henaid dduwiol ddawn
I foli Duw âg yspryd iawn.

HYMN—M. S.—*Diwedd Blwyddyn.*

AETH heibio etto flwyddyn gron,
Mae arall bron a gwawrio;
Holl oesoedd byd, o dro i dro,
O dô i dô 'n myn'd heibio.

Mae llawer un yn wael ei wedd,
I'r dyfrllyd fedd yn suddo;
A'r llall mewn rhych heb arch o bren,
Na phrin dywarchen drosto.

HYMN—M.H.—*Ar Fore Dydd yr Arglwydd.*

O, f'enaid deffro, cân yn awr,
Fel 'r adar, achub flaen y wawr;
Os mawl sy'n perthyn iddynt hwy,
Mae mawl i mi fil miloedd mwy.

Fy nyled fawr feunyddiol yw
Talu ufuddaf glod i Dduw:
Yn byw'n y byd tra byddaf fi,
Gweddi a mawl sy'n gweddu i mi.

HYMN—8, 7, 4.—*Dydd Sabbath.*

DYMA'R dydd roed i ni gofio
Adgyfodiad Iesu gwiw,
Wedi maeddu uffern greulon,
Prynu dynion fyrdd i Dduw:
Haleluia, &c.
Fyth i'w Enw anwyl Ef.

Dym'r dydd ordeiniwyd i ni
 Lwyr ymgasglu at ei waith,
Darllen, gwrando, a gweddïo,
 Canu iddo hyfryd iaith;
 Na foed enaid, &c.
Sydd yn credu, hedddyw'n fud.

### HYMN—4 llin. 7.—*Llwyddiant yr Efengyl.*

WELE'R dydd yn gwawrio draw,
Amser hyfryd sydd gerllaw;
Daw'r Cenhedloedd yn gyttûn
I ddyrchafu Mab y dyn.

Gwelir teyrnas Iesu mawr
Yn ben moliant ar y llawr;
Gwelir tŷ ein Harglwydd cu
Goruwch y mynyddoedd fry.

Gwelir pobloedd lawer iawn,
Yn dylifo atto'n llawn;
Cyfraith Iesu gadwant hwy,
Ac ni ddysgant ryfel mwy.

### HYMN—M. H.—*Prydnhawn.*

I TI, fy Nuw, rhof foliant rhydd,
Am freintiau dwys oleuni'r dydd;
Gwna i mi noddfa gadarn gu,
Dan gysgod dy adenydd di.

Er mwyn dy anwyl Fab dy hun,
O maddeu 'meiau mawr bob un,
Fel cyn yr hunwyf, b'wyf o hyd
Mewn hedd â Thi, fy hun, a'r byd.

# LLYFR GWEDDI DEULUAIDD.

## YR WYTHNOS GYNTAF.

### BORE DDYDD SABBATH.

O DDUW, Awdwr a Rhoddwr pob daioni, nyni yn ostyngedig a ddïolchwn i ti am fendithion a chysuron y nos a aeth heibio. Cawsom orwedd, a chysgu, a deffro; chwennychem ymgynnull ynghyd i gydnabod â chalonnau dïolchgar mai Tydi yn unig a wnaethost i ni drigo mewn dïogelwch.

Bendigedig fyddo dy enw am ein harbed i weled Sabbath newydd etto. O Arglwydd, yr hwn a gyssegraist y dydd hwn i'th wasanaeth, dyro i ni ras felly i'w gadw, fel y byddo yn ddechreu wythnos ddedwydd i ni, ac na byddo i'r un o'th farnedigaethau ddisgyn arnom am ei halogi. Sefydla yn ein calonnau y gwirionedd mawr hwn, nad oes i ni yma ddinas barhâus, fel y byddo i ni ymbarottôi yn ddifrifol a phrydlawn erbyn byd arall; caniattâ fod i'r gorchwyl pwysig hwn ein gwneuthur yn awyddus i wybod ein

dyledswydd, ac i gyflawni yr hyn a ofyni gennym. Dïolchwn i Ti, nefol Dad, fod gennym foddion gras i fyned iddynt; fod gennym amser i wasanaethu ein Creawdwr; fod gennym Fugeiliaid i'n haddysgu. O caniattâ lwyddo llafur dy weision y dydd heddyw, a dyro ras i ninnau i gael llesâd drwy'r moddion; fel y byddo iddynt hwy a ninnau fwynhâu Sabbath tragywyddol gyd â'th saint yn y nefoedd. Dysg ni i'th wasanaethu yn gywir ac wrth dy fodd. Parottôa ein calonnau i dderbyn dy Air. Maddeu, O Arglwydd, ein cam-arferiad o'n breintiau gwerthfawr; a dysg ni i'w defnyddio yn well rhagllaw. Na chofia, Arglwydd, ein hanwiredd, ac na ddyro ddïal am ein pechodau, eithr bydd drugarog wrthym ni bechaduriaid. Tywallt dy ras a'th fendith ar bawb a ymgynnullant i'th addoli y dydd heddyw. Pâr iddynt wrando dy Air yn ufudd, ei dderbyn o bur ewyllys, a dwyn ffrwythau yr Yspryd. Na fydded i'th air ddychwel attat yn wag, ond boed iddo lwyddo yn y peth yr anfonaist ef o'i blegid, fel y byddo i'r rhai sy'n pregethu, a'r rhai sy'n gwrando, bregethu a gwrando i gadwedigaeth yr enaid. O bywhâ dy waith ym mhob man o'r byd. Deffro yr anystyriol, iachâ y drylliedig o galon, a gollwng y rhai ysig mewn rhydd-deb. Erfyniwn arnat, yn neillduol, dros dy was, ag sydd wedi ei osod i weinidogaethu yn ein

plith. Pâr iddo fod yn ddoeth i ennill eneidiau, a chymmwysa dy Air at ein calonnau ni a'n cyd-wrandawyr yn eglurhâd yr Yspryd a nerth. Caniattâ, Arglwydd, wrando ein gweddïau ammherffaith, er mwyn dy anwyl Fab, Iesu Grist ein Harglwydd; yr hwn a'n dysgodd pan weddïom i ddywedyd,—

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd. Sancteiddier dy enw. Deued dy deyrnas. Bydded dy ewyllys ar y ddaear, megis y mae yn y nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth, eithr gwared ni rhag drwg: Canys eiddo ti yw y deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. Amen.

Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Yspryd Glân, a fyddo gyd â ni oll, byth bythoedd. Amen.

## PRYDNHAWN DDYDD SABBATH.

TEILWNG wyt ti, O Arglwydd, i dderbyn gogoniant, anrhydedd, a gallu. Tydi a greaist bob peth, a'th holl weithredoedd a'th foliannant. Llanw ein calonnau, O Dduw, â zêl dros dy ogoniant, fel yr anrhydeddom di drwy arwain bywydau sanctaidd, a thrwy dalu parch mawr i bob peth a berthyn i ti,— dy enw, dy ddydd, dy dŷ, dy ordinhadau,

a'th weinidogion; fel y byddo i eraill, wrth weled ein gweithredoedd da ni, ogoneddu ein Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd.

Diolchwn i ti am freintiau y Sabbath. O na âd i'r dydd gwerthfawr hwn fyned heibio heb gyffrôi ynom ddymuniadau mwy gwresog am bethau nefol. Na âd i ordinhadau y Sabbath gyfodi yn y farn i'n herbyn; eithr dysg ni oll i farchnatta â'n talentau, fel y byddo i'r moddion gras, sy'n awr wedi myned heibio, fod yn fendith barhâus i'n henaid. Pâr i ni ddal yn well ar y pethau a glywsom, rhag un amser i ni eu gollwng hwy i golli. Na âd i ni dderbyn dy Air yn ofer, ond boed yn effeithiol i'n troi oddiwrth gyfeiliornad ein ffyrdd, ac i'n hadeiladu ar ein sancteiddiaf ffydd. Planna ef yn ddwfn yn ein calonnau, fel na allo un gelyn ei ddadwreiddio byth.

Bendithia yr ymdrechiadau daionus a wnaed heddyw i ledaenu Efengyl dy deyrnas. Gwared y byd oddi wrth arglwyddiaeth a gormes Satan, fel y delo teyrnasoedd y ddaear yn deyrnasoedd Iesu Grist. Prysura yr amser a ragfynegodd dy Yspryd, pryd y bydd i'r holl genhedloedd, y rhai a wnaethost ti, dy addoli a gogoneddu dy enw. Bydded i bawb a'th arddelant di fel eu Brenhin, ddyfod yn ddeiliaid ffyddlon i ti. Ymddarostwng, O Arglwydd, i deyrnasu yn eu calonnau, plyga eu hewyllys hwy a ninnau yn gwbl i'th ewyllys di; a pharottôa ni oll drwy dy

ddaionus Ysprryd i deyrnas y gogoniant. Caniattâ wrando gweddïau dy bobl a offrymwyd heddyw dros bob gradd o ddynion.

Bydded i'r Efengyl fod yn allu Duw er iachawdwriaeth i laweroedd---i droi rhai o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw---i gadarnhau'r gweiniaid yn y ffydd—yn agoriad carchar i'r rhai sy'n rhwym, ac yn ddiddanwch i'r enaid gorthrymedig. Attolygwn arnat faddeu i ni bob peth a welaist yn feius ynom y dydd hwn. Maddeu wibiad a bydolrwydd ein meddyliau, oerfelgarwch ein gweddïau, ac anfuddioldeb ein gwasanaeth goreu, a nertha ni i ddefnyddio yn well y breintiau gwerthfawr a deilyngaist i ni.

Derbyn ni, O Arglwydd, a phawb a ddylem eu cofio yn ein gweddïau, i'th dadol nodded y nos hon, a dyro i ni yr hyn oll sydd oreu er ein lles, er mwyn Iesu Grist, ein Harglwydd a'n Hiachawdwr bendigedig. Amen. Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## BORE DDYDD LLUN.

HOLLALLUOG a thragywyddol Dduw, yr hwn yn wastad wyt barottach i wrando, na nyni i weddïo, ac wyt arferol o roddi mwy nag a archom, neu a ryglyddom. Caniattâ ein nerthu i ddyfod o'th flaen dan wir deimlad o'th drugareddau tuag attom, ac â chalonnau gwir ddïolchgar am danynt. Dyro

i ni gael profi mai da yw i ni nesâu at Dduw. O cymmorth ni i'th addoli wrth dy fodd; canys hebot ti ni allwn ni wneuthur dim.

Gwelir ni etto ar dir y byw, mewn meddiant o nerth, iechyd, a chysuron eraill ein bywyd. Yr ydym yn dy fendithio, Arglwydd, am y trugareddau gwerthfawr hyn. Mae llawer a aethant i'w gorwedd-leoedd fel ninnau neithiwyr, wedi huno yn yr angau erbyn hyn; ond ni ddigwyddodd dim niweid i ni, ac ni ddaeth pla yn agos i'n pabell. O cynnorthwya ni i weled llaw dy ragluniaeth yn ein harbediad, a nertha ni i nesâu yn hyderus at dy orseddfaingc fel y derbyniom drugaredd, ac y caffom ras yn gymmorth cyfamserol.

Nid ŷm ni yn hyderu, Arglwydd, ar ein cyfiawnder ein hunain, ond yn dy aml drugareddau di: plant digofaint ydym ni wrth natur, a throseddwyr mewn meddwl, gair, a gweithred o'th lân orchymynion. Dyro i ni wir edifeirwch am bechod a bywiol ffydd yn dy Fab. Gwna ni yn feibion i ti trwy fabwysiad; ac er nad amlygwyd etto beth a fyddwn, eithr pan ymddangoso Crist ein bywyd ni, caniattâ ein bod yn gyffelyb iddo, ac yn cael ei weled megis ag y mae.

Nertha ni i ymddwyn y dydd hwn yn ol yr addysgiadau a gawsom yn dy dŷ y Sabbath sydd newydd fyned heibio. Na âd i ni ollwng o'n côf y gwirioneddau pwysig a glywsom. Boed i'th Lân Yspryd eu hail-

ennyn yn fwy bywiog yn ein calonnau, fel na bo i ni un amser eu gollwng hwy i golli.

Cymmorth ni, Arglwydd, i weddïo yn ddibaid; fel na syrthiom i brofedigaeth. Cadw ni rhag maglau a dichellion Satan, rhag hudoliaethau y byd, a thwyll ein calonnau ein hunain. Beth bynnag a ddigwydd i ni heddyw, cadw ein golwg arnat ti. Na âd i ni gael ein denu gan wên y byd, na chwaith ein dychrynu gan ei ŵg. Caniattâ gofio am ein perthynasau, y rhai sydd anwyl gennym: dyro iddynt oll adnabyddiaeth o Grist. Tosturia wrth holl blant cystudd; dyro iddynt sicrwydd o'u perthynas â Iesu: â'th hael Ysbryd cynnal hwynt; a phan ballo eu cnawd a'u calon, bydd di yn nerth i'w calon, ac yn rhan iddynt yn dragywydd.

Cymmer ni a'r eiddom i'th ofal y dydd hwn. Cadw ni rhag pob peth niweidiol; maddeu i ni ein holl bechodau, a bydd i ni oll yn Dduw iachawdwriaeth yn dy Fab Iesu Grist ein Harglwydd. Amen. Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## PRYDNHAWN DDYDD LLUN.

O ARGLWYDD, ein Tad nefol, ffynnon pob daioni, a Duw pob gras. Yr ŷm yn dychwelyd i ti ein dïolchgarwch gwresoccaf am dy ddaioni i ni y dydd hwn: ti a'n cedwaist yn ofalus hyd ei derfyn; porthaist ni â digon-

edd o fara, ac wele ni yn cael y fraint o'r newydd i ymostwng etto ger bron gorsedd gras. Nertha ni, Arglwydd, i wneuthur hyn mewn edifeirwch dwys am bechod, mewn ffydd ddïysgog yn dy Air a'th addewidion, a chyd âg ymddiried cadarn yn dy allu. Yr ŷm yn dïolch i ti, O Dad, am ddarparu o ddydd i ddydd ar gyfer ein cyrph; ond yn bennaf oll am dy ddarpariaeth i'n heneidiau yn nhrefn dy ras, trwy yr hon y gelli, yn unol â'th gyfiawnder, ein cymmodi â Thi dy hun, heb gyfrif i ni ein pechodau. Er mwyn Iesu, caniattâ faddeu ein pechodau. Maddeu i ni bob dydd o'n bywyd, canys bob dydd, Arglwydd, yr ydym yn sefyll mewn angen am faddeuant. Darostwng ynom ba bethau bynnag sy'n groes i'th ewyllys sanctaidd, a dyro ras i ni i redeg yn ffyrdd dy orchymynion. Cadw bob aelod o honom allan o ffordd profedigaethau, a than nawdd dy ddaionus Yspryd. Na oddef i ni gael ein dal yn ddisymmwth ganddynt, na chael ein temtio uwchlaw yr hyn a allwn ei ddwyn. Dyro ras i ni i'w gwrthwynebu, ac i wylio a gweddïo yn feunyddiol fel nad elom i brofedigaeth.

Cynnorthwya ni i ddefnyddio y talentau a ymddiriedaist i'n gofal; ac na âd i ofalon na phleserau y byd, ein denu oddiwrth y meddyliau am y bywyd a ddaw. Dysg i ni, O Arglwydd, rodio megis ag y rhodiodd Iesu; gan ofalu yn gydwybodol am ein ffyrdd,

a byw beunydd yn dy ofn, fel na bo i ni byth gwympo i'r pechodau yr edifarhasom o'u plegid. Caniattâ fendithio y gymmydogaeth yr ydym yn byw ynddi. Cofia am bob teulu o'i mewn: cynnysgaedda hwy â gras i ofni dy enw ac i fyw er dy glod. Na fydded i neb o honynt esgeuluso yr iachawdwriaeth gymmaint; ond dangos iddynt, Arglwydd, yr angenrheidrwydd o geisio yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef, gan gofio y rhoddir iddynt bob peth arall a fyddo da er eu lles.

Yr wyt Ti yn dda a thrugarog fod yn maddeu i ni; caniattâ, Arglwydd, ein bod ninnau, a phawb o'n cymmydogion, yn maddeu i eraill, gan gofio ein gwendidau ein hunain. A bydded i ni oll fyw yn yr unrhyw dymher gariadlawn, ym mha un yr ydym yn gobeithio ac yn dymuno marw.

Caniattâ, O Arglwydd, ein cysgodi yn oriau'r nos; bydded i'n cyrph gael eu hadfywio, a'n heneidiau eu parottôi erbyn nos angau: a hyn oll a erfyniwn er teilyngdod dy un Mab, Iesu Grist ein Harglwydd. Amen. Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## BORE DDYDD MAWRTH.

HOLLALLUOG Dduw, a thrugaroccaf Dad, yr ydym ni dy weision annheilwng yn dymuno dïolch i ti am ein hamddiffyn yn oriau'r nos a aeth heibio. Ti a gastellaist,

Arglwydd, o'n hamgylch fel na ddigwyddodd i ni ddim niweid, ac na ddaeth pla yn agos i'n pabell. O cynnorthwya ni, nefol Dad, i wneuthur ein haberth hwn o fawl a diolch i Ti am ein harbed hyd yma. Gostwng ein calonnau, O Arglwydd, i geisio yn gyntaf dy deyrnas di a'th gyfiawnder. Bywhâ ni beunydd at yr un peth angenrheidiol. Y nos a gerddodd ym mhell, a'r dydd a nesâodd: am hyny nertha ni i fwrw ymaith weithredoedd y tywyllwch, a gwisgo arfau y goleuni; a chan anghofio y pethau sy o'r tu cefn, dysg ni i ymestyn at y pethau o'r tu blaen, fel y cyrchom at y nôd am gamp uchel alwedigaeth Duw yng Nghrist Iesu.

Argyhoedda ni fwy-fwy o bechod, fel y delom o'th flaen mewn edifeirwch am dano, a chyd â llawn fwriad i'th wasanaethu holl ddyddiau ein bywyd. Goleua ein deall i weled gogoniant a phrydferthwch yr Iesu, ac i ganfod ein trueni, fel y delom i ffieiddio ein hunain mewn llwch a lludw.

Dysg ni i gyfrif pob peth yn dom, fel yr ynnillom Grist, ac y'n ceir ynddo Ef, heb ein cyfiawnder ein hunain. Una ein calon fel teulu i ofni dy enw. Ychwanega ynom wir grefydd, maetha ni â phob daioni, a chadw ni beunydd yn yr unrhyw.

Trugarhâ wrth bawb sydd mewn cystudd a thrallod. Anfon ymwared iddynt o'th gyssegrfa. Tosturia wrth y rhai sydd yn

rhedeg ar hyd ffordd distryw: a dychwel hwynt i'r ffordd sydd yn arwain i'r bywyd.

Llwydda bob ymdrech i wneuthur daioni. Bendithia gennadwri dy weision, a chwanega beunydd at yr Eglwys y rhai fyddant gadwedig: aed newyddion da yr Efengyl hyd eithaf y ddaear, fel y gwelo pob cnawd iachawdwriaeth ein Duw ni. Caniattâ, Arglwydd, i ni gael dechreu y dydd hwn yn dy nerth—ei dreulio yn dy ofn, a'i orphen yn dy ffafr. Arwain ni heddyw, a phob amser, â'th gyngor, ac yn y diwedd cymmer ni i'th ogoniant, er mwyn dy un Mab, Iesu Grist ein Harglwydd, i'r hwn gyda thi a'r Yspryd Glân bydded y gogoniant a'r gallu, yn oes oesoedd. Amen. Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## PRYDNHAWN DDYDD MAWRTH.

O ARGLWYDD gogoneddus a dyrchafedig, yr hwn wyt yn rhoddi yn haelionus i bawb ac heb ddannod, nyni greaduriaid aflan a halogedig a nesâwn attat i erfyn am drugaredd, a gras i faddeu i ni, a'n sancteiddio. Ni a'th fendithiwn di am drefnu o honot ffordd iachawdwriaeth i bechaduriaid colledig. Ni a ddiolchwn i ti am estyn ein dyddiau, a pharhâu i ni dy drugareddau ddydd a nos. Dysg ni i ystyried y bywyd hwn fel yr unig amser i ymbarottôi erbyn tragywyddoldeb. Cymmorth ni i brynu'r

amser, ac i gyflawni y gwaith a roddaist i ni i'w wneuthur: y mae'r nos yn dyfod pryd na ddichon neb weithio.

Nertha ni, O Arglwydd, drwy dy Lân Ysprydd, o ddydd i ddydd, i ffoi at Grist megis ein hunig noddfa rhag y llid a fydd. Boed Efe yn ymguddfa i ni rhag y gwynt, yn lloches rhag y dymmestl, ac megis cysgod craig fawr mewn tir sychedig. Dangos i ni dy ffordd, Arglwydd, a dysg i ni dy lwybrau; a boed i ni gael profiad fod dy ffyrdd di yn ffyrdd hyfrydwch, a'th holl lwybrau yn heddwch. Na âd i ni gyd-ymffurfio â'r byd hwn; eithr ymnewidiwn trwy adnewyddiad ein meddwl, fel y profom beth yw daionus, a chymmeradwy, a pherffaith ewyllys Duw.

Caniattâ er mwyn dy anwyl Fab, yr hwn sy'n byw bob amser i eiriol drosom, faddeu i bob un o honom ein holl gamweddau i'th erbyn, ac na âd i un o'n pechodau ein canlyn i'n gwelyau heb edifarhâu am dano, ac heb ei faddeu. Dilea ein camweddau fel cwmmwl, a'n pechodau fel niwl: a thra bom yn erfyn am faddeuant am danynt, dyro ras i ni i ymadael â hwynt, a'u gochelyd rhag llaw. Adnewydda ni, nefol Dad, yn ol dy ddelw dy hun, mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd. Crea galon lân ynom, O Dduw: pura ni oddiwrth bob anwiredd, ac na chymmer dy Yspryd sanctaidd oddi wrthym.

Ni a ddïolchwn i ti, O Arglwydd, am holl

fendithion y dydd hwn, ac attolygwn arnat adnewyddu dy drugareddau tuag attom, gan ein cadw ni rhag pob drwg yn oriau y tywyllwch. Hyn oll i nyni ac i eraill yr ydym yn eu herfyn, er teilyngdod dy un Mab Iesu Grist, ein Harglwydd. Amen. Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## BORE DDYDD MERCHUR.

O ARGLWYDD graslawn a thrugarog, Ti fuost yn breswylfa i ni ym mhob cenhedlaeth. Cyn gwneuthur y mynyddoedd, a llunio o honot y ddaear a'r byd: Ti hefyd wyt Dduw o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb. Mae dy drugareddau parhâus yn galw yn wastad arnom am foliant ac ufudd-dod. Mae dydd i ddydd, a nos i nos, yn tystio dy fod di yn ddaionus i rai anniolchgar a drwg. Yr ydym yn bendithio dy enw sanctaidd am dy hir-ymaros tu ag attom, er maint ein hannheilyngdod, yn ein dwyn hyd ddechreu y dydd heddyw. Dangosi wrth hyn, O Arglwydd, nad wyt yn ymhoffi yn marwolaeth y pechadur, eithr yn hytrach ymchwelyd o hono oddi wrth ei anwiredd, a byw. O gwna ni oll yn edifeiriol am ein pechodau. Boed eu coffa yn drwm gennym, a'u baich yn anoddefadwy. Crea ynom, O Arglwydd, galonnau newydd a drylliedig, fel y bo i ni gan ddolurio am ein pechodau, a

chyfaddef ein trueni, gaffael gennyt ti, Dduw yr holl drugaredd, gwbl faddeuant a gollyngdod, er mwyn Iesu Grist ein Harglwydd.

Parottôa ni oll erbyn ein hymadawiad â'r fuchedd hon. Nid oes yma i neb o honom ddinas barhâus. Mae edau fèr ein heinioes yn dirwyn yn gyflym i ben; ac yn fuan iawn byddwn oll wedi ein rhifo gyd â'r meirw. Na foed i ni, O Arglwydd, byth anghofio y dydd hwnnw, pan raid i bob un o honom drosto ei hun roddi cyfrif i Dduw. Boed ein lwynau wedi eu gwregysu, a'n lampau yn llosgi, a ninnau yn debyg i rai yn disgwyl am ein Harglwydd, fel pan ddelo ar gymmylau y nef i farnu'r byw a'r meirw, y gallom sefyll yn hyderus o'i flaen; a bod ym mhlith y dorf ogoneddus a wahoddir ganddo i ddyfod i mewn i'w deyrnas dragywyddol yn y nef.

Derbyn ein gweddïau dros bob gradd o ddynion: boed iddynt yn eu galwedigaeth a'u gwasanaeth, dy wasanaethu di yn gywir ac yn dduwiol, ac ymroddi i bob gweithred dda; fel y delont i'r llawenydd tragywyddol a barottöaist i'r rhai a'th garant yn ddiffuant, trwy Iesu Grist ein Harglwydd, a'n Hiachawdwr bendigedig. Amen. Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## PRYDNHAWN DDYDD MERCHUR.

O ARGLWYDD, a nefol Dad, ceidwad holl deuluoedd y byd, a gobaith holl

gyrrau'r ddaear; daionus a thrugarog wyt i bawb: dy drugaredd sydd ar dy holl weithredoedd. Ti a'n gwnaethost ni, ac nid ni ein hunain, dy bobl di ydym a defaid dy borfa. Gan hyny ni a addolwn ac a syrthiwn i lawr ac a ostyngwn ger bron yr Arglwydd ein Gwneuthurwr.

Yr ŷm ni yn annheilwng, O Arglwydd, i offrwm i Ti un aberth; ond ti a osodaist i ni Arch-offeiriad mawr, yn enw yr Hwn y gorchymynaist i ni nesâu yn hyderus at dy orseddfaingc, fel y derbyniom drugaredd, ac y caffom ras yn gymmorth cyfamserol. Na âd i ni nesâu o'th flaen â'r gwefusau yn unig, ond nertha ni i dywallt ein calonnau ger dy fron mewn ffydd yn enw Iesu, fel y gweddai i'r sawl sydd mewn cymmaint eisiau a nyni. Dïolchwn i ti, nefol Dad, am ein cadw y dydd hwn rhag perygl ac adfyd; ac am bob bendith a gawsom oddi ar dy law: attolygwn arnat faddeu i ni pa bethau bynnag a wnaethom heddyw ar gam ac yn erbyn dy ddwyfol Fawredd. Maddeu, O Arglwydd, ein pechod, canys mawr yw, a dyro i ni wir edifeirwch a'th Ysbryd Glân, fel y byddo boddlon gennyt y pethau yr ydym y pryd hwn yn eu gwneuthur, a bod y rhan arall o'n bywyd rhag llaw yn bur ac yn sancteiddiol, megis y delom o'r diwedd i dir y bywyd tragywyddol.

Erglyw ni dros bawb. Gwna ddaioni i Sïon, ac adeilada furiau Jerusalem. Pâr i'r

drygionus adael ei ffordd, a'r gwr anwir ei feddyliau; a dychwelyd attat ti, yr hwn wyt yn arbed yn helaeth. Tosturia wrth bawb sydd yn glaiar yn dy wasanaeth; bywhâ hwynt â'th Yspryd i fod yn zelog, ac i edifarhâu a gwneuthur eu gweithredoedd cyntaf. Trugarhâ wrth y rhai sy'n alarus a blinderog, gan faich eu pechodau: cadw hwynt rhag pob meddyliau anobeithiol, a chwanega eu ffydd, fel y caffont orphwysdra i'w heneidiau. Caniatta fendithio ein grasusaf frenhines: llywodraetha ei chalon yn dy ffydd, ofn, a chariad, boed iddi ymddiried byth ynot, ac ymgais yn wastad â'th anrhydedd a'th ogoniant.

I'th ddwylaw di y gorchymynwn yn awr ein hunain a'r eiddom y nos hon. Boed i ni gael gorwedd i lawr a gorphwys mewn dïogelwch: a'r cwbl a erfyniwn yn rhad, er mwyn ein Gwaredwr bendigedig, Iesu Grist ein Harglwydd. Amen. Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## BORE DDYDD IOU.

O DRUGAROG Dduw, nyni yn ostyngedig a ddïolchwn i Ti am ein harbed y nos a aeth heibio, a'n dwyn yn ddïangol hyd ddechreu y dydd hwn. O! mor aml, Arglwydd, yw dy dosturiaethau tu ag attom. Dy drugareddau di sydd wedi ein maethu; dy ragluniaeth di sydd wedi ein cadw; dy

ras di sydd wedi ein harwain o'n mabandod hyd heddyw; dy lygaid effro di a'n gwyliodd rhag cynnifer peryglou corph ac enaid ag a fuom yn agored iddynt. Yngwyneb y fath brofion o'th gariad, gwared rhag fod neb o honom yn anniolchgar; a dysg ni oll nid yn unig i gydnabod ein dïolchgarwch, ond hefyd i fyw er dy ogoniant, gan ymwadu â phob peth, a'th ddilyn di y gwir Dduw. Nid yn unig y mae dy drugareddau tymhorol yn aneirif, ond hefyd dy drugareddau ysprydol. Am y rhai hyn hefyd, O nefol Dad, dymunem ddïolch i Ti. Ti a agoraist ffynnon i bechod ac aflendid. Rhoddaist i ni Waredwr sydd gadarn i iachâu: darperaist ddinas noddfa i ffoi iddi. Rhoddaist dy Fab yn Feddyg i feddyginiaethu ein clwyf—yn Fugail i'n gwylio a'n porthi—yn Arweinydd i gyfeirio ein traed yn ffordd tangnefedd—ac yn Arch-offeiriad i eiriol drosom. O! caniattâ fod i'th aml drugareddau hyn ein tywys i wir edifeirwch, a'n dwyn i'th wasanaethu yn ffyddlon yn ol ein gallu, fel pan ddelo Iesu ar gymmylau y nef i farnu'r byw a'r meirw, y gwahodder pob un o honom i fyned i mewn i lawenydd ein Harglwydd.

Cynnorthwya ni y dydd hwn a phob amser i ddilyn esampl Iesu a'th ffyddlon bobl: i rodio gyd â Thi fel Enoch; i osod yr Arglwydd yn wastad ger ein bron fel Dafydd; i ymwroli yn dy waith fel Moses, fel rhai yn

gweled yr Anweledig, gan farnu yn fwy golud ddirmyg Crist, na holl drysorau y byd hwn; fel pan ddelom at derfyn ein taith, y gallom ddywedyd gyd â Simeon, "Yr awr hon, Arglwydd, y gollyngi dy was mewn tangnefedd yn ôl dy air, canys ein llygaid a welsant dy iachawdwriaeth." Caniattâ hyn, er mwyn dy un Mab Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## PRYDNHAWN DDYDD IOU.

NID ŷm ni yn rhyfygu dyfod o'th flaen Di, drugarog Arglwydd, gan ymddiried yn ein cyfiawnder ein hunain, eithr yn dy aml a'th ddirfawr drugareddau di. Nid ydym deilwng cymmaint ag i gyfodi ein golygon i fynu attat: eithr Tydi yw'r un Arglwydd, yr hwn bïau o briodoldeb yn wastad drugarhâu. Caniattâ i ni, gan hynny, dy ras, fel y delom o'th flaen fel creaduriaid o flaen eu Creawdwr; fel carcharorion o flaen eu Barnwr; fel pechaduriaid o flaen eu Gwaredwr; ac fel plant o flaen eu Tad tyner a thrugarog. I ti, Arglwydd, y perthyn cyfiawnder, ond i ni gywilydd wynebau; a chennyt Ti y mae trugareddau a maddeuant, er gwrthryfela o honom i'th erbyn.—Pechasom yn dy erbyn y dydd hwn ar feddwl, gair, a gweithred; caniattâ faddeu i ni, er mwyn Iesu, yr Hwn sydd yn byw bob amser i eiriol drosom.

Golch ni yn llwyr ddwys oddi wrth ein pechodau yn ei waed Ef; crea galon lân ynom, O Dduw, ac adnewydda yspryd uniawn o'n mewn.—Derbyn ein dïolch am dy drugareddau i ni y dydd hwn. Cofia am bawb a ddylem eu coffâu o'th flaen: ein Brenhines, a phawb sy mewn awdurdod dani; ein perthynasau a'n cyfeillion; a chynnysgaedda hwy oll â gras i'th wasanaethu ym mhob peth.

Bendithia ac amddiffyn dy Eglwys. Gwisg ei gweinidogion âg iawnder, a goleua hwynt âg iawn wybodaeth a deall dy air, fel y gallont, trwy eu pregeth a'u buchedd, ei fynegi a'i ddangos yn ddyladwy. Parhâed brawdgarwch yn ein mysg, fel aelodau o'r un teulu ysprydol, fel plant i'r un Tad nefol, a chydetifeddion o'r un addewid. Attolygwn i Ti ein cadw y nos hon. Cadw ni oddi fewn ac oddi allan, sef enaid a chorph; fel yr ymddiffyner ni rhag pob gwrthwyneb a ddigwyddo i'r corph, a rhag pob drwg feddwl, a wna niwaid i'r enaid; a hyn a erfyniwn er mwyn Iesu Grist, dy Fab di, a'n Harglwydd ni. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## BORE DDYDD GWENER.

O ARGLWYDD ein Duw, yr hwn a wnaeth nefoedd a daear, y môr a'r hyn oll y sydd ynddynt, yr hwn sydd yn cadw

gwirionedd yn dragywydd, yn cynnal yr amddifad a'r weddw, ac yn dadymchwel ffordd yr annuwiol. Ti, O Dduw, yw ein Creawdwr, ein Ceidwad, a'n Llywodraethwr; nid ar law gŵr a rodio y mae llywodraethu ei gerddediad. Nid ŷm ni yn ddigonol o honom ein hunain i feddwl dim megis o honom ein hunain, eithr ein digonedd ni sydd o honot Ti.

Edrych yn drugarog arnom, er mwyn dy Fab; dyro ras i ni i edifarhau a dychwelyd oddiwrth ein ffyrdd drygionus. Bydded i ni oll ymdrechu i fyned i mewn trwy'r porth cyfyng; ac i roddi pob diwydrwydd i wneuthur ein galwedigaeth a'n hetholedigaeth yn sicr, gan wybod fod y nos yn dyfod, pan na ddichon neb o honom weithio. Gwna ni yn rhai sobr, a gwyliadwrus i weddïau: y mae ein gwrthwynebwr Diafol megis llew rhuadwy yn rhodio oddi amgylch, gan geisio y neb a allo ei lyngcu: nid oes ynom na nerth na gallu i'w wrthsefyll. Cymmorth di ni, gan hynny, O Arglwydd, i'w wrthwynebu yn y ffydd---boed ein ffydd yn gadarn yn Iesu, ein gobaith yn ddisigl ynddo Ef, a'n cariad yn sefydlog arno, fel y gwypom mai dy wir ras di yw yr hwn yr ydym yn sefyll ynddo.—Estyn i ni gynnorthwy dy lân Yspryd i groeshoelio'r cnawd, ynghyd â'i wyniau a'i chwantau, fel y gallom dy wasanaethu di yn iawn ac yn ddyladwy. Yn gwneuthur daioni na ddiffygiwn; nid ydwyt ti, O Arglwydd,

yn pallu yn dy ddaioni tu ag attom ni; a chan dy fod yn ymhyfrydu yn llwyddiant dy weision, felly boed yn deilwng gennyt ganiattâu i ni dderbyn cysur a diddanwch yn dy wasanaeth.

Attolygwn i ti, Nefol Dad, dderbyn ein dïolch, am ein cadwraeth y nos a aeth heibio, ac am bob trugaredd a dderbyniasom oddi ar dy law; eithr uwch law pob dim am dy anfeidrol gariad ym mhrynedigaeth y byd, trwy ein Harglwydd Iesu Grist; am foddion gras, ac am obaith gogoniant.—Er ei fwyn Ef caniattâ faddeu ein pechodau, golch ni yn ei waed, a dwg ni yn y diwedd i'th deyrnas dragywyddol. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## PRYDNHAWN DDYDD GWENER.

HOLLALLUOG a thragywyddol Dduw, yr hwn a addewaist wrando eirchion y rhai a ofynant yn Enw dy Fab. Attolygwn arnat dosturio wrthym, a'r pethau hynny y rhai o blegid ein hanneilyngdod ni feiddiwn, ac oblegid ein dallineb ni fedrwn eu gofyn, fod yn deilwng gennyt eu rhoddi i ni, er teilyngdod Iesu Grist.—Tydi a ddywedaist, yn dy air, O Arglwydd, mai un peth sydd angenrheidiol; dysg ni gredu hyn, ac i ddewis y rhan dda yr hon ni ddygir oddi arnom. Dyro i ni ras i fod yn ddïolchgar am holl gy-

suron y dydd hwn. Maddeu ein holl bechodau: ein hesgeulusdra yn gwneuthur daioni; a gwna ni yn fwy awyddus i weithredoedd da. Gwared ni rhag byw yn ddiystyr o bethau ysprydol. Dysg ni wir adnabod ein hunain, a'r Hwn a anfonaist i'r byd i gadw pechaduriaid, Iesu Grist ein Harglwydd. Rho i ni wir grediniaeth ynddo; na âd i ni orphwys nes cael ein cymmodi â thi dy hun, trwy ei gyfryngdod Ef—dyro i ni ras i fyw megis dïeithriaid a phererinion ar y ddaear, gan roddi ein serch yn gwbl ar bethau sydd uchod. Parottoa ni oll erbyn angau a barn; a chymmwysa ni i gael rhan o etifeddiaeth y Saint yn y goleuni.

Tosturia wrth bawb sydd mewn clefyd ac amgylchiadau cyfyng; tosturia wrth y rhai sy'n rhodio mewn tywyllwch, ac heb lewyrch iddynt: dangos iddynt eu perygl; arwain hwynt hyd lwybr y bywyd—hyd ffordd nid adnabuant; gwna dywyllwch yn oleuni o'u blaen hwynt, a'r pethau ceimion yn uniawn. Bydd drugarog wrth y plwyf lle yr y'm yn byw, a'r Eglwys yr y'm yn perthyn iddi. Tosturia wrth ein gwlad a'n teyrnas, ac na fydded i'n gwaeddfawr bechodau beri i ti gilio oddiwrthym. Cofia ac amddiffyn ein brenhines a'i theulu, fel y caffom dani hi fyw yn dduwiol ac yn heddychol. Bydd drugarog wrth ein perthynasau, ein cyfeillion, a'n cymmydogion; dangos iddynt dy drugaredd, a dod iddynt

dy iachawdwriaeth. Caniattâ ein gwrando, er mwyn Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.
Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## BORE DDYDD SADWRN.

O ARGLWYDD, yr hwn ydwyt fawr, ac yn gwneuthur rhyfeddodau: ti yn unig wyt Dduw, ac nid arall. Edrych arnom a thrugarha wrthym: deued ein gweddi ger dy fron; gostwng dy glust at ein llefain. Gyda thaerineb, yn gystal a chywirdeb, y dymunem ymbil am dy fendith. Yn dy foddlonrwydd y mae bywyd; bydded i ni ei geisio â'n holl galon. Yr ydym yn llawenhau fod i ni ryddid croesawus i ddyfod i'th wyddfod sanctaidd, fel Gwrandawr gweddi. O na ddanfon ni ymaith y bore hwn yn waglaw, ond caniattâ lenwi ein heneidiau â bendithion dy ras. Yr ydym yn nesâu yn ostyngedig attat, dan deimlad o wendid ac euogrwydd. Deuwn attat fel plant afradlon, wedi crwydro ym mhell o dŷ eu Tad; gwyddom, os arhoswn ym mhell oddiwrthyt, y rhaid i ni farw o newyn. O Dad, pechasom yn erbyn y Nef, ac o'th flaen dithau, ac nid ydym mwyach deilwng i'n galw yn feibion i ti; er hynny dewisem y lle gwaelaf yn dy dŷ di, o flaen uchelleoedd anwiredd, a chwenychem gael ein porthi â'r briwsion sydd yn syrthio oddi ar dy fwrdd di, yn hytrach na chael mwyniant

pechod dros amser. Caniattâ ras i ni heddyw i gadw ein calon yn dra dïesgeulus; canys allan o honi y mae bywyd yn dyfod. Cynnal ni â'th ras yn llwybr pob dyledswydd. Cynnal di ni, a dïogel fyddwn.

Boed i ni fyned at ein gorchwylion yn dy nerth di; a thra yn ddiwyd yn ein galwedigaeth, boed i ni fod yn yr yspryd yn gwasanaethu yr Arglwydd: tra yn llafurio am y bwyd a dderfydd, gyda mwy o ddiwydrwydd boed i ni lafurio am yr hwn a bery i fywyd tragywyddol. Boed ein hamcan yn y cwbl i ogoneddu dy Enw; ac ym mhob amgylchiad dysg ni wneuthur i eraill, fel y dymunem i eraill wneuthur i ninnau. Cadw ni heddyw rhag y peryglon a amgylchant ein llwybrau. Dysg ni i ochelyd pob rhith drygioni, a'th osod di yn wastad ger ein bron. Yr holl bethau hyn yr ydym yn ostyngedig yn eu herfyn, er mwyn Iesu Grist: i'r Hwn, gyd â'r Tad, a'r Yspryd Glân, y byddo yr holl anrhydedd a gogoniant. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## PRYDNHAWN DDYDD SADWRN.

HOLLALLUOG Dduw, a thrugaroccaf Dad, Duw pob cysur a diddanwch, a chymmorth pawb sy'n disgwyl wrthyt. Yr wyt wedi ein dwyn yn ddïangol hyd ddiwedd wythnos etto; sobra ni oll i ystyried fod di-

wedd pob peth yn nesâu. Beth ydyw ein heinioes ni ond tarth, yr hwn sydd dros ychydig yn ymddangos, ac wedi hynny yn diflanu! Mor fŷr yw'r einioes hwyaf! mor freuol y mwyaf cadarn! a phan mae pob peth yn ymddangos i ni yn ddiogel, "ni wyddom beth a ddigwydd mewn diwrnod," na pha mor fuan y gelli ddyfod heb i ni ddisgwyl, i'n galw i'n cyfrif diweddaf! yn ebrwydd y byddwn fel dwfr a dywelltir ar y ddaear, yr hwn ni ellir ei gasglu i fynu mwy. Yn ebrwydd y cippir ni oddi yma, a'n "lle nid edwyn ni mwy." Buan iawn y disgyn ein cyrph i'r bedd, ac y gelwir ein heneidiau i ymddangos ger bron brawdle Crist, i dderbyn ein barn dragywyddol, naill ai i wynfyd, neu i drueni. Ac etto, O Arglwydd, pa fodd y mae y rhan fwyaf o ddynion yn byw yn y byd hwn, megis pe na baent byth i ymadael âg ef! Mor anghofus ydym ni oll o'n diwedd. Mor ddiddarbod o'n hamser! mor ddiofal am ein heneidiau! ac mor esgeulus yn ein hymbarottoad am dragywyddoldeb! yn gyfiawn y gallasit ein tori ymaith ynghanol ein pechodau a'n hammharodrwydd i ymddangos ger dy fron. Ond, O Dduw pob cysur a thrugaredd, na chofia ein pechodau yn dy erbyn, eithr meddwl am dy gariad dy hun tu ag attom yng Nghrist Iesu, a'th dyner drugareddau, y rhai ydynt erioed, "Cofia pa amser sydd i ni," a dysg i ni felly gyfrif ein dyddiau

fel y dygom ein calon i ddoethineb. O! na baem ni oll yn feddylgar am yr un peth angenrheidiol, sef y rhan dda, yr hon ni ddygir oddi arnom.

Ni attolygwn i ti gastellu o'n hamgylch y nos hon, i'n cadw rhag pob drwg, fel y bo i'n cyrph gael eu hadfywio at waith y Sabbath: os arbedir ni i'w weled, gwna ef yn ddydd o orphwysdra ysprydol i'n henaid. Parottöa dy weinidogion i ddyfod attom y fory gyda chyflawnder bendith Efengyl Crist. Cynnysgaedda hwy â doniau addas i'w gwaith, fel y gallont wneuthur pob peth er adeiladaeth. A chan fod ein Sabbathau yn myned heibio mor gyflym, O deffro a bywhâ ni i'th geisio di yn dy ordinhadau, tra galler dy gael, a galw arnat tra fyddech yn agos. Caniattâ wrandaw ein gweddïau hyn, a'n holl weddïau y buom yn eu cyflwyno i ti yr wythnos a aeth heibio; maddeu pob peth oedd bechadurus ynom, a dyro i ni yr hyn oll a wyddost ti sydd arnom eu heisiau, er teilyngdod dy Fab, Iesu Grist ein Harglwydd Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

---

## YR AIL WYTHNOS.

### BORE DDYDD SABBATH.

YR ydym ni yn ostyngedig yn dïolch i Ti, drugaroccaf Dad, am ein harbed i weled

Sabbath newydd etto. Dyro i ni barottôad y galon sy'n dyfod oddi wrthyt ti, fel yr elom i'th byrth heddyw â diolch, ac i'th lysoedd â moliant gennym. Dysg ni i sancteiddio dy ddydd yn ol dy orchymyn; a bydded myfyrdod ein calonnau ac ymadroddion ein genau yn gymmeradwy ger dy fron. Cadw ni rhag un amser ymfoddloni ar fyned trwy gylch o ddyledswyddau crefyddol, fel boddlonwyr dynion, heb i'n heneidiau gael lles ysprydol oddi wrthynt. Bydded i ni dy addoli mewn yspryd a gwirionedd: esgynned ein moliant i fynu yn wresog o galon bur, a chymmeradwyer ein gweddïau yn enw a chyfryngdod Iesu Grist. Cynnysgaedda dy weinidogion, O Arglwydd, â gras a nerth, fel y byddont ffyddlawn i Grist ac i eneidiau.---Llanw hwynt â gwres sanctaidd yn eu gwaith: gwna hwynt yn ffyddlawn i'w hymddiried pwysfawr; boed i ddeuparth o'th Yspryd orphwys arnynt, fel y gallont iawn gyfrannu gair y gwirionedd, gan roddi i bob un ei luniaeth yn ei bryd. O boed i air yr Arglwydd redeg a chael gogonedd, fel y caffo Crist ei ogoneddu ac eneidiau eu cadw i fywyd tragywyddol. Bendithia dy was yr hwn sydd yn gweini i ni mewn pethau sanctaidd. Bydd di yn enau ac yn ddoethineb iddo; a thuedda ninnau i dderbyn ei addysgiadau gyd â pharodrwydd a serch.---Caniattâ fendithio y teulu hwn.

Bydded i bawb o honom ddefnyddio y cyfleusderau a ddygir heddyw o fewn ein cyrhaedd. Na oddef i neb o honom fod yn ddïofal am ein Iachawdwriaeth. Boed i ni hiraethu am gymmundeb â Christ yn ordinhadau ei Ras. Gyr ymaith bob rhagfarn o'n calonnau, a phâr i ni dderbyn trwy addfwynder yr impiedig Air, yr hwn a ddichon gadw ein heneidiau.--Llwydda dy waith dros wyneb yr holl fyd. Boed i bechaduriaid gael eu dychwelyd, a'r saint eu hadeiladu ar eu sancteiddiaf ffydd.---Caniattâ dderbyn ein dïolch am drugareddau y nos a aeth heibio, a maddeu ein holl bechodau, er mwyn Iesu Grist dy Fab di, a'n Harglwydd ni. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## PRYDNHAWN DDYDD SABBATH.

O ARGLWYDD, Creawdwr a Cheidwad pob rhyw ddyn, cynnorthwya ni i amgylchu gorsedd-faingc dy ras gyd â gwylder a pharchedig ofn: pâr i ni gael cymmundeb â Thi fel Duw ein iachawdwriaeth. Y mae yn hoff gennym gyfarfod, yn niwedd Sabbath arall, o amgylch dy orseddfa. O llanw ein calonnau â chariad, a'n geneuau â mawl; caniatta na fyddo i'r geiriau a glywsom heddyw yn dy Dŷ gael eu dilëu o'n meddyliau, eithr bod iddynt drigo ynom, a dwyn ffrwyth i fywyd tragywyddol. Gwyddom nad allai

Paul ond plannu, ac Apollos ond dyfrhâu, ac mai i Ti y perthyn rhoi y cynnydd. Yr ydym yn dyrchafu ein llygaid attat mewn gweddi daer, am y cynnydd hwnnw. Boed i'r Had a hauwyd heddyw gael dyfnder daear yn ein calonnau. Bydded i gynnar a diweddar wlaw yr Yspryd ddisgyn arnom----Os ydym yn caru Iesu, dysg ni i gadw Ei orchymynion. Na foed i ni dwyllo ein hunain âg enw ein bod yn fyw, a ninnau yn farw. O cynnorthwya ni i ddwys ystyried y pethau a berthynant i'n heddwch, rhag iddynt gael eu cuddio dros byth oddi wrthym.--Ni attolygwn i ti lwyddo ymdrechiadau pawb a fuont heddyw yn llafurio ac yn pregethu dy air. Boed iddynt gael achos i ddywedyd na lafuriasant yn ofer ac am ddim.---Gwrando holl weddïau dy bobl a offrymwyd heddyw dros bob gradd o ddynion.---Llwydda dy achos dros wyneb y byd: llefara heddwch i'r Cenhedloedd; a boed dy lywodraeth o fôr hyd fôr, ac o'r afon hyd eithafoedd y ddaear.---Nyni attolygwn i ti argyhoeddi yr annuwiol o ddrygioni eu gweithredoedd, a'u troi oddi wrth eu holl annuwioldeb, fel y byddont byw, ac na byddont farw. Pâr iddynt ystyried mai cyflog pechod yw marwolaeth; a dysg hwynt i geisio bywyd tragywyddol trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Derbyn ni, O Arglwydd, a phawb a ddylem eu cofio yn ein gweddïau, i'th Dadol nodded

y nos hon, a rhagora ar ddim a allwn ei ofyn, er mwyn Iesu Grist. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## BORE DDYDD LLUN.

O ARGLWYDD mawr, ofnadwy yn dy farnedigaethau, a rhyfeddol yn dy weithredoedd, yr Hwn wyt yn llenwi'r nefoedd â'th ogoniant, a'r ddaear â'th drugaredd. Attolygwn i ti ein meddiannu â syniadau addas am dy fawredd, fel y delom yn isel ac yn ostyngedig o'th flaen. Pâr i ni ystyried dy fod yn lanach dy olygon fel nas gelli edrych ar ddrwg: ac nad yw y sêr yn bur yn dy olwg di. Pa faint llai dyn, yr hwn sydd bryf, a mab dyn, yr hwn sydd abwydyn? O dysg ni, gyd âg arswyd sanctaidd, i fyfyrio ar dy fawredd. Dy holl weithredoedd a'th glodforant, a'th saint a'th fendithiant. Boed i'n heneidiau dy fendithio, O Arglwydd, a chwbl sydd ynom dy enw sanctaidd di; yr hwn sydd yn maddeu ein holl anwireddau, yn iachâu ein holl lesgedd, ac yn ein coroni â thrugaredd ac â thosturi, fel yr adnewydder ein hieungctid fel yr eryr.---Dymuniad ein calon y boreu heddyw yw gogoneddu dy enw sanctaidd am ein harbed hyd yma. Dy drugareddau di yw na ddarfu am danom. Trugarog a graslawn fuost tuag attom bob amser, a hynny yngwyneb ein pechodau, y

rhai o ddydd i ddydd a wnaethom i'th erbyn ar feddwl, gair, a gweithred. Attolygwn i Ti, er mwyn Iesu, faddeu ein pechodau. Attolwg, Arglwydd, achub yn awr; attolwg, Arglwydd, pâr yn awr lwyddiant. Gogwydda dy glust at ein hymadroddion: ystyria ein myfyrdod; gwrando ar lef ein gwaedd, ein Brenhin a'n Duw, canys attat ti y dyrchafwn ein golygon. Caniatta gofio am dy Eglwys gyffredinol ym mhob man: bydd yn fur o dân o'i hamgylch, ac yn ogoniant o'i mewn. Cofia am ein gwlad yn gyffredinol. Maddeu ein pechodau fel cenedl, a chadw dy farnedigaethau oddi wrthym. Parhâed dy rasol nodded i'n Brenhines, a phawb sy mewn awdurdod dani: llwydda ei holl ymgynghoriadau, er derchafiad i'th ogoniant, er daioni i'th Eglwys, ac er llesâd cyffredinol ein gwlad; fel y bo heddwch a dedwyddwch, gwirionedd a chyfiawnder yn sefydlog yn ein plith trwy'r holl genhedlaethau. Hyn oll a erfyniwn, er mwyn Iesu Grist. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## PRYDNHAWN DDYDD LLUN.

HOLLALLUOG Dduw, Tad ein Harglwydd Iesu Grist, yr ydym yn ostyngedig yn deisyf arnat yn drugarog dderbyn ein diolch am ein dwyn i derfyn y dydd hwn: dydd i ddydd a draetha ymadrodd, a

nos i nos a ddengys wybodaeth. Dysg ni i ystyried fod tymmor ein prawf ar y ddaear yn prysuro yn fuan at derfyniad: y nos a gerddodd ym mhell, a'r dydd a nesâodd: boed i ni, gan hynny, fwrw oddi wrthym weithredoedd y tywyllwch, a gwisgo arfau y goleuni. Cynnorthwya ni i ystyried, ei bod hi yn bryd i ni weithian ddeffroi o gysgu: canys yr awrhon y mae ein hiachawdwriaeth ni yn nes na phan gredasom. Dyro i ni ras i ymwrthod â phob pechod; i rodio yn wedd-us, megis wrth liw dydd; nid mewn cyfedd-ach a meddwdod, nid mewn cyd-orwedd ac anlladrwydd, nid mewn cynnen a chenfigen; eithr, i wisgo am danom yr Arglwydd Iesu Grist, heb wneyd rhag-ddarbod dros y cnawd, er mwyn cyflawni ei chwantau ef.—Cyn-northwya ni i gyflawni addunedau ein bed-ydd, sef i ymwrthod â Diafol, ac â'i holl weithredoedd, coeg-rodres a gwag orfoledd y byd, a'i holl chwantau cybyddus, ac anys-prydol ewyllys y cnawd, a dysg ni i fyw yn sobr ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol yn y byd sydd yr awr hon.—Dïolchwn i ti, nefol Dad, am dy drugareddau i ni y dydd hwn. Ti a'n cedwaist rhag maglau a themtasiynau y Di-afol: buost yn nodded i ni rhag tymmestl, yn gysgod rhag gwres: cedwaist ni rhag ing, amgylchynaist ni â chaniadau ymwared. Yn ufudd attolygwn arnat estyn dy Dadol am-ddiffyn trosom y nos hon. Cadw ein per-

sonau a'n meddiannau; ac os arbedir ni hyd y bore, cynnorthwya ni i fyned at ein gwahanol alwedigaethau, ac i dreiddio trwy 'r pethau bydol, modd na chollom yn y diwedd y pethau tragywyddol.

Caniattâ gofio am ein perthynasau a'n cyfeillion: diddana y cleifion: cynnorthwya y gorthrymedig, a phar lawenydd i'r rhai sy'n galaru am bechod. Erglyw ein gweddiau ammherffaith hyn, er mwyn ein Cyfryngwr a'n Dadleuwr, Iesu Grist. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## BORE DDYDD MAWRTH.

O ARGLWYDD ein Tad nefol, tydi yr hwn a wrandewi weddi, caniattâ ymostwng i wrandaw ar ein llef. Ein gweddi sydd attat ti, O Arglwydd, mewn amser cymmeradwy: O Dduw, yn llïosowgrwydd dy drugaredd gwrando ni, yngwirionedd dy iachawdwriaeth. Truan a gofidus ydym: dy iachawdwriaeth di, O Dduw, a'n dyrchafo. Ni wyddom ni, Arglwydd, beth a weddïom megis ag y dylem: eithr boed i'th Lân Yspryd gynnorthwyo ein gwendid, ac erfyn drosom âg ocheneidiau annhraethadwy. Dy drugareddau di yw na ddarfu am danom; o herwydd ni phalla dy dosturiaethau attom. Bob bore y deuant o'r newydd; mawr yw dy ffyddlondeb----cywilydd a gorchwyledd

wyneb, O Arglwydd, a berthyn i ni, o herwydd pechu o honom i'th erbyn. Gwyddom, os dywedwn nad oes ynom bechod, ein bod yn ein twyllo ein hunain, a'r gwirionedd nid yw ynom, ond y mae dy Air yn sicrâu i ni, os cyfaddefwn ein pechodau, mai ffyddlawn wyt ti a chyfiawn, i faddeu i ni ein pechodau, ac i'n glanâu oddi wrth bob anghyfiawnder. Yr ydym, O Arglwydd, yn cydnabod ein camweddau, gan ddymuno gosod ein pechodau ger dy fron: yn cydnabod i ni gyflawni ein chwantau ein hunain a charu'r byd drwg presennol; gadael ffynnon y dyfroedd byw, a chloddio i ni ein hunain bydewau torredig, y rhai ni ddaliant ddwfr. O nertha ni, yn yspryd y publican, i lefain, Arglwydd, bydd drugarog wrthym ni bechaduriaid. Cyfiawnhâ ni yn rhad, drwy ras, drwy y brynedigaeth sydd yng Nghrist Iesu. Nid oes genym le arall i droi ein gwynebau ond attat ti; gennyt ti, Arglwydd, y mae geiriau'r bywyd tragywyddol, a thydi yw'r ffordd, y gwirionedd, a'r bywyd. Caniattâ ein derbyn yn gymmeradwy yn yr Anwylyd: a boed i ni fwrw ein holl ofal arnat ti, gan gredu dy fod di yn gofalu drosom bob amser.

Mawrygwn dy enw am oleuni bore newydd: am ein hamddiffyn ac adfywio ein cyrph neithiwyr. Cadw ni heddyw yn dy ofn. Diogela ni rhag pob drwg yn dymhorol ac ysprydol. Tywallt o'th Yspryd ar bob

aelod o honom, fel y bo i ni oll, wedi ein bywhâu drwy ras, fyw i ti; a chan rodio megis y rhodiodd Iesu, y gallom obeithio treulio tragywyddoldeb yng nghymdeithas ysprydoedd y cyfiawnion, y rhai a berffeithiwyd.---Caniattâ, ni a attolygwn i Ti, wrando ar lef ein gweddïau, a'n cynnysgaeddu â phob peth buddiol i fywyd a duwioldeb, er mwyn Iesu Grist ein Harglwydd a'n Hiachawdwr. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## PRYDNHAWN DDYDD MAWRTH.

O ARGLWYDD, ein Creawdwr a'n Cynhaliwr, dymunem yn ddïolchgar gydnabod dy ddaioni i ni y dydd hwn. Wrth feddwl am drueni a thrallodion miloedd o'n cyd-greaduriaid, nis gallwn lai na rhyfeddu dy ddaioni i ni. Yr wyt yn rhoddi i ni bob peth yn helaeth i'w mwynhâu—ein hiechyd, ein hymborth, ein gwisgoedd, a chysuron eraill ein bywyd ydynt dy roddion di. Diogelaist ni heddyw yn ein mynediad allan, ac yn ein dyfodiad i mewn. Huliaist ein bwrdd, a gorlenwaist ein cwppan. O beth a dalwn i ti, Arglwydd, am hyn! Cyfaddefwn, gyd â chywilydd wyneb, nad ŷm ddigon dïolchgar am dy drugareddau; a galarwn ddarfod i ni yn fynych eu camddefnyddio. Mor liosog ydyw ein pechodau i'th erbyn, yn bersonol

ac yn deuluaidd: amled ein meddyliau ofer, ein hymddiddanion anfuddiol: ein hesgeulusdod o'n dyledswyddau; ein camddefnydd o'n hamser; a'n diofalwch mawr gyd â phethau ysprydol a thragywyddol. Edrych yn drugarog arnom yng ngwyneb dy Eneiniog: gwisg ni yn ei gyfiawnder; golch ni yn ei waed; ffurfia ein calonnau yn ol ei ddelw sanctaidd Ef; a nertha ni i geisio dy ogoniant di ym mhob peth a wnelom.

Bendithia'r holl sefydliadau elusengar, a chymdeithasau crefyddol, sydd yn ein gwlad. Bydded iddynt fod yn offerynau yn dy law i feithrin gwir grefydd yn ein mysg. Boed i'r ieuengctid sy'n cael eu dwyn i fynu yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd, yn ein hysgolion dyddiol a Sabbathol, harddu athrawiaeth Duw ein Hiachawdwr ym mhob peth; gwna hwynt yn aelodau ffyddlon o'th eglwys, a chadw hwynt yn ddidramgwydd hyd ddydd Crist. Tuedda ni hefyd, O Arglwydd, i garu ein gilydd, fel brodyr, i fod yn drugarogion, yn fwynaidd; nid yn talu drwg am ddrwg, neu sen am sen; eithr yn y gwrthwyneb, yn bendithio—ymlidier oddi wrthym bob cynfigen, digasedd, a bwriad drwg, a phob anghariadoldeb; a boed i gariad Crist breswylio yn ein calonnau.—Corona ein brenhines â hir ddyddiau, boed iddi lywodraethu yn heddychlawn a thangnefeddus, fel y byddo gwir grefydd yn ffynnu yn ein

gwlad, a phechaduriaid lawer gofleidio yr Efengyl, a byw yn addas iddi mewn pob duwiol ymarweddiad. Cofia yn dy raslonrwydd am ein perthynasau a'n cyfeillion: trugarhâ wrth ein gelynion, a thro eu calonnau: tosturia wrth y tlodion, y cystuddiol, a phawb sydd mewn cyfyngder, a gwna iddynt hwy a ninnau tu hwnt i ddim a fedrwn ei ddeisyf, er mwyn Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## BORE DDYDD MERCHUR.

YN foreu, O Arglwydd, y cyfeiriwn ein gweddi attat, yr edrychwn i fynu, ac y moliannwn dy Enw Sanctaidd. Deued ein gweddi yn gymmeradwy ger dy fron, a gogwydda dy glust at lef ein deisyfiad. Yr wyt yn addaw, pan ymgynhullo dau neu dri yn dy enw, y bydd i ti ganiattâu eu gofynion; caniattâ fod i ni brofi gwirionedd a chysur yr addewid felus hon, a chael gwybod fod Duw gyd â ni i wrando ein gweddïau, i lonni ein heneidiau, ac i faddeu ein pechodau. Yr ŷm y bore hwn wedi dyfod etto i addoli yn enw dy anwyl Fab, bydded i ni gael dyfodfa attat, a theimlo fod ein cymdeithas ni yn wir gyd â'r Tad, a chyd â'i Fab ef, Iesu Grist. Attolygwn i Ti, O Arglwydd, faddeu ein hanwiredd i'th erbyn; glanhâ ni, a ni a lan-

hêir; golch ni, a byddwn wynach na'r eira. O cuddia dy wyneb oddi wrth ein pechodau, a dilëa ein holl anwireddau. Ymwêl â ni â bendithion yr iachawdwriaeth; a boed i ni yn feunyddiol rodio yn llewyrch dy wyneb.

Caniattâ ein bendithio ni oll fel teulu, ac addasa ni i gyflawni ein holl ddyledswyddau. Boed i wir grefydd lwyddo yn ein heneidiau, fel y byddom ddefnyddiol yn gystal a dedwydd. Trwy esampl, trwy lywodraeth, a disgyblaeth, a thrwy ymarferiad â moddion gras ac ordinhadau yr Efengyl, boed i ni hyfforddi ein plant ym mhen eu ffordd, fel pan heneiddiont nad ymadawant â hi. Dïolchwn i ti, nefol Dad, am fendithion y nos a aeth heibio. Cawsom ein diogelu a'n hadnewyddu; ac yr ydym heddyw yn fyw i'th foliannu. Boed i'r ystyriaeth o'th ofal tyner gynhyrfu ynom deimladau o ddïolchgarwch a chariad. Caniattâ wylio drosom y dydd hwn: cadw ni rhag pob dyryswch bydol; a rhag llwytho ein hunain â gofalon dïangenrhaid. Boed ein hymarweddiad yn sanctaidd: ein tymherau yn haelionus a thirion; a gwna ni yn wyliadwrus ar ddichellion ein gelynion ysprydol. Cynnorthwya ni i wylio a gweddïo, fel y trigo ein heneidiau mewn diogelwch. Boed i ni fod yn ddiwyd yn ein galwedigaeth, yn wresog yn yr yspryd, yn gwasanaethu yr Arglwydd. Caniattâ wrando ein deisyfiadau hyn, er mwyn Iesu Grist ein Harglwydd, yr

hwn sydd yn byw ac yn teyrnasu gyd â Thi a'r Yspryd Glân, byth yn un Duw heb drangc na gorphen. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## PRYDNHAWN DDYDD MERCHUR.

O ARGLWYDD Iesu Grist, yr hwn sydd yn llywodraethu pob peth yn y nef ac ar y ddaear, caniattâ, ni a attolygwn i Ti, dywallt arnom yspryd gras a gweddi, fel y gallom dy addoli mewn yspryd, ac mewn gwirionedd. Teilwng ydwyt, O Arglwydd, i dderbyn anrhydedd, gallu, a gogoniant. I Ti yr ŷm yn rhwymedig am bob trugaredd a diddanwch: dymunem fyw beunydd yn dy ofn a'th gariad, mewn ufudd-dod i'th lân ewyllys, a chan redeg yn ffyrdd dy orchymynion holl ddyddiau ein bywyd. Yr ydym wrth natur yn llawn o anghrediniaeth, a than lywodraeth pechod. Argyhoedda ni, Arglwydd, o bechod, fel y teimlom y baich o hono, ac y ffoem at Iesu am orphwysdra a diogelwch. O Iachawdwr pechaduriaid, trugarhâ wrthym, a dychwel ni attat dy hun. Adnewydda ni yn yspryd ein meddwl, a thuedda ni i'th garu, ac i fyw â thydi yn wastad ger ein bron, mewn gobaith o gael byw gyda Thi yn dragywydd. Par fod gwaith gras yn cael ei ddwyn ym mlaen, o ddydd i ddydd, ar ein heneidiau. Llanw ni â phob doethineb

a deall ysprydol: nertha ni i rodio yn addas i bob rhyngu bodd i ti, gan ddwyn ffrwyth ym mhob gweithred dda. Gwared fod neb o honom o'r rhai sy'n tŷnu yn ol i golledigaeth, ond boed i ni ddal ddechreuad ein gobaith yn sicr hyd y diwedd. Yn ostyngedig yr attolygwn i ti, ddwyn yn ol i'th gorlan bawb ag sydd wedi crwydro allan o ffordd cyfiawnder. Er it' ymweled a'u camwedd â gwialen, ac a'u hanwiredd â ffrewyllau; er hynny na thŷn dy drugaredd oddi wrthynt, ac na phalled dy wirionedd. Caniattâ dderbyn ein diolch am dy ofal trosom y dydd hwn: daionus, O Arglwydd, fuost tu ag attom bob amser. Ymddengys dy ddaioni yn neillduol tu ag attom yn ein cadwraeth o'n mabandod hyd yma; yn y trugareddau lliosog a dderbyniwn o ddydd i ddydd, ac yn yr amrywiol freintiau a chysuron a dderbyniasom gennyt rhagor eraill o'n cyd-greaduriaid. Y llinynnau a syrthiodd i ni mewn lleoedd hyfryd; ïe, y mae i ni etifeddiaeth deg. Erglyw ni dros bawb; yn enwedig ein perthynasau a'n cyfeillion. Bendithia hwy â phob peth angenrheidiol am amser a thragywyddoldeb. Trugarhâ wrth bawb sy'n galw ar dy enw; a thosturia wrth bersonau a theuluoedd diweddi, a maddeu iddynt. Caniattâ ein cadw y nos hon, ac os cawn godi yn y bore, gwna ni yn barottach yn enaid a chorph i gyflawni y cyfryw bethau a fynnit ti eu

gwneuthur, er mwyn Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## BORE DDYDD IOU.

O ARGLWYDD, yr hwn wyt yn ogoneddus mewn santeiddrwydd, yn ofnadwy mewn moliant, ac yn gwneuthur rhyfeddodau. Pa Dduw sydd fel Tydi, yn maddeu anwiredd, ac yn myned heibio i anwiredd gweddill dy etifeddiaeth? Nid wyt yn dal dy ddig byth, am fod yn hoff gennyt drugarhâu. Dychwel, Arglwydd, a thrugarhâ wrthym: darostwng ein hanwireddau; a thafl ein holl bechodau i ddyfnderoedd y môr. Gwelir ni heddyw, O Arglwydd, yn golofnau byw o'th drugaredd a'th ddaioni. I Ti yr ym yn rhwymedig am bob trugaredd a dderbyniwn. Tydi sydd yn gosod ein henaid mewn bywyd, ac yn helaeth yn rhoddi i ni bob peth i'w mwynhâu. O pâr fod dy ddaioni yn cael ei briodol effaith ar ein calon, ein buchedd, a'n hymarweddiad. Gwna ni yn brennau ffrwythlon yn dy winllan, yn oludog mewn gras a rhinwedd dda--mewn cariad, llawenydd, tangnefedd, hir-ymaros, cymmwynasgarwch, ffydd, addfwynder, dirwest. Boed y grasusau hyn ynom yn dystiolaeth o gywirdeb ein proffes: ac argrapha y gwirionedd hwnnw yn ddwys ar ein calon, mai y

rhai sydd eiddo Crist a groeshoeliasant y cnawd a'i wyniau, a'i chwantau. Boed i ofal ein heneidiau gael y lle blaenaf yn ein meddyliau. Dysg ni gofio mor ansicr yw ein bywyd; ac mai ynghanol ein bywyd yr ydym yn angau: mai yn awr yw yr amser cymmeradwy; yr amser i ni weithio allan ein iachawdwriaeth ein hunain, gan gofio nad oes na gwaith na dychymyg, na gwybodaeth, na doethineb, yn y bedd lle yr ydym ni yn myned. Caniattâ ein bendithio y dydd hwn yn ein mynediad allan a'n dyfodiad i mewn. Llywodraetha ein calonnau yn dy ofn a'th gariad: darostwng lygredigaethau ein natur, diddymma elyniaeth ein meddwl cnawdol; gwresoga ein calon â'th gariad, a dwg bob meddwl i ufudd-dod Crist.

Attolygwn arnat drugarhâu wrth bob dyn. Cadw ac amddiffyn dy wasanaethyddes ein Brenhines: llywodraetha ei chalon fel y byddo iddi uwchlaw pob peth geisio dy anrhydedd di a'th ogoniant. Cyfarwydda holl fesurau ei llywodraeth er diogelu undeb cartrefol, cynnal heddwch rhwng teyrnasoedd, ac er helaethiad teyrnas y Gwaredwr. Ymwêl, mewn trugaredd, â phawb sydd mewn cystudd, a llywodraetha bob peth iddynt er eu daioni. Bendithia ein holl geraint a'n cyfeillion; gwna hwynt yn aelodau o'th deulu di ar y ddaear, ac yn etifeddion o'th ogoniant yn y nef. Yr holl bethau hyn yr ydym yn

eu deisyf, er mwyn Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## PRYDNHAWN DDYDD IOU.

O FENDIGEDIG Arglwydd, yr hwn wyt anfeidrol mewn gallu, doethineb, a daioni: ar derfyn y dydd hwn dymunem, wrth orsedd gras, adgofio yr amrywiol amlygiadau o'th diriondeb i ni fel teulu. Bob diwrnod a aeth heibio o'n bywyd, cawsom achos i ddywedyd, "Da ac uniawn yw ewyllys yr Arglwydd." Ti a waredaist ein heneidiau rhag angau, ein llygaid rhag dagrau, a'n traed rhag llithro. Yr ydym yn golofnau byw o'th drugareddau. Llanw ein calonnau â dïolch, a boed i'th ddaioni ein tywys i edifeirwch. O Arglwydd, mor lliosog yw ein camweddau! Yr ŷm wedi pechu yn erbyn y goleuni egluraf, yr argyhoeddiadau cadarnaf, a'r prawfiadau bywioccaf o'th ddaioni. Trugarhâ wrthym yn ol dy drugarowgrwydd: yn ol amlder dy dosturiaethau dilëa ein hanwireddau: golch ni yn llwyr ddwys oddiwrth ein pechod: pura ein cydwybodau euog trwy gymhwysiad o rinweddau aberth dy Fab—gwisg ni yn ei gyfiawnder difrycheulyd Ef: llanw ni â'i yspryd, a gwna ni o nifer ei ffyddlon bobl. Erfyniwn yn ostyngedig arnat fendithio y genedl sy'n codi i fynu: bydded i ieuengctyd

ein tir gael eu dwyn i fynu yn addysg ac athrawiaeth yr Efengyl: boed i egwyddorion ffydd, a chariad, a pharch i'th Enw, gael eu ffurfio yn fore yn eu heneidiau; ac fel y byddont yn cynnyddu mewn dyddiau, bydded iddynt gynnyddu hefyd mewn gras, ac yn ngwybodaeth ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist. Meddyginiaetha holl ymraniadau dy Eglwys. Dangos i'r rhai sydd mewn cyfeiliornad oleuni dy wirionedd: a dwg bawb, wynfydedig Arglwydd, at dy braidd, fel y b'ont gadwedig ym mhlith gweddillion y gwir Israeliaid, a bod yn un gorlan, dan yr un Bugail, Iesu Grist ein Harglwydd, yr hwn sydd yn byw ac yn teyrnasu gyd â Thi, a'r Yspryd Glân, byth yn un Duw heb drangc na gorphen. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## BORE DDYDD GWENER.

O ARGLWYDD, nefol Dad, hollalluog a thragywyddol Dduw, ni a fendithiwn dy enw am agoryd i ni ffordd o ddyfodfa attat ti trwy Iesu Grist; ffordd newydd a bywiol, trwy yr hon y gall pob pechadur edifeiriol nesâu yn hyderus at orsedd dy ras. O dysg ni i weddïo arnat mewn taerineb calon. Tywallt arnom yspryd gras a gweddi. Boed i'th Yspryd Glân gynnorthwyo ein gwendid, canys ni wyddom ni beth i weddïo

megis ag y dylem. O! boed iddo Ef eiriol drosom âg ocheneidiau annhraethadwy.—Planna ynom ddymuniadau gwresog am dy ffafr a'th ddelw: na âd i ni ymorphwys ar ddim tu yma i wir brofiad o'th faddeuant a'th ras yng Nghrist Iesu.—Dyro i ni ffydd a gwybodaeth achubol; cariad cywir attat Ti, ac at dy air sanctaidd; dymuniad calonnog i'th foddhau; ofn dy ddigio; zel dros dy ogoniant, a pharch mawr i bob peth a berthyn i Ti.—Na âd ni i'n dewisiad ein hunain; cadw ni rhag balchder, a rhag pechodau rhyfygus; rhag egwyddorion drwg, a chymdeithion drwg; a phechodau'r oes, a'r lle yr ydym yn byw ynddynt.—Gwna ni, Arglwydd, yn deulu duwiol. Gwared ni oddi wrth gynfigen, digasedd, a bwriad drwg, a phob angharіadoldeb.

Edrych yn drugarog ar ein gwlad. Gwared ni oddi wrth fellt, a thymmestl; oddi wrth bla, haint, a newyn; oddi wrth bob terfysg, dirgel frâd, a gwrthryfel; a chaniattâ i ni ras i rodio yn ffyrdd dy orchymynion, ac i fyw yn llonydd ac yn heddychol ym mhob duwioldeb ac onestrwydd, fel y datganom dy drugareddau o genhedlaeth i genhedlaeth.

Derbyn ein dïolch am dy nodded drosom y nos a aeth heibio; a chaniattâ, Arglwydd grasol, ein cadw y dydd hwn rhag pob drwg. Dyro i ni ddoethineb a gras i'th wasanaethu yn ein gwahanol ddyledswyddau. Boed i'th

Yspryd ein dysgu i ochelyd pob rhith drygioni, ac i fyw yn addas i Efengyl Crist.—Caniattâ i ni faddeuant o'n holl bechodau; a chyfran ym mysg y rhai a sancteiddiwyd trwy y ffydd sydd yn Iesu: i'r Hwn, gyd â Thi a'r Yspryd Glân, y byddo yr holl ogoniant byth bythoedd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## PRYDNHAWN DDYDD GWENER.

HOLLALLUOG a byth fywiol Dduw, yr hwn a'n dysgaist i wneuthur gweddïau ac erfyniau, ac i dalu dïolch dros bob dyn; attolygwn i Ti, dderbyn ein haberth hwn o foliant a dïolch. Yr ydym yn dy fendithio am dy holl ddaioni, hyspys ac anweledig mewn natur a gras. Erfyniwn arnat, drugaroccaf Dad, faddeu ein hannïolchgarwch, a'n gwaith yn esgeuluso cynnifer o achlysuron, heb ystyried ac heb gydnabod dy fawr ddaioni i ni, dy annheilwng weision: oblegid pan feddyliom am ein hymddibyniad arnat Ti am ein bywyd, am ein cadwraeth, ac am ein prynedigaeth, nis gallwn ond bod yn ddiolchgar. Moliannwn Di, gan hynny, tra byddwn. Gogoniant fyddo i Dduw, ein Creawdwr; gogoniant fyddo i Iesu, ein Hiachawdwr; gogoniant fyddo i'r Yspryd Glân, ein Sancteiddydd, ein Harweinydd, a'n Diddanydd!

O wynfydedig Iesu! yr ydym yn ymuno gyd â'th Eglwys, ac yn dadleu haeddiant dy aberth dros bob ystâd a gradd o ddynion; na byddo i neb amddifadu eu hunain o'r dedwyddwch hwnnw a bwrcasaist Ti drwy dy werthfawr angau ar y groes; tros bawb sydd yn eistedd mewn tywyllwch, sydd mewn cyfeiliornad, neu yn amddifaid o foddion gras; tros bawb pechaduriaid, ar iddynt gael gras a nerth i dorri eu cadwynau; tros bawb sydd mewn poen neu ing meddwl ac yspryd; tros bawb sydd mewn caeth-wasanaeth, dan erledigaeth, mewn carchar, neu mewn tlodi; tros ein cyfeillion, ein perthynasau, ein cymmwynaswyr, a thros ein gelynion; gan attolygu arnat gymmeryd trugaredd arnynt oll, a rhoddi iddynt ras a chynnorthwy yn ol eu hanghenion. A hyn oll a erfyniwn er mwyn ein Harglwydd Iesu Grist. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## BORE DDYDD SADWRN.

O ARGLWYDD goruchel a dyrchafedig, yr hwn a breswyli dragywyddoldeb. Y nefoedd yw dy orseddfaingc, a'r ddaear yw troed-faingc dy draed. Y mae'r angylion a'r seraphiaid glân yn ei hystyried yn anrhydedd i gael sefyll o amgylch dy orseddfaingc, pa faint mwy y dylem ni rai aflan a phechadurus. Cynnorthwya ni y bore hwn i nesâu yn os-

tyngedig ger dy fron, gyd âg edifeirwch calon am bechod, a gwir ffydd yn enw Iesu.—Dymunem gydnabod dy ddaioni yn bwrw ein coelbren mewn gwlad lle mae'r Efengyl yn cael ei phregethu, ac iachawdwriaeth rad yn cael ei chynnyg i bob pechadur. Yr ŷm yn llawenhâu, mai gwir yw'r gair, ac yn haeddu pob derbyniad, ddyfod Crist Iesu i'r byd i gadw pechaduriaid; ac na wrthodir neb a ddaw atto mewn gwirionedd. Dyro i ni wir ffydd i ymorphwys ar ei haeddiant, a'i dderbyn i'n calonnau, i ymddiried yn ei addewidion, ac i'w dadleu yn wastadol ger dy fron. Dyro i ni gael profi fod i ni brynedigaeth yn ei waed Ef, ac ernes o'r etifeddiaeth anllygredig, a dihalogedig, a diddiflannedig, sydd y'nghadw yn y nefoedd i'th bobl. Boed i ni gynnyddu mewn gras, ac yngwybodaeth yr Arglwydd Iesu Grist. Dwg ym mlaen waith yr Yspryd ar ein calonnau. Croeshoelier ein cnawd, ynghyd â'i wyniau a'i chwantau; gorchfyger ein hunanoldeb; darostynger y byd ynom; a bydded i ni fwynhâu y tangnefedd hwnnw sydd uwchlaw pob deall.

Caniattâ dderbyn ein moliant a'n dïolch am dy drugareddau i ni yn dymhorol ac yn ysprydol; dyro i ni ddoethineb i'w hiawn ddefnyddio, ac i fynegu dy foliant, nid â'n gwefusau yn unig, eithr yn ein bucheddau, trwy ymroddi i'th wasanaeth, a thrwy rodio

ger dy fron mewn sancteiddrwydd ac uniondeb dros ein holl ddyddiau.

Derbyn, O Arglwydd, ein hymbiliau dros bawb, o'r frenhines ar ei gorsedd hyd y tlottaf yn ein mysg. Bydd drugarog wrth y cleifion ym mhob man; a chaniattâ faddeu ein holl bechodau, er mwyn Iesu Grist. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## PRYDNHAWN DDYDD SADWRN.

O ARGLWYDD, ein Tad nefol, ar derfyn yr wythnos hon etto, dïolchwn i Ti fel teulu am ein harbed hyd yma. Diammau fod llawer o'n cyd-greaduriaid wedi eu galw gennyt o fewn yr wythnos hon, i roddi cyfrif am eu gweithredoedd; ond dyma ni wedi ein gadael yn fyw, ac yn parhau yn wrthddrychau dy drugaredd. Y mae gennym lawer o fendithion i ddïolch i Ti am danynt ynghorph yr wythnos sydd yn awr ar derfynu. Rhoddaist i ni rhyddhâd oddi wrth gystudd, poen, ac anghen; ac ni oddefaist i angau ddwyn ymaith neb o honom. Yn helaeth y cyfrennaist i ni dy drugareddau: cawsom helaethrwydd o bob peth da, ac yr wyt beunydd yn ein llwytho â daioni. Pâr fod i'th ddaioni ein tywys i edifeirwch, a'n dwyn i gyssegru ein hunain i Ti. O! bywhâ ni yn ein hymgais am bethau ysprydol a thragywyddol. Gan anghofio y pethau o'r tu

cefn, bydded i ni ymestyn at y pethau o'r tu blaen, a chyrchu at y nôd, am gamp uchel alwedigaeth Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.

Attolygwn i ti, Arglwydd, barottöi ac addasu ein meddyliau erbyn dy ddydd sanctaidd y fory, fel y gwasanaethom di wrth dy fodd, ac y gorphwyso ein hyspryd ynddo oddi wrth lafur a gofalon y byd.----Anfon dy fendith ar weinidogion yr Efengyl. Dysg hwynt i ddysgu eraill yn y gwirionedd. Cynnysgaedda hwynt â doniau addas i'r gwaith, fel y gallont iawn gyfrannu gair y gwirionedd, a gwneuthur pob peth er adeiladaeth. Prysura y dyddiau dedwydd hynny i ben, pan byddo cyhoeddiad o'r Efengyl wedi ymledaenu dros y byd, ac y bydd holl deyrnasoedd y ddaear wedi dyfod yn eiddo ein Harglwydd ni, a'i Grist ef.----Yr ŷm yn erfyn arnat faddeu ein pechodau i'th erbyn, er mwyn Iesu Grist. Cadw ni, attolygwn i Ti, â'th hollalluog fraich y nos hon, a pharottöa ni i iawn ddefnyddio a mwynhâu ordinhadau y Sabbath, er mwyn Iesu Grist. Amen

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

# Y DRYDEDD WYTHNOS.

---

## BORE DDYDD SABBATH.

O FENDIGEDIG Arglwydd Dduw, Awdwr ein bywyd, a Thad ein holl drugareddau, attat Ti y daw pob cnawd, canys Ti yn unig wyt Dduw, ac nid oes arall ond Tydi. Yr ŷm yn dy fendithio, nefol Dad, am dy ofal drosom y nos a aeth heibio, ac am ganiattâu i ni weled un o ddyddiau Mab y Dyn etto ar wyneb y ddaear. Boed i ni werthfawrogi y drugaredd fawr hon, a defnyddio y dydd sanctaidd hwn er dy ogoniant di, a lles ein heneidiau ein hunain. Dyma'r dydd a wnaeth yr Arglwydd, am hynny gorfoleddwn a llawenychwn ynddo. Gwna ef, Arglwydd, yn ddydd o ras a bendith i'n heneidiau: parottöa ein calonnau i dderbyn dy Air gyd âg addfwynder, nid fel gair dyn, ond fel y mae yn wir yn Air Duw. Pâr lwyddiant mawr ar weinidogaeth yr Efengyl ym mhob man y dydd hwn. Dynoetha, Arglwydd, dy fraich; anfon wïalen dy nerth allan o Sïon, llywodraetha di ynghanol dy elynion. Rhwyga deyrnas y tywyllwch; par i'r deillion weled, i'r cloffion rodio, i'r byddariaid glywed, ac i'r

meirw gyfodi o angau pechod i fuchedd newydd o gyfiawnder a gwir sancteiddrwydd. Caniattâ, ni a attolygwn i ti, anfon gweithwŷr i'r cynhauaf: y mae'r meusydd eisioes yn wynion i'r cynhauaf, a'r cynhauaf yn fawr, a'r gweithwyr yn anaml. O'th drugaredd tosturia wrth genhedloedd y byd, a bydded i holl derfynau y ddaear weled iachawdwriaeth ein Duw ni. Erfyniwn arnat gynnysgaeddu dy weision â doniau nefol i draethu y gwirionedd megis y mae yn yr Iesu, yn enwedig dy weinidog ag sydd wedi ei osod i draethu dy Air wrthym ni. Gwna hwynt yn weithwyr profedig, yn iawn gyfrannu gair y gwirionedd, gan roddi i bob un ei luniaeth yn ei bryd. Boed iddynt ddarllen a phregethu dy Air gyda sobrwydd a difrifoldeb, fel rhai sy wedi eu gosod i sefyll rhwng y byw a'r meirw, ac i wylio dros eneidiau, megis rhai a fydd raid iddynt roddi cyfrif. Trugarhâ wrth y cleifion sy'n analluog i ymuno â'th bobl yn yr addoliad cyhoeddus; cyweiria eu gwelyau yn eu cystudd, a bydd yn gyssegr bychan iddynt lle y maent. Cadw ni y dydd hwn rhag meddyliau gwibiog a bydol; boed i ni gael dy wasanaethu yn iawn ac yn ddyladwy; a maddeu ein holl bechodau, er mwyn Iesu Grist, ein Harglwydd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## PRYDNHAWN DDYDD SABBATH.

O ARGLWYDD, y mae gennym un Sabbath yn rhagor, ynghyd â'i holl freintiau, i atteb am danynt, yn nydd mawr y cyfrif. Buom heddyw yn dy dŷ yn gwrando ar newyddion da yr Efengyl: gwared ni rhag bod yn wrandawyr anystyriol ac anghofus. Cymmorth ni i ddal ar y gwirionedd a glywsom heddyw, a'i dderbyn yn y cariad o hono; ac o hyn allan bydded i'w arogl sanctaidd fod i'w weled yn amlwg yn ein bywyd a'n hymarweddiad. Bendithia holl ordinhadau dy Efengyl a fuom heddyw yn ymdrin â hwynt. Mae Efengyl iachawdwriaeth yn cael ei phregethu yn ein clustiau, O caniattâ iddi wreiddio yn ein calonnau, fel y byddo i Grist ddyfod yn fwy gwerthfawr yn ein golwg, pechod yn fwy atgas, a ffordd gwir sancteiddrwydd yn fwy hyfryd. Maddeu anwiredd ein holl bethau sanctaidd: gwna ni o hyn allan yn gyfryw addolwyr ag wyt ti yn eu ceisio; ac i ddefnyddio'n well y breintiau gwerthfawr a deilyngaist i ni, fel y caffom fwynhâu Sabbath tragywyddol, sef yr orphwysfa honno sydd etto yn ol i bobl Dduw. Caniattâ, ni a attolygwn i ti, lwyddo ymdrechiadau dy weision y dydd hwn. Boed i'th bobl gael eu hadeiladu ar eu sancteiddiolaf ffydd, a llawer o bechaduriaid gael eu dychwelyd attat.

Gwrando holl weddïau dy bobl a offrymwyd heddyw dros bob gradd o ddynion. Llwydda dy achos dros y byd: dychwel yr Iuddewon i gorlan Iesu, a phrysura yr amser pan y troir yr anialwch fel gardd yr Arglwydd, ac y bydd bob cnawd yn gweled iachawdwriaeth ein Duw ni. Estyn, O Arglwydd, dy Dadol ofal drosom ni, a thros bawb, y nos hon. Adnewydda i ni, o ddydd i ddydd, dy drugareddau. Diwalla ni beunydd â'th ras, fel y parhaom yn eiddot ti, ac y'n cymhwyser i'th dragywyddol deyrnas, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## BORE DDYDD LLUN.

HOLLALLUOG Dduw, a thrugaroccaf Dad, caniattâ edrych i lawr arnom mewn trugaredd y bore hwn, a chynnorthwya ninnau i edrych i fynu attat Ti, mewn trugaredd a gobaith. Dïolchwn i ti, â chalonnau gwresog, am drugareddau y nos a aeth heibio, ac am ein dwyn yn ddiogel hyd ddechreu y dydd heddyw. Dy drugareddau di, Arglwydd, yw na ddarfu am danom. Dyro i ni iawn ymsyniad o'th ddaioni a'th hir ymaros tuag attom, a llanw ein calonnau â dïolch am newyddion gwerthfawr yr Efengyl, ac am obaith da drwy ras.—Dyro i ni wir edifeirwch am bechod, ac er mwyn

ein Iesu bendigedig, maddeu i ni ein pechodau. Y mae pechod wedi ein gwneuthur yn druenus; dy ras di yn unig ddichon ein gwneuthur yn ddedwydd. Y mae pechod wedi ein llygru a'n distrywio; a gwaed Iesu yn unig ddichon ein puro a'n sancteiddio. O drugarog Arglwydd, golch ni yn llwyr ddwys yn y Ffynnon a agorwyd i bechod ac aflendid. Gosod dy deyrnas yn ein calonnau. Darostwng ynom bob llygredd a phechod. Ysprydola ein calonnau â'th gariad ac â'th ofn; a dwg bob meddwl i ufudd-dod Crist.

Boed i ni gofio yn wastad ein bod yn byw mewn byd drwg—byd sydd yn llawn o faglau a themtasiynau—byd ag y mae ei gyfeillach yn elyniaeth i Ti. Gwylia arnom, O Arglwydd, fel na syrthiom i brofedigaeth. Diddyfna ein serchiadau oddi wrth y byd. Dyrcha ein calonnau uwchlaw ei bethau, a sefydla hwy ar bethau sydd uchod, lle mae Crist yn eistedd ar ddeheulaw'r Tad. Nertha ni i redeg yr yrfa a osodwyd o'n blaen, fel y caffom afael ar y bywyd tragywyddol.

Attolygwn arnat, nefol Dad, ein cyfarwyddo, yn ein holl ffyrdd, i ryngu dy fodd. Nertha ni i addurno ein proffes drwy bob gweithred dda. Bydded i dy gariad di deyrnasu yn ein calonnau, a'r byd a'r pethau sydd ynddo fod tan ein traed. Crëa ni oll o newydd i weithredoedd da: a'r bywyd yr ydym yr awr hon yn ei fyw yn y cnawd, ei fyw a

wnelom trwy ffydd Mab Duw, yr hwn a'n carodd, ac a'i dodes ei Hun drosom ni.—Bendithia ein holl berthynasau: edrych â golygon dy drugaredd ar bawb sydd yn gorwedd ar welyau cystudd. Cofia am y tlawd a'r anghenus—ymwêl â hwynt oll â'th iachawdwriaeth, a dyro iddynt hwy ac i ninnau bob peth a fyddo da er ein lles, er mwyn Iesu Grist. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## PRYDNHAWN DDYDD LLUN.

O ARGLWYDD Iôr, yr hwn wyt dda a maddeugar, ac o fawr drugaredd i bawb a alwant arnat. Trwy dy ffafr Di, yr ydym wedi dyfod i brydnhawn y dydd hwn; ac yr ydym gymmaint a hynny yn nes i derfyn ein hoes. Dysg ni ystyried yn ddifrifol, fod y nos yn dyfod pryd na ddichon neb weithio; ac mai yn awr yw yr amser i ymbarottöi erbyn tragywyddoldeb.—Caniattâ, O Dduw graslawn, na byddo un pleser bydol, na gorchwyl bydol, beri i ni un amser golli golwg ar angau, neu anghofio y peryglon sydd o'n hamgylch.—Yn gymmaint ag i Ti weled yn dda ychwanegu un dydd arall at flynyddau ein hoes; ac i Ti ein cadw rhag peryglon byd drwg; am hyn, ac am bob bendith arall a gyfrennir i ni o ddydd i ddydd y bendithiwn dy Enw sanctaidd; ac er-

fyniwn, yn y modd taeraf, am i ti faddeu ein beïau y dydd a aeth heibio, a chaniattâu o honot, er mwyn Iesu, na byddo iddynt byth gyfodi yn ein herbyn yn nydd sobr y Farn.—Goleua ein heneidiau i weled llygredd ein calon, diwedd arswydus pechod, a'n gwendidau a'n gwrthgiliadau ein hunain; fel y byddo i ni ffoi at Iesu am ein bywyd, ac ymguddio dan gysgod ei adenydd. O gwna ni bob amser yn ystyriol o'n diwedd, a gosod yn ein calonnau deimlad bywiog o ddedwyddwch a thrueni y byd a ddaw.—Bydded i'r meddyliau am angau farwhâu ynom bob balchder a chybydd-dod, a chariad at y byd hwn; a bydded i'n crediniaeth gadarn mewn barn i ddyfod, ein gwneuthur yn wastad yn ofalus i ryngu dy fodd di, ein Harglwydd a'n Barnwr, fel y caffom drugaredd yn y dydd hwnnw.

Cynnysgaedda ni â doethineb i ddewis y rhan dda, yr hon ni ddygir oddi arnom; fel pan ddattoder ein daearol dŷ o'r babell hon, y byddo i ni adeilad gan Dduw, sef tŷ nid o waith llaw, tragywyddol yn y nefoedd.

I'th dadol ofal yr ydym yn gorchymyn ein hunain, fel teulu, y nos hon: amddiffyn ni, gorph ac enaid, er mwyn teilyngdod dy anwyl Fab, ein Harglwydd Iesu Grist. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## BORE DDYDD MAWRTH.

Y DUW mawr ac anfeidrol, yr hwn wyt i'th arswydo yn dy holl amgylchoedd. Er dy fod yn uchel, etto yr wyt yn edrych ar yr isel, sef y truan a'r cystuddiedig o ysbryd, yr hwn sydd yn crynu wrth dy Air. Tydi yn unig a all faddeu pechod; a Thydi yn unig a all greu calon lân ynom, ac adnewyddu yspryd uniawn o'n mewn. O mawryger dy drugaredd tu ag attom, trwy faddeu ein hanwiredd, ein camwedd, a'n pechod. Dymunem y bore hwn nesâu at dy orsedd, a dadleu addewidion dy gariad. Yr ydym yn erfyn arnat, nefol Dad, am ein cael yng Nghrist; heb ein cyfiawnder ein hunain, yr hwn sydd o'r ddeddf, ond yr hwn sydd drwy ffydd yn ei waed Ef. Yr ŷm yn ymwrthod â phob hyder ynom ein hunain, ac yn ymddiried yn gwbl ar haeddiant ac eiriolaeth ein Meichnïydd bendigedig, yr hwn a gyflawnodd holl ofynion y gyfraith, ac sydd yn byw bob amser i eiriol drosom ni. Boed i'r Iesu fod yn werthfawr gennym, megis y mae i'r rhai oll a gredant. Boed i ni ei gyfrif yn rhagori ar ddeng mil, ac oll yn hawddgar. Cynnorthwya ni i amgyffred, gyd â'r holl saint, beth yw y lled a'r hŷd, a'r dyfnder a'r uchder, a gwybod cariad Crist yr hwn sydd uwchlaw gwybodaeth. O na fyddai Ef bob amser yn ein meddyliau a'n calonnau. Yn

gyffelyb iddo Ef boed i ni ymddiried ynot Ti, ymostwng i'th ewyllys sanctaidd, ac ymhyfrydu yn dy lân orchymynion.

Caniattâ dywallt dy Yspryd Glân arnom yn yspryd gras a gweddi. Boed iddo effeithio undeb bywiol rhyngom â'th anwyl Fab, fel y byddo Crist yn iachawdwriaeth, yn noddfa, ac yn amddiffyn i ni. Boed iddo ein tywys i bob gwirionedd, a'n dysgu, trwy dy Air, i ymwadu â phob annuwioldeb a chwantau bydol, fel y byddo i ni fyw yn sobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol yn y byd sydd yr awrhon.

Dïolchwn i Ti am ein harbed i weled goleuni y dydd hwn. Caniattâ ein cadw ynddo drwy dy gadarn allu, a dyro ras i ni oll i gyflawni ein dyledswyddau bob amser yn dy ofn a'th gariad. Dysg ni i'th osod Di yn wastad ger ein bron, a thuedda ni i wneuthur yr hyn oll sydd gymmeradwy yn dy olwg. Caniattâ hyn, O Dad, er cariad ar Iesu Grist, ein hunig Gyfryngwr a'n Dadleuwr. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## PRYDNHAWN DDYDD MAWRTH.

O ARGLWYDD Dduw Hollalluog, o'th ddaionus ragluniaeth yr ydym wedi ein harbed hyd ddiwedd dydd arall. Yr ŷm yn dy foliannu am dy ddaioni tu ag attom ni a phob dyn. Fel y mae cysgodau'r hwyr yn

cau arnom, O dysg ni i feddwl am nos angau, yr hon sy'n prysuro yn gyflym i roddi terfyn ar ein bywyd, ac i'n gosod ger bron ein Duw a'n Barnwr. Cynnorthwya ni i ymbarottôi yn feunyddiol erbyn y cyfrif olaf, fel y byddom barod i gyfarfod â'n Harglwydd mewn gorfoledd a llawenydd. Boed i ni allu dweyd gyd â'r apostol, mai byw i ni yw Crist, a marw sydd elw. O dysg ni yn feunyddiol i farw i bechod ac i fyw i gyfiawnder, fel y byddo y diwedd yn fywyd tragywyddol. Tŷn ni, a ni a redwn ar dy ol. Bywhâ ni beunydd at yr un peth angenrheidiol, canys ein calonnau a lynnant yn y llwch. Rho gennad i ni, O Dduw, i grybwyll ger dy fron am angau dy Fab. Gwna ni yn wir deimladwy o'r cariad hwnnw a'i dygodd Ef i lawr o'r nefoedd; ac mor druenus oedd ein sefyllfa ni, yr hon a ofynai y fath aberth. Yr ydym yn gorfoleddu ynddo fel ein Cyfryngwr a'n Dadleuwr. Yr ŷm yn llawenhâu y medr ef gyd-ddïoddef â'n gwendid ni, yn gymmaint a'i fod wedi ei demtio ym mhob peth yr un ffunud a ninnau, etto heb bechod. Bydded i goffadwriaeth o'i gariad Ef, ac o'th fawr drugaredd Di, fod bob amser ger ein bron. Dyro i ni ffydd ynddo ag a'n cynnal yn awr angau. Boed Ef yn noddfa i ni, a'i waed a'i haeddiant ddadleu drosom; a dyro i ni ran a chyfran ym mhlith y rhai hynny a brynodd Efe â'i werthfawroccaf waed. Dyro ras i ni beunydd ymrôi i gan-

lyn ei fendigédig lwybrau ef, yn ei amynedd, ei ymostyngiad, ei hunan-ymwadiad, a'i ymroddiad i Ti; a boed i ni ei gymmeryd Ef yn Arglwydd a Meistr, yn Ddysgawdwr, ac Esampl ym mhob peth a ymgyrchom atto.

Yr ydym yn dy fóliannu am dy ddaioni i ni y dydd hwn. O na foed i ni anghofio dy holl ddoniau, na'r llaw sydd yn ein coroni â thrugaredd ac â thosturi. O maddeu ein pechodau i'th erbyn. Ti, O Dduw, wyt adnabyddus o honynt oll. Dysg ni i alaru yn dduwiol o'u herwydd, ac na âd i un pechod arglwyddiaethu arnom. Cadw ni, O Arglwydd, y nos hon rhag pob drwg, a gwna yn rhagorach i ni ac i bawb nag yr ydym yn ei ofyn na'i feddwl, er mwyn Iesu Grist. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## BORE DDYDD MERCHUR.

O DDUW, ein Tad nefol, yr ydym yn diolch i ti am fod i ni ryddid i nesâu ger dy fron, trwy werthfawr waed dy Fab Iesu, ar hyd ffordd newydd a bywiol, yr hon a gyssegrodd Efe i ni, trwy y llen, sef ei gnawd Ef. Nertha ni i nesâu â chalon gywir mewn llawn hyder ffydd—gan bwyso yn unig ar haeddedigaethau dy Fab am ras a thrugaredd. Dyro i ni gyfran helaeth o'r gras hwnnw ag sydd yn dwyn y pechadur i gywil-

yddio yn ddwys o achos ei ffyrdd drygionus, ac yn llenwi ei galon â dymuniad cryf i ymattal rhag pechu mwy. Tywallt dy Yspryd Glân ar led yn ein calonnau fel y rhodiom yn dy ddeddfau, ac y bo'm yn awyddus i'th ogoneddu di yn ein cyrph ac yn ein heneidiau, y rhai sydd eiddot ti. Bendigedig fo dy enw, O Dduw, am roddi o honot dy anwyl Fab, Iesu Grist, yn iawn am ein pechodau; tuedda ni i gredu ynddo, fel y bo'm gadwedig trwyddo; ac i benderfynu gwybod dim ond Iesu Grist, a hwnnw wedi ei groeshoelio. Yr ŷm yn dïolch i ti, O Dad, am ein cadw yn ddiangol hyd ddechreu'r dydd heddyw, ac yn erfyn dy drugareddau o'r newydd i ni y bore hwn. Attolygwn i ti ein cymmorth â'th ras i wneuthur yn wastad y peth sydd gyfiawn yn dy olwg di. Una ein calonnau fel teulu i'th wasanaethu. Cyd-rwymer hwynt, megis calon un gwr, mewn cariad attat ti, ac at ein gilydd. Tosturia wrth bawb sy'n byw yn nhywyll leoedd y ddaear. Dwg hwynt i ffordd cyfiawnder. Dyro y Cenhedloedd yn etifeddiaeth i'th Fab, a therfynau y ddaear i'w feddiant. Erfyniwn dy ddaioni, O Arglwydd, i bawb o'n cyd-greaduriaid. Tywallt arnynt hwy, ac ar holl aelodau dy eglwys, ddyfal wlith dy fendith; a hyn a erfyniwn er mwyn Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## PRYDNHAWN DDYDD MERCHUR.

ARGLWYDD y lluoedd, Duw Israel, yr hwn wyt yn trigo rhwng y cerubiaid, ti ydwyt Dduw, ïe, tydi yn unig, i holl deyrnasoedd y ddaear: ti a wnaethost y nefoedd a'r ddaear. Gogwydda, Arglwydd, dy glust, a gwrando: agor dy lygaid, Arglwydd, ac edrych mewn trugaredd arnom: yr ŷm yn cyffaddef yn ostyngedig ein pechodau i'th erbyn; ac yr wyt wedi addaw, mai y neb a'u haddefo ac a'u gadawo, a gaiff drugaredd. Yr ŷm yn galaru wrth feddwl gymmaint a bechasom i'th erbyn. O Arglwydd, na foed i'n pechodau godi i'n herbyn yn y farn; ond dychwel a thrugarhâ wrthym, er mwyn dy anwyl Fab: darostwng ein hanwireddau; a thafl ein pechodau i ddyfnderoedd y môr. Maddeu ein hanwiredd, canys mawr yw, ac mewn barn, cofia drugaredd. Yr ydym yn attolygu arnat ein nerthu i addurno ein proffes trwy bob gweithred dda. Croeshoelier ni gyd â Christ: a'r bywyd yr ydym yr awrhon yn ei fyw yn y cnawd, ei fyw â wnelom trwy ffydd Mab Duw, yr hwn a'n carodd, ac a'i dodes ei hun drosom ni. Gweithia di ynom, O Arglwydd, i ewyllysio a gweithredu o'th ewyllys da. Gwisg ni â gostyngeiddrwydd: nertha ni i fyw yn dy ofn, a'th wasanaethu yn yr yspryd; fel y byddo i ni ein ffrwyth yn sancteiddrwydd, a'r diwedd yn fywyd tragywyddol.

Caniattâ dderbyn ein dïolch am dy ofal trosom y dydd hwn, ac am y trugareddau a estynaist i ni. Bydd drugarog wrth bawb sydd anwyl gennym, ymhell ac agos. Dychwel Genhedloedd Paganaidd i ffydd dy Fab. Aed yr Efengyl allan fel yr haul, i oleuo pob cenedl dan y nef: darostwng bob gormes ac annuwioldeb yn ein tir. Amddiffyn, bendithia, ac adfywia dy Eglwys. Bydd iddi yn fûr o dân o amgylch, ac yn ogoniant yn ei chanol. Gwna ei Gweinidogion yn ffyddlon yn eu gwaith, a'th bobl yn ffrwythlon ym mhob gweithred dda. Caniattâ ein cadw y nos hon rhag pob peth niweidiol: maddeu ein beiau a rhagora ar ein holl ddeisyfiadau, er mwyn teilyngdod Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## BORE DDYDD IOU.

HOLLALLUOG Dduw, yn yr hwn yr ŷm ni oll yn byw, yn symmud, ac yn bod; edrych i lawr arnom mewn trugaredd y bore hwn, a chymmorth ninnau i edrych i fynu attat Ti trwy ffydd yn Iesu Grist. Dïolch i ti, O Arglwydd, am weled goleuni diwrnod newydd etto, ac am ein tawelwch y nos a aeth heibio. Attolygwn i Ti ein gwneuthur yn wir deimladwy o'th drugareddau, ac yn ddiffuant ddïolchgar am danynt.

Dysg ni rodio heddyw wrth dy fodd,

Na fyddwn yn ddïog mewn diwydrwydd; ond yn wresog yn yr yspryd; yn dy wasanaethu di. Pâr i ni gofio nad eiddo ein hunain ydym; canys er gwerth y'n prynwyd; a bod yn rhaid i ni dy ogoneddu Di yn ein cyrph a'n heneidiau, y rhai sydd eiddot Ti. Arfoga ni i wrth-sefyll temtasiynau y byd, y cnawd, a'r Diafol; i ddilyn ysgogiadau dy Yspryd daionus; i fod yn sobr a sanctaidd yn ein bucheddau; cywir ac uniawn ym mhob peth a wnelom; gwyliadwrus ar ein meddyliau, ein geiriau, a'n gweithredoedd; diwyd yn ein galwedigaethau; a chymmedrol ym mhob peth.

Bydded i'th fendith fod ar ein personau—ar ein llafur—ar ein heiddo; ac ar bawb a phob peth ag sydd yn perthyn i ni.

Ychwanega ein ffydd i gredu ynot i gadwedigaeth yr enaid. Ychwanega ynom dy ras i allu byw yn hollol er dy glod. Poed i'th Yspryd Glân reoli a llywio ein calonnau, fel y gallom fyw uwchlaw y byd hwn, a rhodio ynghymdeithas Duw ein Tad, a'i Fab Ef, Iesu Grist, ein Harglwydd bendigedig.

Gwared ni, O Arglwydd, oddi wrth ein holl bechodau, er mwyn dy anwyl Fab; ac na âd i un pechod deyrnasu arnom. Trwy dy gadarn allu ymddiffyn ni yn holl ymosodiadau ein gelynion; a chaniattâ na syrthiom y dydd hwn mewn un pechod, ac nad elom mewn neb rhyw berygl; eithr bod

ein holl weithredoedd wedi eu trefnu a'u llywiaw wrth dy lywodraeth, i wneuthur yn wastad y peth sydd gyfiawn yn dy olwg Di, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Caniattâ roddi i ni yr hyn sydd angenrheidiol er ein lles: dyro i ni yn y byd hwn wybodaeth am dy wirionedd, ac yn y byd a ddaw, fywyd tragywyddol. A hyn a erfyniwn er mwyn Iesu Grist. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## PRYDNHAWN DDYDD IOU.

O ARGLWYDD, nefol Dad, yr ŷm yn cydnabod dy fawr ddaioni tuag attom, yn ein harbed hyd derfyn y dydd heddyw; yn rhoddi i ni angenrheidiau y bywyd hwn; ac yn gosod o'n blaen ddedwyddwch un gwell.

Caniattâ, Arglwydd grasol, faddeu ein camweddau i'th erbyn y dydd heddyw: diwygia yr hyn sydd feïus ynom; fel megis yr ydym yn cynnyddu mewn oedran, y byddo i ni gynnyddu mewn gras; a pho agosaf y tynnwn at ein diwedd, y byddo i ni fod yn fwy parod i'w gyfarfod. Ynghanol ein bywyd yr ydym mewn angau. Pâr fod i'r ystyriaeth o hyn ein gwneuthur yn ofalus pa fodd i fyw, fel y dïangom rhag dygn chwerwaf boenau angau tragywyddol. Cymmer oddi wrthym bob anwybodaeth, caledwch calon, a gormod gofal am bethau'r byd. Dysg ni i fyw yn

dy ofn, i ymostwng i'th ewyllys, ac i ymddiried yn dy drugaredd, dy allu, a'th ras.

Caniattâ fendithio ein grasusol Frenhines, a phawb a osodwyd mewn awdurdod dani; fel y byddo iddynt lywodraethu mewn gwirionedd a chyfiawnder.—Poed i wir grefydd a duwioldeb gael eu dïogelu a'u noddi yn ein plith; a boed i annuwioldeb, halogrwydd, ac anffyddiaeth, gael eu hanghefnogi yn effeithiol, fel na byddo i'th farnedigaethau ddisgyn arnom fel cenedl.—Nyni a attolygwn i ti gadw pawb ar y sydd yn ymdaith ar fôr neu dir, pob gwraig wrth esgor plant, pob cleifion, a rhai bychain, a thosturio wrth bawb a fyddo mewn caethiwed a charchar: ymddiffyn ac ymgeledda y plant amddifaid, a'r gwragedd gweddwon, a phawb a'r y sydd yn goddef gorthrymder.—Caniattâ roddi a chadw er ein lles, amserol ffrwythau'r ddaear, modd y caffom mewn amser dyledus eu mwynhâu.

Caniattâ i ni gael gorphwys yn ein gwelyau y nos hon mewn heddwch â Thi, ac mewn cariad â phawb.—Dwg ni, os gweli hynny yn dda, i ddechreu dydd arall mewn nerth ac iechyd, a dyro i ni ras i'w dreulio i'th ogoniant: a pha bryd bynnag y gelwir arnom i ymadael â'r bywyd hwn, boed i ni gael gorphwys mewn cymmod â Thi, ac mewn gobaith o adgyfodiad gwynfydedig, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## BORE DDYDD GWENER.

O ARDDERCHOCCAF Dduw, goruchaf Farnwr a Llywiawdwr y byd, yn yr hwn yr ydym yn byw, yn symmud, ac yn bod. Wrth feddwl mor annheilwng ydym i nesâu o'th flaen, yr ydym yn ofni dyrchafu ein llygaid i fynu attat; a phan feddyliom am ein tywyllwch a'n hanwybodaeth, rhaid i ni addef na wyddom beth a weddïom megis ag y dylem. Caniatta, gan hynny, ni attolygwn i ti, nefol Dad, fod i'th Ysprydd Glân gynnorthwyo ein gwendid, a'n cymmorth i offrwm i Ti aberth ysprydol, sanctaidd, a chymmeradwy. Dymunem gydnabod, fel teulu, i ni bechu yn ddirfawr yn dy erbyn o'n hieuengctid hyd yr awr hon: ein pechodau ydynt aneirif, ond y mae dy drugaredd di uwchlaw y nefoedd; a gwaed Iesu Grist dy Fab yn ein glanhâu ni oddi wrth bob pechod. Rhynged bodd i Ti roddi i ni wir edifeirwch am bechod; a chaniattâ fod i ni, drwy adnewyddiad ein heneidiau, fyw bywyd sanctaidd a thangnefeddus, mewn pob duwioldeb a gonestrwydd.---Dysg ni gofio yn wastad ein bod yn prysuro yn gyflym ar aden amser tu a'r byd mawr tragywyddol, lle y byddwn yn fuan yn gorfod ymddangos ger bron brawdle Crist; fel y derbynio pob un y pethau a wnaethpwyd yn y corph, yn ol yr hyn a wnaeth, pa un bynnag ai da ai drwg.

Dyrcha ein meddyliau uwchlaw pethau'r byd, a chynnysgaedda ni â thymher dieithriaid a phererinion ar y ddaear. Gwna ni yn aelodau bywiol o gorph dirgeledig Crist, fel pan bo i'n daearol dŷ o'r babell hon gael ei ddattod, y caffom sicrwydd fod i ni adeilad gan Dduw, sef tŷ nid o waith llaw, tragywyddol yn y nefoedd.

Bydd drugarog wrth bob gradd o ddynion, yn enwedig ein perthynasau, ein cyfeillion, a'n cymmydogion. Dangos iddynt dy drugaredd, a dod iddynt dy iachawdwriaeth.---Llwydda yr Efengyl ym mhob rhan o'r byd, fel yr adwaener dy ffordd ar y ddaear, a'th iachawdwriaeth ym mhlith yr holl genhedloedd.—Dyro i ni ras i rodio heddyw yn agos attat; cynnal ni yn dy lwybrau, fel na lithro ein traed: cadw ni rhag rhoddi tramgwydd i neb, a dyro i ni nerth i bara yn ffyddlon hyd y diwedd, trwy Iesu Grist. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## PRYDNHAWN DDYDD GWENER.

O FENDIGEDIG Arglwydd, yr hwn wyt anfeidrol mewn gallu, doethineb, a daioni. Yr ŷm yn cydnabod ac yn ymofidio dros ein hamryw bechodau i'th erbyn. Trugarhâ wrthym, O Dduw, yn ol dy drugarowgrwydd: yn ol lliaws dy dosturiaethau, dilëa ein hanwireddau. Golch ni yn llwyr-

ddwys oddi wrth ein hanwiredd, a glanhâ ni oddi wrth ein pechod. Crëa a gwna ynom newydd a drylliedig galonnau; canys yr ydym yn cydnabod ein camweddau; a'n pechod sydd yn wastad ger ein bron. Dysg i ni gyfrif ein dyddiau, fel y dygom ein calon i ddoethineb; pâr i ni wybod y ffordd y dylem rodio ynddi; ac nid yn unig i ddeall a gwybod yr hyn a ddylem ei wneuthur, ond cael o honom ras a gallu yn ffyddlon i wneuthur yr unrhyw. Bydded i gariad Crist ein cymmell i fyw bellach, nid i ni ein hunain, ond iddo Ef yr hwn a'n carodd, ac a'n prynodd â'i werthfawr waed; fel y byddom yn bobl briodol iddo ef, awyddus i weithredoedd da. Cymmorth ni i gyrchu yn barhâus at y nôd am gamp uchel alwedigaeth Duw yng Nghrist Iesu: dysg ni i wneuthur hyn mewn ffydd ac amynedd, mewn gostyngeiddrwydd ac addfwynder, mewn hunan-ymwadiad a dyfal bara hyd y diwedd.—Derbyn ein diolch am dy ddaioni i ni y dydd hwn—am roddi i ni dy drugareddau yn faeth ac yn gysur i'n natur, ynghyd âg iechyd i'w mwynhâu. Beth a dalwn i ti, Arglwydd, am dy holl ddaioni i ni? Traethed ein genau foliant yr Arglwydd: bendithied pob cnawd ei enw sanctaidd ef, byth ac yn dragywydd.

Caniattâ fendithio ein Brenhines, a phob aelod o'i theulu; dyro ddoethineb a deall i'w chynghorwyr; llwydda eu holl ymgynghor-

iadau, fel y bo heddwch a dedwyddwch, yn sefydlog yn ein plith trwy yr holl genhedlaethau.—Ymwêl ac esmwythâ ar yr holl gleifion a'r cystuddiol: dyro iddynt amynedd dan eu dïoddefiadau, a dedwyddol ymwared o'u holl gystuddiau. Cymmer ni a'n heiddo tan dy gadwraeth y nos hon; a maddeu ein holl feïau mawrion, er mwyn dy anwyl Fab Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## BORE DDYDD SADWRN.

HOLLALLUOG Dduw, Tad ein Harglwydd Iesu Grist; ni a fendithiwn dy enw am y dydd hwn, ac a'th foliannwn am dy ddaioni parhâus tu ag attom. Cynnorthwya ni i nesâu attat â chalon ddrylliog, ac yspryd cystuddiedig, a chyd â newyn a syched yn ein heneidiau am dy gyfiawnder. Dymunem dy addoli y bore hwn ym mhrydferthwch sancteiddrwydd; edrych o'th gyssegr arnom: galluoga ni i'th addoli â chariad pur; ac i ddyrchafu dy Enw gogoneddus. Yr ŷm yn llawenhâu yn y rhyddid sydd gennym i ddyfod i'r cyssegr trwy waed Iesu. Yr ydym yn cydnabod ein pechodau ger dy fron, ac i ni gilio ym mhell allan o'th ffyrdd di. Maddeu, O Arglwydd, ein pechod, canys mawr yw—yr wyt yn hoffi trugarhâu; ac ni ddeisyfi farwolaeth pechadur, eithr yn hytrach ym-

chwelyd o hono oddi wrth ei anwiredd, a byw. Gweddïwn am faddeuant rhad o'n holl bechodau; boed i ni gael ein cymmeradwyo yn yr Anwylyd; a boed i'r Yspryd, yr hwn a gyfododd Crist oddi wrth y meirw, drigo yn ein calonnau.

Derbyn ein rhwymedig ddyled hwn o weddi a mawl, am dy drugareddau aneirif i ni o ddydd i ddydd; am ein porthi, a'n dilladu; ond yn bennaf dim am brynedigaeth y byd trwy angau a dïoddefaint Crist, yr Hwn a ymostyngodd i angau'r groes drosom ni, bechaduriaid truain, y rhai oeddym yn gorwedd mewn tywyllwch a chysgod angau. Yn hyn y dangosaist gariad mawr tu ag attom. Ni fedrwn osod allan ein rhwymedigaethau i Ti am hyn: er hyny ni a ymdrechwn fynegi dy foliant, a gwneud dy Ras yn destun ein gwastadol ddiolch. Dïolchwn i ti am dy ewyllysgarwch i gyfrannu i ni dy fendithion ysprydol yn rhad, heb arian ac heb werth. Dysg ni i'w ceisio yn ddioed. Na âd fod neb o honom yn fwy awyddus am gysuron y bywyd hwn, nag am ein dedwyddwch tragywyddol. Cymmorth ni i roddi pob diwydrwydd i wneuthur ein galwedigaeth a'n hetholedigaeth yn sicr, gan gyfrif pob peth yn golled, o herwydd ardderchowgrwydd gwybodaeth Crist Iesu ein Harglwydd.

Derbyn ein dïolch am dy ofal trosom yn ngwyliadwriaethau y nos; cadw ni y dydd

hwn rhag pob drwg. Poed i ni gofio fod dy lygaid di arnom yn wastad; ac nas gallwn gyflawni dim yn ddiarwybod i Ti. Caniattâ ein gwrando, er mwyn Iesu Grist. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## PRYDNHAWN DDYDD SADWRN.

O ARGLWYDD, a nefol Dad, hwyrfrydig i lid, a helaeth ei drugaredd, ffynnon pob cysur a daioni: teilwng wyt Ti yn unig i dderbyn gogoniant, anrhydedd, a gallu, yn oes oesoedd. Yr ŷm yn cyfaddef mai trwy dy nawdd a'th drugaredd Di y cawsom ein harbed hyd yr hwyr presennol. Dyma un wythnos etto braidd ar derfynu; ac fel y mae pob wythnos yn ein dwyn yn nês at ein diwedd, pâr ein bod ni oll yn cynnyddu mewn gras a gwybodaeth ein Harglwydd Iesu Grist. Gan fod ein dyddiau fel blodeuyn y maes, yr hwn sy'n fuan yn gwywo, a'n hamser fel cysgod yn diflannu; a chan mai alltudion ydym, fel ein holl dadau, ac nad oes i ni yma ddinas barhâus; gwna ni bob amser, Arglwydd, ni a attolygwn i Ti, yn feddylgar am ein marwoldeb, megis y gallom, fel y morwynion call, ddarparu olew yn ein lampau, erbyn dyfodiad y Prïod-fab; a chan ddisgwyl dy amser da Di, y gallom, fel gweision ffyddlon, fod yn neffro, pa bryd bynnag y dychwelo'r Meistr. Pan alwo selni arnom i ymadael, caniattâ,

attolygwn i Ti, na bo i na gwendid y cnawd, na llymder y clefyd, na dim arall, ein symmud o wir ddïogel obaith yn nïoddefaint gwŷnfydedig dy anwyl Fab, Iesu Grist. A phan ddelo awr ein gorphwysiad, caniattâ, Arglwydd, gyflwyno o honom ein hunain i'th ddwylaw Di, a marw'n weision i Ti, er gogoniant dy Enw, a chysur ein heneidiau.

Dïolchwn i Ti, Arglwydd, am dy ddaioni i ni yng nghorph yr wythnos hon. Maddeu ein pechodau a wnaethom i'th erbyn. Cymmwysa ni, yn ein cyrph a'n heneidiau, at oruchwylion sanctaidd y Sabbath. Deffro a bywhâ ni i'th geisio Di yn dy ordinhadau, tra y gellir dy gael, ac i alw arnat tra fyddit yn agos. Parottôa dy weinidogion erbyn dyledswyddau y Sabbath: arddel hwynt yn eu gwaith: gwna hwynt yn ddoeth i ennill eneidiau; a bendithia bob ymdrech i daenu yr Efengyl dros y byd. Caniattâ ein gwrando, er mwyn ein Harglwydd Iesu Grist. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

---

## Y BEDWAREDD WYTHNOS.

### BORE DDYDD SABBATH.

HOLLALLUOG a grasusaf Dduw, yr hwn wyt ofnadwy iawn yn nghynnulleidfa y saint, ac i'th arswydo yn dy holl am-

gylchoedd. Nid ydym ni deilwng i nesâu o'th flaen, na chymmaint ag i gasglu'r briwsion dan dy fwrdd di: eithr Tydi yw yr un Arglwydd, yr hwn bïau o brïodoldeb yn wastad drugarhâu. O trugarhâ wrthym, wir bechaduriaid, ac yn drugarog edrych ar ein gwendid. Yr ydym yn cydnabod dy ddaioni, nefol Dad, am ein harbed hyd ddechreu'r dydd hwn. Nertha ni i fyned i'th dŷ heddyw dan deimlad o'n hannheilyngdod, mewn llawn fwriad i'th wasanaethu, a chyd â theimlad dïolchgar am y breintiau sy gennym.—Dysg i ni gofio mai dy Air di yr ydym yn myned i'w wrando; mai dy wasanaeth di yr ydym yn myned yn ei gylch, ac mai i ti yr ydym yn gyfrifol am y moddion a'r cyfleusderau crefyddol ag ydym yn eu mwynhâu; a nertha ni i'w defnyddio fel y byddo i ti gael y gogoniant oddiwrthym, a ninnau yr elw a'r lles. Poed llwyddiant mawr heddyw ar lafur dy weision. Poed eu hymadrodd a'u pregeth, nid mewn geiriau denu o ddoethineb ddynol, ond yn eglurhâd yr Yspryd a nerth: a bydded i'w gwrandawyr dderbyn a chredu dy sanctaidd Air. Bywhâ, Arglwydd, dy waith ynghanol y blynyddoedd. Anadla drwy dy Yspryd ar yr esgyrn sychion, fel y byddont byw. Cyfod, Arglwydd, a thrugarhâ wrth Sïon; canys yr amser i drugarhâu wrthi, ïe, yr amser nodedig, a ddaeth.

Yn neillduol, attolygwn i ti fod gyd â'th

was ag sydd wedi ei osod i weinidogaethu yn ein plith ni. Llefared megis geiriau Duw, a gwnaed megis o'r gallu yr wyt ti yn ei roddi iddo; fel ym mhob peth y'th ogonedder di, trwy Iesu Grist.—Caniattâ anfon dy oleuni a'th wirionedd i bob parth o'r byd, fel y delo'r Iesu i lywodraethu calonnau plant dynion o fôr hyd fôr, ac o'r afon hyd derfynau y ddaear.

[Os cawn y fraint i fyned at dy Fwrdd y dydd hwn i wneuthur cof am angau a dïoddefaint dy Fab Iesu Grist, caniattâ i ni gael golwg arno trwy ffydd. Gwna ni yn wir edifeiriol am bechod, a dyro ras i ni i ddilyn buchedd newydd, ac i rodio o hyn allan yn dy ffyrdd sancteiddiol Di; fel y byddom weddus gyfrannogion o fendigaid gymmun corph a gwaed ein Iachawdwr Crist.]

Caniattâ hyn er mwyn dy un Mab, Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## PRYDNHAWN DDYDD SABBATH.

O ARGLWYDD, yr hwn wyt oruwch pawb oll, yn Dduw bendigedig yn oes oesoedd. Ti a orchymynaist i ni nesâu o'th flaen a chyffesu ein pechodau wrthyt. Nertha ni, nefol Dad, i wneuthur hyn yn awr mewn edifeirwch, ffydd, a gostyngeiddrwydd calon. Yr wyt wedi addaw trwy dy garedig Fab, ond i ni ofyn, y rhoddir i ni;

ond i ni geisio, y cawn; a churo yr agorir i ni. Felly yn awr dyro i ni, O Arglwydd, a ni yn gofyn; pâr i ni gael, a ni yn ceisio; agor y porth i ni, sy'n curo, fel y caffom gennyt faddeuant o'n holl bechodau, ac y delom i'r deyrnas dragywyddol, yr hon a addewaist trwy Grist ein Harglwydd.

Er fod ein pechodau yn aneirif, etto y mae gennyt ti faddeuant fel y'th ofner. Llanw ein meddyliau â pharchedig ofn: maddeu ein holl bechodau: glanhâ ni oddi wrth ein beïau cuddiedig; a chymmorth ni i ymorphwys ar dy ras yng Nghrist Iesu.

Caniattâ, Arglwydd, fendithio y geiriau a glywsom heddyw â'n clustiau oddi allan. Poed iddynt gael eu plannu yn ddwfn yn ein calonnau oddi mewn, fel y dygont ynom ffrwyth buchedd dda, er mawl a gogoniant i'th enw. Na foed i neb a glywodd heddyw am gariad a thosturi Iesu, ei wrthod, fel y gwnaeth yr Iuddewon gynt; ond cymmorth hwy a ninnau i'w dderbyn yn Iachawdwr, gan gredu yn ddïysgog ynddo; yn Arweinydd, gan ei ddilyn yn llwyr; yn Gyfaill, gan ei garu uwchlaw pob peth; ac yn Arglwydd, gan ei wasanaethu yn ffyddlon hyd y diwedd.

Caniattâ lwyddo pob ymdrech a wnaethpwyd heddyw i ddwyn pechaduriaid i edifeirwch, ac i'w troi o gyfeiliorni eu ffyrdd at yr Arglwydd Iesu. Llewyrched Haul y cyfiawnder ar y rhai sydd yn eistedd mewn

tywyllwch a chysgod angau. Poed i'th Air redeg a chael gogonedd heddyw yn nhröedigaeth pechaduriaid, ac yn adeiladaeth a chysur dy bobl; a phâr iddo lwyddo i'n gwneuthur ninnau yn ffrwythlon ym mhob gweithred dda. Cymmorth ni i fyned ym mlaen o nerth i nerth, hyd nes yr ymddengys pob un o honom ger dy fron di yn Sïon.

Cymmer drugaredd ar ein gwlad. Bendithia ein Brenhines. Tosturia wrth y cleifion. Edrych yn drugarog ar y Genedl ieuangc sydd yn codi i fynu: poed iddynt gael eu dwyn i fynu yn dy addysg a'th athrawiaeth Di, ac iddynt gynnyddu nid yn unig mewn gwybodaeth fuddiol, ond ym mhob rhinwedd dda a buchedd dduwiol. Caniattâ ein derbyn i'th nodded y nos hon, a chadw ni rhag pob drwg, er mwyn Iesu Grist ein Harglwydd.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## BORE DDYDD LLUN.

O DRUGAROG Arglwydd a nefol Dad, caniattâ ein nerthu, er maint ein hannheilyngdod, i nesâu yn hyderus at orsedd dy ras, fel y derbyniom drugaredd, ac y caffom ras yn gymmorth cyfamserol.

Derbyn ein rhwymedig ddyled am dy ofal trosom y nos a aeth heibio, ac am ein cadw yn ddiangol hyd ddechreu diwrnod arall.

Gwna ni yn wir deimladwy o'th drugareddau tu ag attom o'n mebyd hyd y dydd hwn; a dyro i ni galonnau parod bob amser i ddatgan ein dïolchgarwch, nid ar eiriau yn unig, eithr yn ein bucheddau; trwy ymroddi i'th wasanaeth a thrwy rodio ger dy fron holl ddyddiau ein bywyd. Dïolchwn i Ti, nefol Dad, am yr addewid werthfawr o faddeuant pechodau i bawb gan wir edifeirwch calon a gwir ffydd a ymchwel attat. O dyro i ni ddwys deimlad o'n trueni, a gwir atgasrwydd at bechod. Crëa ynom galonnau newydd a drylliedig, fel y bo i ni, gan ddyledus ddolurio am ein pechodau, a chyfaddef ein trueni, gaffael gennyt Ti, Duw'r holl drugaredd, gwbl faddeuant trwy Iesu Grist. Yr wyt wedi rhoddi profion eglur o'th barodrwydd i'n hachub, trwy anfon dy unig-anedig Fab i farw trosom, a chan nad arbedaist ef, ond a'i traddodaist ef trosom ni oll; pa wedd gyd âg ef na roddi i ni bob peth.

Gwna ni yn deimladwy ein bod yn byw mewn byd sydd yn llawn o beryglon a themtasiynau; fod ei gyfeillach yn elyniaeth i Ti; ac o châr neb y byd hwn, nad yw cariad y Tad ynddo ef. Gwared ni rhag ei hudoliaethau; dyrcha ein calonnau uwchlaw ei bethau, a chymmorth ni i'w sefydlu ar Grist yn y nef. Darostwng lygredigaethau ein natur; diddyma elyniaeth ein meddwl cnawdol; gwresoga ein calon â'th gariad; a

dwg bob meddwl i ufudd-dod Crist.---Dyro ras i ni, O Arglwydd, i dreulio y dydd hwn yn dy ofn, ac i'w orphen er dy ogoniant.

Bendithia ein Brenhines a'n gwlad; ein perthynasau a'n cyfeillion; a thywallt arnynt ddyfal wlith dy fendith. Tosturia wrth y cleifion a'r cystuddiedig; caniattâ iddynt dy ogoneddu di yma ar y ddaear, fel ar ol diweddu y fuchedd hon, y caffont eu derbyn gennyt i'th deyrnas nefol, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## PRYDNHAWN DDYDD LLUN.

O DDUW, yr hwn wyt yn ogoneddus mewn sancteiddrwydd, ac yn lanach dy olygon fel nas gelli edrych ar ddrwg; bendigedig fyddo dy enw, nad wyt yn diystyru pechaduriaid mor fawr a ni, ond yn hytrach yn ein gwahodd i nesâu attat: canys Ti a elli fod yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhâu y neb sydd o ffydd Iesu. Poed i hyn gymmell ein ffydd a thoddi ein calonnau mewn gwir edifeirwch. Dyro i ni y cyfryw olwg ar haeddiant Iesu, fel ein diddyfner oddi wrth bechod, ac y'n dyger mewn gwirionedd attat Ti. Poed i'th ras buro a llywodraethu ein calonnau a'n bucheddau. Dysg i ni, O Arglwydd, gofio mor fyr yw ein hamser yma. Y mae pob nos yn ein rhybuddio am yr adeg pan y

bydd y corph yn cael ei roddi i orphwys yn y pridd. Poed i'r ystyriaeth hon grëu ynom fwy o ymdrech i sicrhâu ein heddwch â Thi yn dy Fab, i ddewis y rhan dda, yr hon ni ddygir oddi arnom; ac i drefnu ein tŷ ysprydol, fel pan ddaw angau attom, y caffom ymadael mewn tangnefedd.

Derbyn ein dïolch am dy ddaioni i ni y dydd hwn; graslawn fuost i ni, O Arglwydd, ym mhell tu hwnt i'n haeddiant. Dyro i ni ddoethineb i iawn ddefnyddio dy drugareddau, fel y byddo i'th Enw mawr di gael ei ogoneddu, a'n heneidiau ninnau dderbyn lles a bendith.—Attolygwn i Ti drugarhâu wrth bob dyn. Bywhâ, O Arglwydd, y rhai sydd etto yn feirw mewn camweddau a phechodau. Adgyfoda hwynt o angau pechod i fuchedd newydd o gyfiawnder a gwir sancteiddrwydd; a dwg bawb i gofleido'r Efengyl, ac i fyw yn sobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol yn y byd sydd yr awrhon.

Caniattâ estyn dy dadol ofal drosom y nos hon; bendithia ein cwsg i fod yn orphwysdra i'n cyrph; a chyfaddasa ni i'th wasanaethu yn ein hamrywiol sefyllfäoedd y dydd y fory.—Ac yn awr, O Arglwydd, yn gymmaint a'th fod wedi addaw pan ymgynhullo dau neu dri yn dy enw, y bydd i ti ganiattâu eu gofynion; cyflawna yr awr hon ein dymuniad, fel y bo mwyaf buddiol i ni; gan ganiattâu i ni yn y byd hwn wybodaeth

am dy wirionedd, ac yn y byd a ddaw, bywyd tragywyddol, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## BORE DDYDD MAWRTH.

O ARGLWYDD ein Duw, yr Hwn wyt yn chwilio calonnau, ac yn profi arenau holl feibion dynion. Chwilia ni, O Arglwydd, a gwybydd ein calonnau; prawf ni, a gwybydd ein meddyliau; a gwêl a oes ffordd annuwiol gennym, a thywys ni yn y ffordd dragywyddol. Yr ydym yn hollol anhaeddiannol o'r fraint sydd yn ein meddiant yn awr; ac wrth feddwl am ein trueni a'n heuogrwydd, nis gwyddom pa fodd i agoryd ein geneuau yn dy ŵydd. Ond pan feddyliom am dy anfeidrol drugaredd yng Nghrist Iesu, dy anwyl Fab, y mae ein hofnau yn ymwasgaru, a galluogir ni i edrych i fynu at dy orsedd gyd â gobaith a hyder. Attolygwn arnat, nefol Dad, i'n cynnorthwyo i feddwl am dano Ef yr hwn a draddodwyd dros ein pechodau ni, ac a adgyfododd i'n cyfiawnhâu ni. Ni a'th fendithiwn am ei fod wedi ei ddyrchafu yn Dywysog ac yn Iachawdwr, i roddi edifeirwch i Israel, a maddeuant pechodau. Beth ydym ni, O Arglwydd, pan ymostyngit i edrych arnom, ac i roddi i ni y fath arwyddion o'th serch? Arglwydd, yr ydym yn cyffesu, gyd

â chalon ddrylliog, nad ydym yn rhyglyddu dy sylw. Y mae ein pechodau yn tystiolaethu i'n herbyn; yr ydym yn amddifad o'th ddelw sanctaidd; yr ydym wedi troseddu dy ddeddfau glân; wedi dy adael Di, Ffynnon pob daioni; ac wedi dwyn trueni a dinystr arnom ein hunain. O Arglwydd, trugarhâ wrthym wir bechaduriaid. O Arglwydd, cadw ni, darfu am danom! Ein camweddau ydynt faich trwm, rhy drwm i ni. Ped elit i farn â ni, nis gallwn roi cyfrif i ti am un peth o fil. Caniattâ dosturio wrth bob dyn. Gwena ar ein tîr, a llanw dy Eglwys â'th ogoniant. Bendithia holl Farnwyr y tîr, a holl Weinidogion dy Air. Bydd yn Dad i'r amddifaid; dadleua gŵyn y weddw; cysura y trallodedig; cadarnhâ'r llesg; cyfarwydda'r ieuangc, a diddana'r hên.

Bendithia ni fel teulu, â phob peth addas i'n hamrywiol amgylchiadau; a boed i ni ddefnyddio dy fendithion yn dy ofn a'th gariad, gyd â diolchgarwch i Ti fel y Rhoddwr o honynt oll. Bydded dy drugarogion glustiau, O Arglwydd, yn agored i'n gweddïau, a chaniattâ i ni am yr hyn yr ŷm yn eu herchi yn ffyddlawn, allu o honom eu cael yn gyflawn, trwy Iesu Grist, ein Harglwydd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## PRYDNHAWN DDYDD MAWRTH.

O ARGLWYDD, sanctaidd a galluog, yr hwn wyt yn gwrando gweddi y gwael, ac nid wyt yn dïystyru eu dymuniad. Gyd â gwylder a pharchedig ofn y gweddai i ni nesâu o'th flaen; nid oes ond cywilydd wynebau yn perthyn i ni am ein llygredigaeth a'n hanwiredd. Ond yr wyt wedi amlygu dy hun i ni yn Dduw graslawn, hwyrfrydig i ddig, a helaeth o drugaredd; ac er fod ein pechodau yn llïosog, etto ein hyder a'n cysur ger dy fron ydyw, fod gyd â Thi faddeuant, fel y'th ofner. Dilëa, O Arglwydd, ein beïau oddi ger dy fron, a'n dirgel bechodau o oleuni dy wyneb; maddeu ein holl anwiredd, a derbyn ni yn ddaionus, er mwyn dy anwyl Fab, yn yr hwn y'th lwyr foddlonwyd. Maddeu ein pechodau a wnaethom yn dy erbyn y ddydd hwn; golch ni yn llwyr ddwys oddi wrth ein pechodau. Crëa galon lân ynom, O Dduw, ac adnewydda yspryd uniawn o'n mewn, fel y gallom ymdebygoli yn fwy i Ti, a pherffeithio sancteiddrwydd yn dy ofn. Argrapha dy ddelw ar ein calonnau yn fwy amlwg o ddydd i ddydd, mewn gwybodaeth a gwir sancteiddrwydd.

Derbyn ein dïolch gostyngeiddiaf am dy ofal trosom y dydd hwn, ac am ein hymborth a'n hiechyd. Beth a dalwn i ti, Arglwydd, am dy dyner dosturiaethau i ni? Dyro i

ni galonnau gwir ddïolchgar, a dysg i ni fyw i Ti, fel yr ydym yn byw arnat Ti, gan ymwadu â phob peth, a'th ddilyn Di, yr unig wir Dduw. Attolygwn i Ti ein gwrando dros bawb a ddylem weddïo drostynt. Trugarhâ wrth yr anwybodus: agor eu llygaid i weled y distryw sydd ar eu ffyrdd; ac yn rasol dychwel hwynt i ffordd tangnefedd, yr hon nid adnabuant. Bydd yn drugarog wrth bawb sy ofidus am bechod. Bydd yn agos at y rhai drylliedig o galon, a chadw y rhai briwedig o yspryd: er yr erys wylofain dros brydnhawn, bydded gorfoledd erbyn y bore. Gorchymynwn ein hunain i'th gadwraeth y nos hon. Caniattâ i ni gael gorphwys yn dy dangnefedd; a phan elwir arnom i ymadael o'r byd, derbyn ni, attolygwn arnat, i'th deyrnas nefol, trwy Iesu Grist, ein Harglwydd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## BORE DDYDD MERCHUR.

HOLLALLUOG Dduw, a thrugaroccaf Dad, yr Hwn ... dy Ragluniaeth a'n cedwaist yngwyliadwriaethau'r nos a aeth heibio; yr ydym yn dïolch i Ti am ein bod etto yn fyw, ac yn abl i'th wasanaethu.—Meddianna ein heneidiau, O Arglwydd, â'r fath syniad o'th ddaioni hwn, ac o'n hymddibyniad arnat Ti am fywyd, ac iechyd, a

llwyddiant, a chysur, fel y byddo yn hyfrydwch gennym, megis y mae yn ddyledswydd ac yn lles i ni, dy wasanaethu ac ufuddhâu i Ti. Ac fel y gallom wneuthur hyn gyd â meddwl tawel, maddeu i ni, er mwyn dy Fab, y pechodau ag y mae ein cydwybod yn eu hofni; a thro ymaith y farn a gyfiawn haeddasom. Dyro i ni ras fel yr arhosom yn dy ofn ar hyd y dydd, ac fel y byddo i ni fucheddu a gweithredu megis â Thydi, O Dduw, yn dyst parhâus o'n hymddygiad; ac yr amcano ein heneidiau i beidio byth yn wirfoddol dy ddigio Di. Bydded i'th ras attaliol ein cadw rhag temtasiynau y byd, rhag gwendid a llygredd ein natur, a rhag egwyddorion a gweithredoedd drwg yr oes yr ydym yn byw ynddi. Na fydded i ni byth geisio cymmodi dy wasanaeth â'r byd, *yr hwn sydd elyniaeth i'th erbyn Di.* Dyro i ni, attolygwn i Ti, lygaid ffydd, fel y gwelom yr hyn yw'r byd mewn gwirionedd; —perygl ei gyfoeth; ynfydrwydd ei bleserau; lliosowgrwydd ei faglau; nerth ei demtasiynau; ei wenwyn marwol, a'r perygl sydd ynddo o ddenu ein calonnau oddi wrthyt.

Poed dy fendith ar ein llafur y dydd hwn, ac amddiffyned dy Yspryd Sanctaidd ni rhag pob drwg feddwl, gair, a gweithred. Dysg i ni fyw bywyd o ffydd yn dy Fab. Dyro i ni y ffydd honno ag a'n nertho i roddi ein serchiadau yn llwyr ar bethau ysprydol.

Caniattâ fendithio ein Brenhines. Cyflawna hi o ras dy sanctaidd Yspryd, fel y bo iddi yn wastadol bwyso at dy feddwl a rhodio yn dy ffordd.—Corona lafur-waith dy weision ffyddlon â llwyddiant helaeth; y cynhauaf, Arglwydd, yn ddïau sydd fawr, ond y gweithwyr yn anaml; am hynny, attolygwn i Ti, Arglwydd, anfon gweithwyr i'th gynhauaf. Poed i'r Efengyl gael ei phregethu i bob creadur dros wyneb y ddaear. Dychwel bawb, yn Iuddewon a Chenhedloedd, i gorlan Iesu; a deled dy Deyrnas ym mhob man, fel y llanwer yr holl ddaear â'th ogoniant, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## PRYDNHAWN DDYDD MERCHUR.

O ARGLWYDD Dduw, Tad tragywyddol a llawn o dosturi; nid ŷm deilwng, Arglwydd, i ddyrchafu ein golygon tu a'r nef, nac i ymddangos ger bron dy Fawredd. Er hynny, y cyfryw yw dy ras a'th ddaioni, fel yr wyt, nid yn unig yn ein gwahodd i nesâu attat, ond hefyd yn ymhyfrydu gweled pechadur yn ymostwng ger dy fron. Caniattâ i ni wneuthur hyn mewn ffydd ac edifeirwch calon. Nertha ni i ddyfod yn grynedig o'th flaen, fel rhai ar ddarfod am danynt, gan waeddi gyd â'r Publican, Arglwydd, bydd drugarog wrthym ni bechaduriaid. Nyni a

wnaethom gamwedd, ac a fuom anufudd. Dyrchafwn ein calonnau a'n dwylaw at Dduw yn y nefoedd. O trugarhâ wrthym; canys gwell yw dy drugaredd di na'r bywyd; ein gwefusau a'th foliannant; am hynny, Arglwydd, clyw ein llef: na chudd dy glust rhag ein uchenaid a'n gwaedd. Tro ni a bywhâ ni, fel y llawenychom ynot Ti: dangos i ni, Arglwydd, dy drugaredd, a dod i ni dy iachawdwriaeth.

Dïolchwn i ti, O Arglwydd, am gael byw mewn gwlad lle mae'r Efengyl yn cyhoeddi iachawdwriaeth i bob dyn. Y llinynnau a syrthiodd i ni mewn lleoedd hyfryd; ïe, y mae i ni etifeddiaeth deg. Na foed neb o honom yn foddlon ar glywed yn unig ei hyfryd lais; ond gwna ni yn awyddus i gyfrannogi o'i bendithion. Y mae hi yn llawn gras a gwirionedd, yn allu Duw, a doethineb Duw, er iachawdwriaeth i bawb ag sydd yn credu ei thystiolaeth, ac yn rhodio wrthi. Dysg ninnau, O Arglwydd, i wneuthur hyn. Dyro i ni y cyfryw olwg ar haeddiant Iesu ag a bair i ni ei garu â'n holl galon, ac â'n holl enaid. Argyhoedda ni yn llwyr o bechod. Gwna ni yn wir deimladwy o'n trueni. Dyro awydd ynom at bethau ysprydol. Diddyfna ni yn llwyr oddi wrth y byd; a boed i Air Crist breswylio ynom yn helaeth ym mhob doethineb.

Wele un yn rhagor o'n dyddiau wedi

myned heibio, na ellir byth ei alw yn ol, a diwedd ein gyrfa ddaearol yn nês nag y bu erioed. O! na byddem ddoethion i ddeall hyn—nad ystyriem ein diwedd. Pâr i ni wybod, O Arglwydd, yn ein dydd hwn, y pethau a berthynant i'n heddwch, cyn i'n haf ddarfod, a'n cynhauâf fyned heibio, a ninnau heb fod yn gadwedig.

Caniattâ gofio am ein perthynasau a'n cyfeillion ym mhob man. Dyro ras iddynt i fyw yn dduwiol, a phâr iddynt lawenychu yn Nuw eu hiachawdwriaeth. Trugarhâ wrth yr holl dlodion, y cleifion, a'r cystuddiol; dwg hwynt i gredu ynot ac i ymorphwys arnat Ti yn unig, yr hwn wyt Dad i'r amddifaid a Barnwr y gweddwon. Cymmer ni fel teulu i'th gadwraeth y nos hon; a maddeu ein holl bechodau, er mwyn Iesu Grist. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## BORE DDYDD IOU.

O ARGLWYDD, Creawdwr a Cheidwad pob rhyw ddyn. Nyni a aethom ar gyfeiliorn allan o'th ffyrdd di, fel defaid ar gyfrgoll. Nyni a ddilynasom ormod ar amcanion a chwantau ein calonnau ein hunain, y rhai ydynt ddrygionus bob amser. Nyni a wnaethom hefyd yn erbyn dy gyfreithiau, y rhai ydynt sanctaidd, cyfiawn, a da. Nyni a ad-

awsom heb wneuthur y pethau a ddylesym eu gwneuthur, ac a wnaethom y pethau ni ddylesym eu gwneuthur, ac nid oes iechyd ynom. Y pen oll sydd glwyfus, a'r holl galon yn llesg. O trugarhâ wrthym, wir bechaduriaid: yn drugarog maddeu ein pechodau: attolwg, Arglwydd, achub yn awr: attolwg, Arglwydd, pâr yn awr lwyddiant. Dysg ni, Arglwydd, yn ffyrdd dy ddeddfau: gwna i ni ddeall a chadw dy gyfraith; ïe, ei chadw â'n holl galon: gwna i ni gerdded yn llwybr dy orchymynion, a gostwng ein calon at dy dystiolaethau.

Dymunem â chalon wresog, ddïolch i ti am ein cadwraeth y nos a aeth heibio, ac attolygwn i ti ein cadw y dydd hwn dan gysgod dy adenydd, fel na ddigwydd i ni ddim drwg. Dysg ni i'w dreulio yn dy ofn: gwna ni yn dra gwyliadwrus dros ein meddyliau, ein geiriau, a'n gweithredoedd. Na âd i bechod deyrnasu arnom: nertha ni i ymwrthod â phob drwg; ac i rodio yn addas i Efengyl Crist. Caniattâ gofio am dy Eglwys, a boed iddi gael dy wasanaethu yn llawen yn mhob duwiol heddwch. Cynnysgaedda dy weinidogion â doethineb; gwisg hwynt â'th gyfiawnder, a gwna hwynt yn selog dros dy wirionedd. Anfon dy oleuni a'th wirionedd i'r Cenhedloedd ag sydd yn eistedd mewn tywyllwch a chysgod angau; a boed i lawer o'r newydd ddyfod i ymofyn am y ffordd sy'n

arwain i Sïon. Benditha a chadw ein Brenhines, a Phen-swyddogion ein gwlad. Dyro iddynt ras i wneuthur cyfiawnder, ac i ymddiffyn y gwir; dyro i bob cenedl undeb, tangnefedd, a chydgordio, ynghyd â chalon i'th garu, i'th ofni, ac i fyw yn ddïesgeulus yn ol dy orchymynion. Caniattâ wrando ein herfyniau ammherffaith hyn, er teilyngdod Iesu Grist ein Harglwydd.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## PRYDNHAWN DDYDD IOU.

O DRUGAROCCAF Dad, yr hwn wyt yn tosturio wrth bob dyn, ac ni chasâi ddim ar a wnaethost; yn ostyngedig yr attolygwn i ti edrych arnom mewn trugaredd, a chaniattâu i ni dy ras i'n llywodraethu ym mhob peth. Yr ŷm yn ymofidio am farweidd-dra ein calonnau mewn pethau ysprydol, ac yn edifarhau am ein haml a'n dirfawr bechodau i'th erbyn. Y mae ein heneidiau yn dueddol i lynu wrth y llwch, ac i ymserchu ym mhethau gwael y byd hwn. Pan ystyriom dy sancteiddrwydd a'th burdeb di, gorfydd i ni guddio ein gwynebau; a chan guro ein dwyfron, waeddi gyd â'r publican, "O Dduw, bydd drugarog wrthym ni, bechaduriaid." Y mae y galon yn fwy ei thwyll na dim, a drwg ddiobaith ydyw; pwy a'i hedwyn? Y mae yn lloches i bob aderyn aflan, ac o honi hi y mae

meddyliau drwg yn dyfod allan. Crëa galon lân ynom, O Arglwydd, ac adnewydda Ysbryd uniawn o'n mewn. Dychwel di ni, a ni a ddychwelwn. Anfon dy Yspryd Glân i oleuo ein meddwl, i'n hargyhoeddi o bechod, ac i'n dwyn i wir edifeirwch. Ti a addewaist ei roddi i'r sawl a ofyno gennyt. Erfyniwn arnat, O Arglwydd, ei dywallt ar led yn ein calonnau, fel yr ufuddhaem i ti ym mhob peth, ac y dilynem yr esamplau da a roddaist o'n blaen; canys er gwybod o honom ein dyledswydd, ni feddwn na nerth na gallu i'w chyflawni, heb ei gymhorth Ef. Yr ydym wedi ein gosod mewn cymmaint a chynnifer o beryglon, fel nas gallwn, o herwydd gwendid ein dynol anian, sefyll bob amser yn uniawn; caniattâ i ni dy nerth a'th nodded i'n cymmorth ym mhob perygl, ac i'n harwain trwy bob profedigaeth. Attolygwn arnat, nefol Dad, i ni gael profi y dystiolaeth ynom ein hunain, ein bod wedi ein geni o ddwfr ac o'r yspryd: fod dy Yspryd yn cyd-dystiolaethu a'n hyspryd ni ein bod ni yn blant i Dduw, fel y dangosom yn eglur ddodi o honom heibio yr hên ddyn, yr hwn sydd lygredig yn ol y chwantau twyllodrus; ac ymadnewyddu yn yspryd ein meddwl; a gwisgo y dyn newydd, yr hwn yn ol Duw a grëwyd mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd. Caniattâ gofio am ein perthynasau a'n cyfeillion, cynnysgaedda hwy â gras i fyw yn

dduwiol; planna yn eu calonnau gariad dy Enw; ychwanega ynddynt wir grefydd; nertha hwy â phob daioni; ac o'th fawr drugaredd cadw hwynt yn yr unrhyw holl ddyddiau eu bywyd.—Yr ydym yn diolch i ti, O Arglwydd, am dy drugareddau i ni y dydd hwn. Buost yn dirion iawn o honom yn ein mynediad allan a'n dyfodiad i mewn. Ti a'n cedwaist rhag pob drwg, ac a roddaist i ni yn helaeth bob peth i'w fwynhâu. Argrapha ar ein calonnau ystyriaethau diolchus; a boed i ni ymddiried ynot am y y cwbl i ddyfod. I'th ddwylaw di y gorchymynwn ein hunain y nos hon. Caniattâ, Arglwydd, ein hamddiffyn rhag pob niwaid a pherygl. Bydd yn Geidwad ac yn Arweinydd i ni hyd angau; a chan na wyddom beth a ddigwydd mewn noswaith, gwna ni yn barod i roddi cyfrif o'n goruchwyliaeth, ac i wneuthur hynny yn llawen, ac nid yn drist; a'r cwbl a ofynwn er mwyn Iesu Grist. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## BORE DDYDD GWENER.

YR Hollalluog Dduw, yr hwn a'n cedwaist y nos aeth heibio, yr ydym y bore hwn yn dyfod o'th flaen gyd â dïolchgarwch a mawl, ac yn llawenhau ynot fel Craig ein hiachawdwriaeth. Yr ydwyt Ti i'th ofni a'th arswydo gan bawb o'th amgylch:

Ti wyt Dduw mawr, a Brenhin mawr goruwch yr holl dduwiau. Poed i ni dy adbod, dy addoli, a'th garu fel ein Duw, ac fel ein Rhan dragywyddol. Gosod dy ofn yn ein calonnau, fel na chiliom oddi wrthyt. Na oddef i ni feddwl yn isel am danat; ond boed i ni dy barchu a'th anrhydeddu megis ein Creawdwr a'n Cynhaliwr. Yr ydym yn dy fendithio am fod rhyddid i bechaduriaid nesâu attat. Gyd â thi, O Dduw, y mae trugaredd fel y'th ofner, ac aml ymwared, fel yr ymofyner â'th Enw. Nid ŷm yn cuddio ein pechodau yn dy wyddfod. Gwelaist ac adnabuost ni yn hollol; Ti, Arglwydd, fuost yn breswylfa i ni ym mhob cenhedlaeth, a bendigedig fo dy enw, na adewaist i ni syrthio yn fyw i'r pwll; eithr darperaist i ni waredigaeth trwy waed yr Oen. Yr ydym yn dy fendithio am Iesu, Mab dy gariad. O na fyddai i'r mawr gariad hwn, â'r hwn y ceraist bechaduriaid, doddi ein calonnau celyd: tyn, ni a attolygwn i Ti, y galon garreg ymaith o'n cnawd, a dyro i ni galon gig. Agor ein llygaid i ganfod gogoniant anfeidrol, addasrwydd, a gras yr Arglwydd Iesu Grist. Poed i ni weled ynddo Ef oll sydd angen arnom er maddeuant, tangnefedd, a sancteiddiad.—Nertha ni i ymaflyd ynddo am fywyd tragywyddol, a gwybod trwy brofiad fod gennym hawl yn holl fendithion y prynedigaeth. Na fydded i ni drigo mewn pechod, fel yr amlhäo

gras; eithr bod i ni gael ein gwared oddi wrth bob anwiredd, a'n cyssegru i'w ogoniant Ef yr hwn a roddes ei einioes yn bridwerth dros ein pechodau.

Edrychwn i fynu attat, O Arglwydd, am gyfarwyddyd ac amddiffyniad y dydd hwn. Cyfarwydda ein camrau yn dy ffyrdd. Dyro ras i ni rodio yn ddïesgeulus, nid fel annoethion, ond fel doethion, gan brynu'r amser, canys y dyddiau sy ddrwg. Gwared ni rhag awdurdod ein gelynion ysprydol. O ein Duw ni, nid oes gennym ni nerth i sefyll o flaen y dyrfa fawr hon sydd yn dyfod i'n herbyn; ac ni wyddom ni beth a wnawn: ond arnat Ti y mae ein llygaid. Bydd i ni, ynte, yn Dwr cadarn, yn Darian, ac yn Ymddiffyn rhag wyneb ein gelynion; a hyn a erfyniwn er mwyn Iesu Grist. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## PRYDNHAWN DDYDD GWENER.

O TYDI, Geidwad Israel, yr hwn nid ydwyt nac yn huno nac yn heppian. Nyni a chwennychwn ymostwng y prydnhawn hwn wrth orseddfaingc dy ras, gyd â chyflawn hyder y bydd i Ti wrando ein gweddïau, maddeu ein pechodau, a chyflawni ein holl raid ni yn ol dy olud mewn gogoniant, yng Nghrist Iesu. Ti, Arglwydd, a adwaenost ddirgelion ein calonnau: na chaua dy glustiau

trugarog oddi wrth ein gweddïau; eithr arbed nyni, O Arglwydd sancteiddiaf, O Dduw galluoccaf, O sanctaidd a thrugarog Iachawdwr; tydi, deilyngaf Farnwr tragywyddol, na âd i ni, yn yr awr ddiweddaf, er neb rhyw boenau angau, syrthio oddi wrthyt. Y mae gennym achos adnewyddol i gydnabod dy ddaioni yn nhrefn dy ragluniaeth; gwnaethost i derfyn bore a hwyr lawenychu: ac mor llïosog yw ein camweddau, etto yr wyt yn ymostwng mewn tadol gariad, i'n cymmell i geisio a derbyn y pennaf o'th roddion. Bendithiwn Di am ddawn annhraethol dy gariad, am Iesu Grist, Cyfryngwr y Cyfammod Newydd, ac am obaith bywyd tragywyddol trwyddo Ef. Poed i ni gredu ynddo i gadwedigaeth yr enaid; cyfrifer ei gyfiawnder Ef i ni trwy ffydd; ac ym mhob calon o honom bydded ei fod yn obaith gogoniant. Cynnorthwya ni i'w barchu Ef fel ein Dysgawdwr, ein Gwaredwr, a'n Brenhin. Llanwer ni â phob bendith ysprydol o'i gyflawnder Ef. Galluoga ni i fyw arno trwy ffydd, ac i ymgyssegru yn feunyddiol i'w wasanaeth a'i glod. Dïolchiwn i ti am dy drugareddau i ni y dydd hwn. Bu dy sylw a'th law arnom er daioni; porthaist ni â digonedd o fara; bendithiaist ni â gradd o iechyd; cynheliaist ni yn ein gwahanol alwedigaethau; a chedwaist ni rhag peryglon gweledig ac anweledig. Beth a dalwn i'r Arglwydd ein Duw, am yr holl drugar-

eddau hyn. Bendithiwch yr Arglwydd, O ein heneidiau, a chwbl sydd ynom ei Enw sanctaidd Ef. Yr ŷm yn cyfaddef, O Arglwydd, mewn modd gostyngedig, aml bechodau y dydd hwn. Nac ymddwyn tu ag attom mewn barn, eithr mewn trugaredd. Maddeu ein hanwiredd, derbyn ni yn ddaionus, a châr ni yn rhâd; a'r cwbl a erfyniwn er mwyn Iesu Grist. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## BORE DDYDD SADWRN.

HOLLALLUOG Dduw, oddi wrth yr hwn y mae pob rhodd dda a pherffaith yn dyfod, Ni a chwennychwn dy addoli fel Awdwr a Rhoddwr ein holl fendithion. Ti sydd yn parhâu i ni ein bywyd a'n hiechyd, ac yn trefnu i ni ymborth a dillad, a miloedd o drugareddau nad ydym deilwng o'r lleiaf o honynt; ond Ti a wnaethost i ni bethau mwy na'r rhai hyn:—Ti a roddaist i ni dy Fab, i fod yn Iawn dros ein pechodau; rhoddaist i ni dy Air sanctaidd, a moddion gras, a gobaith gogoniant. Teilwng wyt, O Arglwydd, o bob mawl a dïolchgarwch a fedrwn ni ei roddi i ti. Eithr â pha beth y deuwn ger bron yr Arglwydd, ac yr ymgrymwn ger bron yr uchel Dduw? canys gwagedd yn ddiau yw pob dyn pan fo ar y goreu. Nid er ein mwyn ni, O Arglwydd, yr wyt yn parhâu

i'n bendithio o dydd i ddydd; ond am fod yn hoff gennyt drugaredd, ac am dy fod yn Dduw parod i faddeu, er mwyn Aberth Iesu Grist, yn yr hwn y'th foddlonwyd. Er ei fwyn Ef, caniattâ i ni gael maddeuant o'n holl bechodau. Diwalla ni yn fore â'th drugaredd: fel y gorfoleddom ac y llawenychom dros ein holl ddyddiau. Iachâ ni, a ni a iachêir; achub ni, a ni a achubir. Ti a adwaenost ein holl ffyrdd, gwelaist ein holl ddymuniadau, ac nid oes un o'n pechodau yn guddiedig rhagot. Na chofia, Arglwydd, ein hanwireddau i'th erbyn; eithr yn ol dy drugaredd, yng Nghrist Iesu, golch hwynt ymaith yn y ffynnon a agorwyd yn ei werthfawroccaf waed Ef. Gwisg ni â gwisg gyfiawnhâol ei gyfiawnder Ef, a phura ni â dylanwadau glanhâol ei Yspryd Glân; fel wedi ein golchi, a'n cyfiawnhâu, a'n sancteiddio yn enw yr Arglwydd Iesu Grist, a thrwy Yspryd ein Duw ni, y gallom gael tystiolaeth gysurus ein bod yr awrhon yn feibion i Dduw, ac er nad amlygwyd etto beth a fyddwn: eithr pâr i ni gael gwybod pan ymddangoso Efe, y byddwn gyffelyb iddo; oblegid ni a gawn ei weled ef megis ag y mae.

Gan dy fod wedi ein cadw rhag dychryn y nos, a rhag yr haint a rodia yn y tywyllwch, felly cadw ni oll rhag y dinystr a ddinystria ganol dydd, a rhag pob niwaid i'n cyrph a'n heneidiau. Dyro i ni ras i dreulio'r

dydd hwn yn dy ffydd a'th ofn. Cymmorth ni i ochelyd pob rhith drygioni, ac i ymarfer ein hunain i gadw cydwybod ddirwystr mewn pob peth a wnelom. Cyflawna ni â gwybodaeth o'th ewyllys; a nertha ein calonnau, fel y rhodiom yn addas i'th Efengyl, gan ddwyn ffrwyth ym mhob gweithred dda, a chynnyddu yngwybodaeth am Dduw. A hyn oll a erfyniwn er teilyngdod Iesu Grist, ein Harglwydd a'n Hiachawdwr. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## PRYDNHAWN DDYDD SADWRN.

O ARGLWYDD ein Duw, ti wyt dda i bawb, a'th dyner drugaredd sydd ar dy holl weithredoedd; dydd i ddydd a draetha ymadrodd, a nos i nos a ddengys wybodaeth. Yn niwedd wythnos arall yr ymostyngwn ger dy fron, gan attolygu arnat faddeu i ni ein pechodau, a thywallt arnom fendithion dy ras. O Arglwydd, erglyw ein cri, ac ystyria wrth lef ein gweddi. Na chudd dy wyneb oddi wrthym, rhag ein bod yn gyffelyb i'r rhai a ddisgynnant i'r pwll. Pâr i ni glywed dy drugarowgrwydd yn y prydnhawn, o herwydd ynot Ti y gobeithiwn; pâr i ni wybod y ffordd y rhodiom, oblegid attat Ti y dyrchafwn ein heneidiau. Dysg i ni wneuthur dy ewyllys di, canys ti yw ein Duw; a thywysed dy Ysbryd Sanctaidd ni i dîr un-

iondeb.—Dïolchwn i ti am ein dwyn yn ddiangol hyd ddiwedd yr wythnos hon; dy allu Di sydd wedi ein cadw; dy drugaredd Di sydd wedi ein harbed; a'th haelioni Di sydd wedi ein diwallu o'r bru hyd yma. O Arglwydd, y mae yn gweddu i ni dy addoli a'th fendithio fel Duw ein heinioes. Na ddeued ein haberth hwyrol o wefusau twyllodrus, eithr boed cywirdeb a symledd duwiol yn dynodi ein dynesiad at dy orseddfaingc. Ni feiddiwn agosâu attat yn ein henwau ein hunain, eithr yn enw Arch-offeiriad mawr ein cyffes. Ni feddwn gyfiawnder i ddadleu ond ei gyfiawnder Ef. Pechasom; collasom dy ddelw; ydym yn hollol megis peth aflan yn dy olwg di. O golch ni yn llwyr ddwys oddi wrth ein pechodau yn ei waed Ef. Cyfiawnhâ ni yn rhad trwy dy ras, trwy y prynedigaeth sydd yng Nghrist Iesu. Bywhâ ni o angau pechod; a chyfod ni i ddylanwad a mwynhâd bywyd ysprydol.

Fel y mae yr wythnos hon ar derfynu, dysg i ni gofio y daw yr wythnos olaf at bob un o honom cyn hir. Na fydded iddi ddyfod arnom a'n prif orchwyl heb ei orpheu. Gwared ni rhag dïofalwch: na foed ein gofal pa beth a fwyttâom, neu pa beth a yfom; neu pa beth a wisgom; eithr boed i ni ddewis yr un peth angenrheidiol—y rhan dda, yr hon ni ddygir oddi arnom; a boed i ni lafurio am y bwyd a bery i fywyd tragy-

wyddol, yr hwn a ddyry Mab y dyn i ni. Poed yr enaid a'i achosion yn wrthddrychau ein gofal beunyddiol a chysson; canys pa leshâd i ni ped ennillem yr holl fyd, a cholli ein heneidiau ein hunain; neu pa beth a allwn roddi yn gyfnewid am ein heneidiau?

Attolygwn arnat ein parottôi gyferbyn â chyflawniadau y Sabbath sanctaidd: cynnorthwya ni heno i osod pob meddyliau a gofalon bydol o'r neilldu, fel y byddom yn addas i esgyn mynydd cymmundeb â Duw. Bendithia ac addasa dy weision at y gwaith pwysig sydd o'u blaen: gwna hwynt megis canhwyllau yn llosgi ac yn goleuo ynghanol byd tywyll a gwrthnysig: cyfarwydda hwynt i fwrw y rhwyd y tu de i'r llong, fel y casgler lluoedd o eneidiau i freichiau Iesu.

Caniattâ, ni a attolygwn i Ti, edrych mewn trugaredd ar Baganiaid y byd, y rhai sydd yn addoli pren a maen, duwiau o wneuthuriad dwylaw dynion. Dyro iddynt oll adnabyddiaeth o'r gwir Dduw, a'r Hwn a anfonaist i'r byd i gadw pechaduriaid, sef Iesu Grist; a chan daflu eu heilunod i'r wadd, ac i'r ystlummod, boed iddynt dy addoli di mewn yspryd ac mewn gwirionedd.

Bydded i'th fendith, O Arglwydd, fod gyd â ni; amddiffyn ni rhag pob perygl ac enbydrwydd y nos hon; a chaniattâ, pan b'om yn ymadael â'r bywyd hwn, i ni gael gorphwys mewn heddwch, ac mewn gobaith o

adgyfodiad gwynfydedig, drwy Iesu Grist ein Harglwydd, Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## COLLECTAU I'W HARFERYD AR OL Y GWEDDIAU AM Y DYDD.

### AR OL GWEDDI FOREUOL.

O ARGLWYDD, nefol Dad, Hollalluog a thragywyddol Dduw, yr hwn a'n cedwaist yn ddiangol hyd ddechreu'r dydd heddyw. Ymddiffyn nyni ynddo â'th gadarn allu; a chaniattâ na syrthiom y dydd hwn mewn un pechod, ac nad elom mewn neb rhyw berygl; eithr bod ein holl weithredoedd wedi eu trefnu a'u llywiaw wrth dy lywodraeth, i wneuthur yn wastad y peth sydd gyfiawn yn dy olwg di; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

### AR OL GWEDDI BRYDNHAWNOL.

GOLEUA ein tywyllwch, ni a attolygwn i ti, O Arglwydd; a thrwy dy fawr drugaredd ymddiffyn nyni rhag pob perygl ac

enbydrwydd y nos hon, er serch ar dy un Mab, ein Iachawdwr Iesu Grist. Amen.

---

## COLLECTAU I'W HARFERYD CYN AC AR OL Y GWEDDIAU AR DDYDD SABBATH.

---

### AR OL Y FOREUOL WEDDI.

O ARGLWYDD Iesu Grist, yr hwn ar dy ddyfodiad cyntaf, a anfonaist dy genhadwr i barottôi dy ffordd o'th flaen. Caniattâ i weinidogion a goruchwylwŷr dy ddirgeledigaethau felly barottôi ac arloesi dy ffordd, gan droi calonnau y rhai anufudd i ddoethineb y cyfiawn, fel, ar dy ail ddyfodiad i farnu'r byd, y'n caffer yn bobl gymmeradwy yn dy olwg di, yr hwn wyt yn byw ac yn teyrnasu gyd â'r Tad a'r Yspryd Glân, byth yn un Duw, heb drangc na gorphen. Amen.

### AR OL Y WEDDI BRYDNHAWNOL.

CANIATTA, ni a attolygwn i ti, Hollalluog Dduw, am y geiriau a glywsom heddyw â'n clustiau oddi allan, eu bod felly trwy dy ras wedi eu plannu yn ein calonnau oddi mewn, fel y dygont ynom ffrwyth buchedd dda, er anrhydedd a moliant i'th Enw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

# GWEDDIAU

AR

# WYLIAU ARBENNIG YR EGLWYS.

---

## BORE DDYDD NADOLIG.

O DRUGAROG Arglwydd, yr ŷm ni, greaduriaid pechadurus a gwrthryfelgar, yn ymostwng ger dy fron i roddi i Ti ddïolch gostyngeiddiaf am dy ras anfeidrol yn caru'r byd mor fawr trwy anfon dy unig-anedig Fab i gymmeryd ein hanian arno, a'i eni o Forwyn bur, fel y gallai ddwyn ein pechodau yn ei gorph ei hun ar y pren. Ni a'th folwn; ni a'th fendithiwn; ni a'th addolwn; ni a'th ogoneddwn; i Ti y dïolchwn am dy fawr ogoniant, Arglwydd Dduw, Frenhin nefol, Duw Dad, hollalluog. Poed i ni lawenychu heddyw gyd â'th Brophwyd, o herwydd "Bachgen a aned i ni, Mab a roddwyd i ni, a gelwir ei enw ef, Rhyfeddol, Cynghorwr, y Duw Cadarn, Tad tragywyddoldeb, Tywysog tangnefedd. Poed i ni fyned yn yr yspryd gyd â'r bugeiliaid i Bethlehem, gan ogoneddu a moliannu Duw; a chyweirio ein telynau gyd â'r

angylion, i gyd-uno yn eu cân, gan ddywedyd, "Gogoniant yn y Goruchaf i Dduw, ar y ddaear tangnefedd, i ddynion ewyllys da." Pâr i ni ystyried yn ddyledus ei fawr ostyngeiddrwydd yn dyfod i ymweled â ni, ac i wneuthur ymwared i'w bobl. Goleua ein meddwl i weled ei ogoniant a'i brydferthwch, megis Rhosyn Saron a Lili y dyffrynoedd; megis lili ym mysg y drain, ac megis pren afalau ym mysg prennau y coed: nertha ni i edrych i fynu atto trwy ffydd am ein Hiachawdwriaeth, fel y byddo "dirgelwch ei lân gnawdoliaeth Ef," yn achos gorfoledd i ni byth. Bydded i'w gariad Ef ein cymmell i offrymmu ein hunain iddo, ein heneidiau a'n cyrph, i fod yn aberth byw, rhesymol, sanctaidd, a bywiol iddo Ef, yr hyn yw ein rhesymol wasanaeth. Dysg ni i ymostwng i'w awdurdod; ufuddhau i'w orchymynion; ac yn ei nerth Ef, caniattâ, nyni a attolygwn i Ti, allu o honom fyned ym mlaen yn llwybr ein dyledswydd, a than arweiniad ei Lân Yspryd, nes y cyrhaeddom ein cartref gyd â thi yn y nef, pryd y newidir ein corph gwael ni, fel y byddo yn gyffelyb i'w gorph gogoneddus Ef, o herwydd y galluog weithrediad, trwy yr hwn y dichon Efe ddarostwng pob dim iddo ei hun. Caniattâ hyn, ni a attolygwn i ti, O drugarog Dad, trwy Iesu Grist ein Cyfryngwr a'n Pryniawdwr. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## PRYDNHAWN DDYDD NADOLIG.

HOLLALLUOG Dduw, a Thad ein Harglwydd Iesu Grist; nid oes fel Tydi ym mysg y duwiau, na gweithredoedd fel dy weithredoedd Di. Y maent wedi eu trefnu a'u hamcanu er mawl gogoniant dy ras, a daioni i'th greaduriaid. Gwna ni, O Arglwydd, yn wir deimladwy o'r holl bethau mawrion a wnaethost drosom yn ein creadigaeth a'n cynhaliaeth; ond yn bennaf dim, am dy gariad yn danfon dy Fab i'r byd, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo Ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol. Yn hyn, Arglwydd, yr wyt wedi rhagori ar dy holl weithredoedd, wedi coroni dy holl roddion; sef trwy ein cofio yn ein hisel-radd, a rhoddi ein cymmorth ar un cadarn. Poed i'r Iesu drigo yn ein calonnau trwy ffydd, fel y gallom amgyffred gyd â'r holl saint, beth yw y lled, a'r hŷd, a'r dyfnder, a'r uchder; a gwybod cariad Crist, yr Hwn sydd uwchlaw gwybodaeth, fel y'n cyflawner â holl gyflawnder Duw. Dysg ni oll i ganlyn llwybrau ei wir lânaf fuchedd Ef, a'i glodfori yn ddibaid am y cariad â'r hwn y carodd Efe nyni. Dyro ras i nyni i ymwrthod â gweithredoedd y tywyllwch, ac i wisgo arfau y goleuni, yn awr yn amser y fuchedd farwol hon, (pryd y daeth dy Fab, Iesu Grist, i ymweled â nyni mewn mawr ostyngeiddrwydd) fel y byddo i ni yn

y dydd diweddaf, pan ddelo efe drachefn yn ei ogoneddus Fawredd, i farnu byw a meirw, gyfodi i'r fuchedd anfarwol trwyddo ef, yr hwn sydd yn byw ac yn teyrnasu gyd â thi, a'r Yspryd Glân, yr awrhon ac yn dragywydd. Attolygwn i ti faddeu ein pechodau i'th erbyn y dydd hwn, a chynnysgaedda ni â gras i wellhâu ein buchedd yn ol dy Air sanctaidd; a pha un bynnag a wnelom ai gwylied ai cysgu, byw ai marw, bydded ein bod yn eiddo i Ti, er mwyn Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## BORE DDYDD GWENER Y GROGLITH.

HOLLALLUOG Dduw, yr Hwn, o'th dyner drugaredd, a roddaist dy un Mab, Iesu Grist, i ddïoddef angau ar y groes drosom ni, bechaduriaid truain, y rhai oeddym yn gorwedd mewn tywyllwch a chysgod angau, fel y'n gwnelid ni yn blant i Dduw, ac yn etifeddion bywyd tragywyddol. Dïau Ti a gymmeraist ein gwendid, ac a ddygaist ein doluriau. Archollwyd Di am ein camweddau ni; drylliwyd Di am ein hanwireddau ni; dygaist ein pechodau ni yn dy gorph dy hun ar y pren, a thrwy dy gleisiau Di yr iachêir ni. Er dy fwyn dy hun trugarhâ wrthym; trwy dy ddirfawr Ing a'th chwys gwaedlyd; trwy dy Grog a'th ddïoddefaint, gwared ni,

Arglwydd daionus—cynnorthwya ni i nesâu at dy groes heddyw, ac ystyried mawredd ein pechodau ni, a mawredd dy gariad dithau yn marw drosom. Yn hyn y mae cariad, nid am i ni dy garu Di, O Arglwydd, ond am i Ti ein caru ni, ac anfon dy Fab i fod yn Iawn dros ein pechodau. Caniattâ na bo i'r cariad rhyfeddol hwn gael ei dreulio yn ofer ar neb o honom: ond, oddi ar wybodaeth o'n cyflwr gresynus wrth natur, bydded i ni gael ein gwir argyhoeddi o'r angen a'r fendith o Waredwr, fel y byddo i ni, gyd â chalon lawn o gydnabyddiaeth, gyd uno â'th lân Eglwys, i dalu ein diolchgarwch mwyaf defosiynol i Ti, ac i ddal i fynu goffadwriaeth o'r hyn a wnaeth ac a ddïoddefodd dy fendigedig Fab drosom. Parottôa ein calonnau i uno yngwasanaeth dy dŷ y dydd hwn: bendithia gennadwri dy weision: dyro iddynt ddoethineb a ffyddlondeb i osod allan Iesu Grist, a hwnnw wedi ei groeshoelio. Cymmer drugaredd ar ddefaid colledig tŷ Israel: dwg hwynt adref, wynfydedig Arglwydd, at dy braidd, fel y bont gadwedig ym mhlith gweddillion y gwir Israeliaid. Caniattâ hyn, er mwyn Iesu Grist, ein Harglwydd, i'r Hwn gyd â Thydi a'r Yspryd Glân y byddo yr holl anrhydedd a'r mawl a'r dïolch, byth bythoedd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## PRYDNHAWN DDYDD GWENER Y GROGLITH.

O DDUW, ein Tad nefol, yr ŷm yn dïolch i Ti am dy ddaioni mawr yn darparu ar gyfer ein dedwyddwch tragywyddol; am i Ti ein cofio yn ein hisel-radd; am drefnu ffordd i drugaredd weithredu yn unol â hawliau cyfiawnder; ac am ddwyn hyn i ben yn nghyflawnder yr amser, pryd y daeth dy Fab i'r byd i offrymmu ei Hun dros bawb ar allor y groes. O! yr uchder, y dyfnder, yr hŷd a'r lled o'th gariad attom! Bendith, anrhydedd, gogoniant, a gallu a fo i ti, O Oen Duw, byth ac yn dragywydd. O! wynfydedig Iesu, boed i'th werthfawr waed feddalhâu ein calonnau adamantaidd. Tydi yr Hwn yn dy farwolaeth a brynaist i ni waredigaeth rhag anfesurol drueni! O ddaioni anfeidrol! O ddaioni rhad! Poed i ni ystyried yr hyn a ddïoddefaist drosom—dy gam-gyhuddo—dy wawdio—dy daro—dy fflangellu—dy goroni â drain—dy lwytho â'r groes—dy ddïosg o'th ddillad—dy hoelio—dy drywanu â gwaywffon, a marw. O dangos i ni ddrwg pechod; dyro i ni wir gasineb atto; a'r edifeirwch hwnnw, i ba un yr addewaist drugaredd a maddeuant, fel na byddo ein pechodau yn ddinystr i ni. Nertha ni i gyfodi ein croes a'th ddilyn di yn llwyr; i groeshoelio'r cnawd, ynghyd â'i wŷniau a'i chwantau; ac i farw i bechod, a chyfodi i

fuchedd newydd, o gyfiawnder a gwir sancteiddrwydd. Yr ŷm yn rhoddi ein hachos yn gwbl yn dy law di; boed i'th waed a'th haeddiant ddadleu drosom, a thrwy dy eiriolaeth alluog, ennill i ni faddeuant o'n pechodau; fel y bo i ti ddywedyd wrth bob un o honom, fel y dywedaist wrth yr edifeiriol yn yr Efengyl, "Maddeuwyd i ti dy bechodau." Caniattâ hyn er teilyngdod dy Fab, Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## GWEDDI AR DDYDD Y PASG.

HOLLALLUOG a thragywyddol Dduw, Nyni yn ostyngedig a ddïolchwn i Ti am ddychweliad yr ŵyl arbennig hon, sydd i'w chadw gennym mewn dïolchus gof am anrhydeddus adgyfodiad dy Fab Iesu Grist; yr hwn a draddodwyd dros ein pechodau ni, ac a gyfodwyd i'n cyfiawnhâu ni. Caniattâ, ni a attolygwn i Ti, fod i'r Yspryd, hwnnw a gyfododd Iesu o feirw, drigo ynom, fel wedi ein cyd-gyfodi gyd â Christ, y ceisiom y pethau sydd uchod, lle mae Crist yn eistedd ar ddeheulaw Duw. Poed i ni gyfrif pob peth yn golled, fel yr ennillom Grist, ac y'n ceir ynddo Ef; gan gyfrif ein hunain yn feirw i bechod, eithr yn fyw i Dduw, yng Nghrist Iesu ein Harglwydd; fel pan ymddangoso Crist ein bywyd ni, yr ymddangosom ninnau hefyd gyd âg Ef mewn gogon-

iant. Yn ein holl orthrymder, nertha ni i lawenhâu ei fod Ef, yr hwn oedd farw, yn fyw drachefn, i eiriol drosom, i'n hamddiffyn, a'n cadw: a phan bo ein nerth a'n cnawd yn pallu, boed i ni allu dweyd, mewn llawn hyder ffydd, yngeiriau dy was Job, "Myfi a wn fod fy Mhrynwr yn fyw, ac y saif yn y diwedd ar y ddaear. Ac er ar ol fy nghroen i bryfed ddifetha'r corph hwn, etto caf weled Duw yn fy nghnawd: yr hwn a gaf fi im'fy hun ei weled, a'm llygaid a'i gwelant, ac nid arall."

Attolygwn i ti, nefol Dad, ein cynnorthwyo i gadw yr ŵyl hon, nid â hen lefain, nac â lefain malais a drygioni; ond â bara croyw, purdeb a gwirionedd: llanw ein calonnau â chariad at dy Enw: cryfha ein ffydd a'n gobaith ynot; a boed i ni ganlyn esampl ein Iachawdwr Crist, a chael ein gwneuthur yn gyffelyb iddo Ef: megis ag y bu Efe farw, ac y cyfododd drachefn drosom ni; felly y gallom ni, y rhai a fedyddiwyd, farw oddi wrth bechod, a chyfodi i gyfiawnder; gan farwolaethu yn wastad ein holl ddrygioni a'n gwŷniau llygredig, a pheunydd myned rhagom ym mhob rhinwedd dda a buchedd dduwiol; fel yn y pethau hyn oll, y byddem yn fwy na chongcwerwyr, trwy yr Hwn a'n carodd ni, ac sydd yn byw ac yn teyrnasu gyda Thydi a'r Yspryd Glân, byth yn un Duw, heb drangc na gorphen. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## AR DDYDD IOU DYRCHAFAEL, NEU Y SUL AR OL Y DYRCHAFAEL.

NYNI a ddïolchwn i ti, nefol Dad, am ddyrchafu o honot â'th ddeheulaw dy Fab Iesu Grist, yn Dywysog, ac yn Iachawdwr, i roddi edifeirwch i Israel, a maddeuant pechodau. Gogoniant fyddo i ti, Hollalluog Dduw, am ei osod yn ein natur ni i eistedd ar dy Ddeheulaw dy hun yn y nefolion leoedd, goruwch pob tywysogaeth, ac awdurdod, a gallu, ac arglwyddiaeth, a phob enw a enwir, nid yn unig yn y byd hwn, ond hefyd yn yr hwn a ddaw: ac am ddarostwng pob peth dan ei draed Ef, a'i roddi Ef yn ben uwch law pob peth i'r Eglwys. Nyni a'th folwn, ac a'th fendithiwn, am ei fod (gan gael pob gallu ac awdurdod yn y nef ac ar y ddaear,) wedi dyrchafu i'r uchelder, wedi caethgludo gaethiwed: wedi derbyn rhoddion i ddynion; ïe, i'r rhai cyndyn hefyd, fel y preswyliai yr Arglwydd Dduw yn eu plith." Yr ŷm yn awr yn nesâu ger dy fron i ddeisyf arnat ganiattâu i ni y bendithion hynny ag y mae Iesu wedi ei ddyrchafu i'w cyfrannu. Tywallt arnom yn helaeth o'th Yspryd Glân. Dyro i ni wir edifeirwch, a maddeuant o'n pechodau. Ychwanega at yr Eglwys fugeiliaid ac athrawon; i berffeithio y saint i waith y weinidogaeth, i adeilad corph Crist; hyd oni ymgy-

farfyddom oll yn undeb ffydd, a gwybodaeth Mab Duw, yn ŵr perffaith, at fesur oedran cyflawnder Crist. Gan ddarfod i'th unig-anedig Fab ddyrchafael i'r nefoedd; felly poed i ninnau â meddylfryd ein calon ymddyrchafael yno, a thrigo yn wastadol gyd âg Ef. Bydded ein hymarweddiad ni yn y nefoedd, lle y mae Crist yn eistedd ar ddeheulaw Duw. Sicrha ein calonnau y bydd i'r Iesu yr hwn a gymmerwyd i fynu oddi wrthym i'r nef, ddyfod felly yr un modd ag y gwelwyd Ef yn myned i'r nef. Dyro i ni ras i edrych at ei ail-ddyfodiad, ynghyd â sicrwydd pan yr ymddengys yr ail waith, y byddwn yn gyffelyb i'w gorph gogoneddus Ef, o herwydd y galluog weithrediad, trwy yr hwn y dichon Efe ddarostwng pob dim iddo ei hun.

Dysg i ni fyw fel rhai a chanddynt y gobaith da hwn ynddynt: poed i ni buro ein hunain, megis y mae Iesu yn bur: diddyfna ein serchiadau oddi wrth y byd; a boed ein trysor yn y nef. Dyro i ni ras i farweiddio chwant y cnawd, a chwant y llygaid, a balchder y bywyd. Llanw ein calonnau â chariad at dy Enw, a dysg i ni rodio yn uniawn ac mewn doethineb, fel ar yr adgyfodiad cyffredin, y caffom ein gosod i gyd-eistedd gyd â Christ yn y nefolion leoedd, yr Hwn sy'n byw ac yn teyrnasu gyd â Thi a'r Yspryd Glân, yn un Duw, heb drangc na gorphen. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## Y SULGWYN.

O ARGLWYDD ein Duw, yr hwn ar gyfenw i'r amser yma a ddysgaist galonnau dy ffyddlonion, gan anfon iddynt lewyrch dy Lân Yspryd i'w dysgu yn dy wirionedd, ac i'w haddasu i bregethu'r Efengyl i bob creadur; attolygwn i Ti dywallt yr unrhyw Yspryd ar ein calonnau, yn yspryd gras a gweddïau; yn yspryd purdeb a sancteiddrwydd; yn yspryd addfwynder, tangnefedd, a chariad brawdol: fel y cyfoder llewyrch ffydd ynom, fel y cadarnheir ein hewyllys mewn daioni; ac y llanwer ni oll â grasusau nefol dy Lân Ysbryd, fel y byddom sanctaidd, megis y mae Iesu yn sanctaidd. Heb gymmorth a dysgeidiaeth yr Yspryd Glân, nis gallwn wneuthur dim; ni wyddom ni pa fodd i weddïo megis ag y dylem; bydded i'th Yspryd di, gan hynny, gynnorthwyo ein gwendid, ac erfyn trosom âg ocheneidiau annrhaethadwy; canys y mae efe, yn ol ewyllys Duw, yn erfyn dros y saint. Cyd-dystiolaethed dy Yspryd â'n hysprydoedd ni ein bod yn blant i Dduw. Poed i ffrwythau'r Yspryd amlhâu ynom; caffed cariad, llawenydd, tangnefedd, daioni, addfwynder, hirymaros, dyoddefgarwch, a chymmedrolder, eu perffaith waith ynom. Darostwng ein hewyllys gyndyn, a gwna hi yn ufudd i'th ewyllys sanctaidd dy hun; gweithia ynom drwy nerthol

weithrediad yr Yspryd; poed i ni ymdrechu hardd-deg ymdrech y ffydd, a chymmeryd gafael yn y bywyd tragywyddol. Er yn ddiffygiol, poed i ni o hyd ddilyn; er ein temtio, poed i ni fod yn ffyddlon hyd angau. Arglwydd, bendithia ni oll â'th Yspryd Glân, fel y byddo i ni y dydd hwn, a holl ddyddiau ein bywyd, farw i bechod a byw i gyfiawnder; a chan gael ein hyfforddi ganddo y byddo i ni ddangos rhagoriaeth gwir grefydd yn holl ddyledswyddau ein bywyd. Attolygwn i ti ein cadw dan ein holl orthrymderau; dwg ni yn ddïogel trwy bob temtasiwn, a sefydla ein calonnau yn y lle ag y mae gwir lawenydd i'w gaffael. Bendithia ni â phob bendith ysprydol; a chyflawna ni â gwybodaeth dy ewyllys, ym mhob doethineb a deall ysprydol. Sancteiddia ni yn gwbl oll; a chadw ein hyspryd oll, a'n henaid, a'n corph, yn ddïargyhoedd yn nyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist; i'r hwn gyd â Thi a'r Yspryd Glân y byddo'r holl ogoniant, yn oes oesoedd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## SUL Y DRINDOD.

SANCT, Sanct, Sanct, Arglwydd Dduw Hollalluog, yr hwn oedd, a'r hwn sydd, a'r hwn sydd i ddyfod. Nefoedd a daear sydd yn llawn o'th Ogoniant. Gogoneddus gôr yr Apostolion a'th fawl Di. Ardderchog lu y

Merthyri a'th fawl Di. Yr Eglwys lân trwy'r holl fyd a'th addef Di. Y Tad o anfeidrol fawredd. Dy anrhydeddus, wir, ac unig Fab; hefyd yr Yspryd Glân y Diddanydd.

Nyni a'th fendithiwn am y Datguddiad a wnaethost o'th hanfod dwyfol fel Tri pherson ac Un Duw; ac a ddymunwn dy addoli yn awr yn ol y ffydd Gatholig, fel Un Duw yn Drindod, a'r Drindod yn Undod. *Duw Dad* o'r nef, trugarhâ wrthym, wir bechaduriaid. Na chofia, Arglwydd, ein hanwiredd, nac anwiredd ein rhïeni; ac na ddyro ddïal am ein pechodau: arbed nyni, Arglwydd daionus, ac na lidia wrthym yn dragywydd. Ni a'th folwn am dy holl drugareddau tu ag attom; am ein creadigaeth, am ein cadwraeth, ac am holl fendithion y bywyd hwn; eithr uwchlaw pob dim am dy anfeidrol gariad yn anfon dy Fab i'r byd i gadw pechaduriaid. I Ti y dïolchwn am dy fawr ogoniant, Arglwydd Dduw, Frenhin nefol, Duw Dad Hollalluog. *Duw Fab*, Brynwr y byd, trugarhâ wrthym, wir bechaduriaid. Trugarhëaist wrthym yn ein hiselradd; ymostyngaist i angau'r groes drosom ni, bechaduriaid truain. Trwy dy ddirfawr Ing, a'th Chwŷs gwaedlyd; trwy dy Grog a'th ddioddefaint; trwy dy werthfawr Angau, a'th Gladdedigaeth; trwy dy anrhydeddus Gyfodiad, a'th Esgyniad; a thrwy ddyfodiad yr Yspryd Glân, gwared ni, Arglwydd daionus; a phura ni yn bobl briodol i ti, awyddus i weith-

redoedd da. Arglwydd, yr unig genhedledig Fab Iesu Grist, Arglwydd Dduw, Oen Duw, Fab y Tad, yr hwn wyt yn dilëu pechodau'r byd, trugarhâ wrthym. Ti yr hwn wyt yn dilëu pechodau'r byd, trugarhâ wrthym. Ti yr hwn wyt yn dilëu pechodau'r byd, derbyn ein gweddi. Ti yr hwn wyt yn eistedd ar ddeheulaw Duw Dad, trugarhâ wrthym. *Duw Yspryd Glân*, yn deilliaw oddi wrth y Tad a'r Mab, trugarhâ wrthym, wir bechaduriaid. Ni a'th addolwn ac a'th fendithiwn, O Ysbryd Glân y Diddanydd, Ysbryd y Gwirionedd, yr hwn wyt yn chwilio pob peth, ïe, dyfnion bethau Duw. Argyhoedda ni o bechod, o gyfiawnder, ac o farn; tywys ni i bob gwirionedd: mynega i ni bethau i ddyfod: gwna ni yn ddoeth i iachawdwriaeth: dyro i ni farn gywir ym mhob peth; a thywys ni i bob gwirionedd. Sancteiddia ni yn dy wirionedd: dy Air sydd wirionedd; ac na fydded i neb o honom dristâu Glân Ysbryd Duw, trwy yr hwn y'n seliwyd hyd ddydd prynedigaeth. *Yr ogoned lân fendigaid Drindod*, tri pherson ac un Duw, trugarhâ wrthym, wir bechaduriaid. A bydded i ras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw Dad, a chymdeithas yr Ysbryd Glân, fod gyd â ni a'th Eglwys oll, byth bythoedd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

# MYFYRDODAU A GWEDDIAU AR ACHOSION NEILLDUOL.

---

## MYFYRDOD AR DDECHREU BLWYDDYN.

BUDDIOL iawn, ar ddechreu blwyddyn newydd, yw galw i gof pa fodd y treuliasom yr amser sydd wedi myned heibio o'n bywyd. Y mae Duw yn rhoi ein hamser i ni i'r unig ddiben i'w ddefnyddio yn ei wasanaeth ac er ei ogoniant ei hun; yn gystal ag er sicrhâu iachawdwriaeth ein heneidiau. Y mae gwastraffu amser, a pheidio a'i ddefnyddio i'r dibenion hyn, yn rhwym o arwain i'r canlyniadau gwaethaf. Dywedai Seneca, ein bod oll yn cwyno o herwydd byrdra amser, etto fod gennym fwy o hono nag y gwyddom beth i wneyd âg ef. Treuliwn lawer o'n hamser heb wneuthur dim, neu wrth bethau na fyddant yn tueddu i un diben da; ac, efallai, gyd â phethau nas dylem eu gwneuthur ar un cyfrif. Clywir ni yn achwyn bod ein dydd yn fyr; ond ceir ni yn ymddwyn at ein dyddiau, megis pe credem nad oes diwedd iddynt. Ardderchog oedd ymddygiad Vespasian, yr Amherawdwr Rhufeinig, yr hwn trwy ei holl fywyd a alwai ei hun i gyfrif bob nos, pa beth oedd efe wedi ei wneuthur yn y dydd; ac os byddai dydd wedi myned heibio arno heb wneuthur rhyw ddaioni, dodai ar ei ddydd-lyfr, "Collais ddiwrnod." Gallem hefyd gael anghraifft neillduol i werthfawrogi amser yn hanes Scipio, yr ieuengaf. Dywed ei hanesydd, na wyddai neb y ffordd i dreulio ei oriau segur yn rhagorach nag ef: byddai ei gorph, y rhan amlaf o'i fywyd, mewn ymdrechiadau rhyfelgar; a phan na

byddai hynny yn bod, byddai â'i feddwl yn myfyrio y gelfyddyd: ni byddai un amser yn fwy diwyd, na'r amser y byddai heb fod yn gwneuthur dim yn y maes; nac un amser yn llawnach o gymdeithion, na phan wrtho ei hun. Alffred Fawr oedd un o'r dynion doethaf, goreu, a mwyaf haelfrydig ym mhlith y brenhinoedd hynny a fuont erioed yn ymaflyd yn nheyrnwïalen y deyrnas hon. Y mae ei fywyd ef yn werth ei efelychu gan bob dyn sydd am fod o ddefnydd yn y byd. Yr oedd pob awr o'i fywyd a'i gwaith prïodol iddi. Rhannai y dydd a'r nos i dair rhan, wyth awr ym mhob dosparth; ac er ei fod yn cael ei flino gan gystudd tra gofidus, etto ni roddai iddo ei hun ond wyth awr i gysgu, bwytta, rhodio, &c.; yr un ar bymtheg eraill i ddarllen, ysgrifenu, a gweddïo, ynghyd âg at achosion cyhoeddus. Fel hyn yr oedd yn ystyried ei fod yn gyfrifol i'w Grëawdwr am ei amser. Dywedir gan haneswr, y gwyddai y Frenhines Elizabeth y ffordd i werthfawrogi amser yn hynod: ni byddai un amser yn segur; a phan na byddai gyd â phethau cyhoedd y Deyrnas, byddai yn ysgrifenu, ac yn cyfansoddi, neu yn cyfieithu; a'r rhan amlaf, y Beibl fyddai hi yn ddarllen ac yn fyfyrio. Wedi i Socrates brofi anfarwoldeb yr enaid (yn Plato Phœdrus), efe a ddengys y ddyledswydd o wrteithio yr enaid yn ddiwyd, gan nas gallwn fyned â dim gennym i'r byd arall, ond drwg neu dda yn ein cyflwr, i'w wneud yn druenus neu yn ddedwydd." Pa fath wers sydd yma i Gristion? Dyn paganaidd, heb gael un fantais i weled yr Ysgrythyrau, heb wybod dim am ein Hiachawdwr na'i haeddiant, nac ychwaith am ei fywyd rhyfeddol; etto yn dysgu i ni bethau mor deilwng! Byddai Pliny yn myned allan weithiau i gael ychydig seibiant mewn helwriaeth, ond rhag ofn nas dalesid dim, byddai yn arfer ysgrifenu i lawr ei feddyliau ar ei ddydd-lyfr, rhag dychwelyd adref heb ddim ganddo.

Wedi dyfynu yr ychydig nodiadau uchod, o weithiau haneswyr, gofynaf yn awr pa ddefnydd a wnaethom ni

o'n hamser. Onid oes gennym achos i feddwl fod ein hamser wedi llithro i dragywyddoldeb, a ninnau heb wneuthur unrhyw barottöad erbyn marw? Onid yw yn beth sobr, os yn ystod yr amser a gawsom, ein bod wedi byw mewn esgeulusdra o'r enaid, ac wedi defnyddio ein hamser i ddim ond i drysori i ni ein hunain ddigofaint erbyn dydd digofaint, a datguddiad cyfiawn farn Duw!

Y mae pob perchen bywyd, o'r nef hyd y ddaear, yn galw arnom i ddeffröi i werthfawrogi amser; ac yn wir, y mae amser yn werth tragywyddoldeb i ni; canys mewn amser y mae adnabod Duw, a'r Hwn a anfonodd efe i'n hachub ni. Mewn amser y mae i ni gael pob addurn ar gyfer y byd a ddaw. Mewn amser y mae gogoneddu Duw, trwy wneuthur daioni i'n cyd-deithwyr i'r farn. Mewn amser y mae i ni adnabod ein hunain, fel pechaduriaid, ac ennill bywyd tragywyddol. Dysgwn ynte werthfawrogi ein hamser.

Holwn beth yw ein cyflwr presennol. Pa fodd y mae rhyngom â Duw. Beth, pe bae Duw yn ein galw i'r Farn heddyw? A oes gennym sail i gredu ein bod mewn cyflwr parod i farw? O! cyn lleied sy'n byw fel yr ewyllysient farw: etto nid ydynt heb wybod fod angau yn gyffredin yn torri amryw i lawr yn ddisymmwth. Dichon fod ein hamser ni yn nês i'w derfyn nag a feddyliwn. Efallai mai o fewn y flwyddyn hon y byddwn farw. Hon, ond odid, fydd y flwyddyn olaf i filoedd ag sydd mor anystyriol o hynny a ninnau. Poed i ni, ynte, drefnu ein tŷ yn ddïoed. Dechreuwn heddyw. Cyssegrwn ein hunain o'r newydd i'r Arglwydd, a byddwn fyw fel ag y dymunem farw. Ni allwn fod yn rhy wyliadwrus drosom ein hunain, nac yn rhy ymroddgar i Dduw. Y mae tragywyddoldeb o'n blaen. Y mae'r Barnwr yn sefyll wrth y drws. Cofiwn mai *byw i farw*, wnaiff farw yn farw i fyw. Ond byw er mwyn y byw tàn haul, wnaiff farw yn farw i ail farwolaeth. Adnabod Crist yw meddu mwy nag a fedd y byd, a meddu Crist wnaiff farw yn well na byw. Felly poed

i ni allu dweyd, pan ddêl angau, "Byw i mi yw Crist, a marw sydd elw."

Ystyriwn fel y mae amynedd Duw wedi cyd-ddwyn â ni cyhyd, er maint ein gwrthryfel i'w erbyn, a'n hanniolchgarwch am ei ddaioni. Y mae wedi ein harbed hyd ddechreu blwyddyn newydd etto; ei ddyben yn gwneuthur hyn, ydyw rhoi amser i ni ddiwygio, i fyw buchedd newydd, y cyfryw, trwy haeddiant Iesu, a rydd i ni sicrwydd o fywyd tragywyddol. Onid ydym, yr amser a aeth heibio, wedi bod yn anffrwythlon yn ei winllan, fel y ffigysbren gynt yn dwyn dim ond dail. Y mae Duw wrth ein harbed, fel pe bae am roi un prawf yn ychwaneg, mewn disgwyliad i ni fod yn fwy ffrwythlon rhagllaw. Gofalwn, ynte, na bo i ni ei siommi, rhag iddo roi gorchymyn i'n torri i lawr fel diffrwythwyr y tir.

Poed i ni benderfynu, o hyn allan, i ymwadu â phob pechod; a chyssegru ein hunain yn gwbl i'r Arglwydd. Poed ein traed yn ei lwybrau, ein dwylaw yn ei waith, ein tafod yn ei fawl, yr holl gorph yn ei wasanaeth, fel y byddom yn aberth byw, nid marw; sanctaidd, nid aflan; cymmeradwy, nid ffiaidd; ac fel ym mhob peth y gogoneddom ein Tad, yr hwn sydd yn y nef. Os ydym *blant* i Dduw, byddwn fyw yn ei wasanaeth. Os ydym *filwyr* ym myddin Iesu, byddwn fyw i'n Tywysog. Os ydym *brynedigion*, byddwn fyw i'n Prynwr. Rhoddwn ein deall i adnabod ei ewyllys—ein cof i drysori ei Air—ein serch i ymhyfrydu ynddo—a'n hewyllys i gyd-ymffurfio â'i Ewyllys Ef. Y mae pob perthynas sydd rhyngom â Duw, a phob rhagorfraint, a phob sefyllfa, a phob trugaredd, yn galw arnom i fyw i Dduw. Ië, y mae cariad Crist yn ein cymmell, fel na byddom fyw bellach i ni ein hunain, ond i'r Hwn a fu farw drosom, ac a gyfodwyd er ein gyfiawnhâd.

## GWEDDI AR DDECHREU BLWYDDYN.

O RASUSAF Dduw, beth a dalwn i ti am dy ryfeddodau i ni, feibion dynion. Mae dy ddaioni wedi ein dilyn holl ddyddiau ein bywyd: o'th haelioni Di y diwallwyd ein hangenrheidiau; gan dy allu Di yr amddiffynwyd ein personau; gan dy drugaredd Di y'n cadwyd yn fyw; a chan dy Air cysurlawn y'n diddanwyd ym mhob trallod. Gwna i ni deimlo dy ffafr anhaeddiannol i ni. Nid wyt, Arglwydd, mewn un modd wedi gwneuthur â ni yn ol ein pechodau, nac wedi talu i ni yn ol ein hanwireddau. Cyn belled ag yw y dwyrain oddi wrth y gorllewin, y pellhêaist ein camweddau oddi wrthyt. Yr oll ag sydd gennym a roddwyd i ni gennyt Ti; canys ni ddygasom ni ddim i'r byd, ac eglur yw na allwn ddwyn dim allan chwaith. Yr ŷm yn ymofidio na fuasem wedi defnyddio ein hamser a'n talentau yn fwy yn dy wasanaeth ac er dy ogoniant y flwyddyn sydd wedi ein gadael. A chan dy fod wedi ein harbed hyd ddechreu blwyddyn newydd, nyni a attolygwn i ti ein cymmorth â'th Lân Yspryd i'th ogoneddu yn ein cyrph, ac yn ein hysbryd, y rhai sydd eiddot Ti. Dysg i ni wneuthur hyn â'n holl galon, â'n holl feddwl, â'n holl enaid, a thros ein holl fywyd.

Poed i'r flwyddyn hon ddwyn gyd â hi fwy o ddylanwadau yr Yspryd ar ein calon-

nau; mwy o olygiadau disglaer ar ogoniant Iesu; a chreu ynom ddymuniadau mwy nefol, nag a dderbyniasom erioed o'r blaen. Yn lle treulio'r tymmor hwn mewn oferedd, ysgafnder, a gwagedd, poed i ni fyfyrio ar fyrdra, ansicrwydd, a gwerth amser, gan osod ein serch ar bethau sydd uchod; a chyd â mwy o ddifrifoldeb a sobrwydd, i ymbarottôi erbyn ein hymadawiad â'r fuchedd hon.

Na foed i ni orlwytho ein calonnau â gofalon y bywyd hwn, nac ychwaith ymlynu wrth y byd yn ei arferion a'i bleserau; ond gwna ni yn sicr a diymmod, a helaethion yngwaith yr Arglwydd yn wastadol, a ni yn gwybod nad yw ein llafur yn ofer yn yr Arglwydd. Poed i ni gynnyddu mewn gras fel mewn dyddiau, fel pan ddaw y diwrnod olaf attom, y bo ein lwynau wedi eu gwregysu, a'n lampau yn llosgi, a ninnau yn barod i fyned i mewn gyd â'r Prïod-fab i'r brïodas. Caniattâ hyn, Arglwydd, ni a attolygwn i ti, er mwyn dy anwyl Fab Iesu Grist, ein Harglwydd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## AM WLAW.

O DDUW, nefol Dad, yr hwn trwy dy Fab, Iesu Grist, a addewaist i bawb a geisiant dy deyrnas a'th gyfiawnder, bob peth angenrheidiol i'w cynhaliaeth corphorol.

**Danfon i ni wrth ein hangenoctid hwn, ni a attolygwn i Ti, gyfryw wlaw a chawodydd cymhedrol, modd y derbyniom ffrwythau'r ddaear i'n mwyniant ni, ac i'th ogoniant dithau, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.**

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## DIOLCHGARWCH AM WLAW.

HOLLALLUOG Dduw, ein Tad nefol, yr hwn drwy dy rasol Ragluniaeth wyt yn peri i'r gwlaw cynnar a'r diweddar ddisgyn ar y ddaear, fel y dygo ffrwyth er mwyniant dyn; Yr ydym ni yn rhoi i Ti ostyngedig ddïolch, fod yn wiw gennyt, wrth ein dirfawr angenrhaid, ddanfon i ni o'r diwedd wlaw hyfryd ar dy etifeddiaeth, a'i hireiddio pan oedd sech; i'n mawr ddiddanwch ni, ac i ogoniant dy sanctaidd Enw, trwy dy drugareddau yn Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## AM DYWYDD TEG PAN FO GORMOD O WLAW YN AMSER Y CYNHAUAF.

HOLLALLUOG Arglwydd Dduw, yr hwn am bechod dyn a foddaist unwaith yr holl fyd, oddi eithr wyth-nyn o bobl, ac ar ol hynny o'th fawr drugaredd a addewaist

nas distrywit ef felly byth drachefn; Yn ostyngedig ni a attolygwn i Ti, er i ni, am ein hanwireddau, gyfiawn haeddu pla o wlaw a dyfroedd; etto, wrth ein gwir edifeirwch, danfon i ni y cyfryw dywydd a hinon, fel y derbyniom ffrwythau'r ddaear mewn amser dyladwy; ac y dysgom, drwy dy gospedigaeth, wellhâu ein bucheddau, ac am dy fwynder roddi i Ti foliant a gogoniant, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## DIOLCHGARWCH AM DYWYDD TEG.

O ARGLWYDD Dduw, yr hwn yn dy drugaredd a gauaist ffenestri'r nefoedd rhag y diweddar bla o wlaw a dyfroedd anghymmedrol ag oedd yn bygythio difetha ffrwythau'r ddaear, ac a ddiddenaist ein heneidiau trwy y tymhoraidd a'r bendigedig gyfnewid yma ar dywydd. Nyni a foliannwn ac a ogoneddwn dy sanctaidd Enw am dy drugaredd hon; ac a ddatganwn byth dy dosturi o genhedlaeth i genhedlaeth. Bendithied y bobl dydi, O Dduw, bendithied yr holl bobl dydi. Yna y ddaear a rydd ei chnwd; a Duw, sef ein Duw ni, a'n bendithia. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## MYFYRDOD AR Y CYNHAUAF.

GELWIR arnom y tymmor hwn i fyfyrio mewn modd neillduol ar ddoethineb a daioni Duw yn nhrefn ei Ragluniaeth. Wrth syllu ar harddwch a godidowgrwydd y meusydd, ynghyd â graddol addfedrwydd eu ffrwythau, ni allwn lai nag addef mai Bod mawr a daionus yw Duw.

Ystyriwn mai Duw yw awdwr ein holl fendithion. "Efe" (ebe'r Psalmydd) "sydd yn peri i'r gwellt dyfu i'r anifeiliaid, a llysiau i wasanaeth dyn: fel y dycco fara allan o'r ddaear: A gwin, yr hwn a lawenycho galon dyn; ac olew, i beri i'w wyneb ddisgleirio." Pe bae i Dduw ond dweyd y gair, fe wywa y gwinwydd, fe lysg y ffigysbren, fe dderfydd am y gwenith, ac am yr haidd. Gwyddom mai ychydig sy'n gorphwys ar ddyn i'w wneuthur. Gymmaint a wna efe yw braenaru, arloesi'r tir, a hau yr had; wedi rhoi yr eginyn yn y ddaear, y mae cyfnewidiad yn cymmeryd lle na ŵyr efe ddim am dano. Mae'r gronyn gwenith yn marw, yn egino, yn ffrwytho, ac yn tyfu yn addfed i'r cryman, heb gymmorth dyn. Duw sy'n cyflawni hyn: Efe sy'n dyfrhâu'r ddaear, ac yn peri i'r haul roi o'i wres. Os metha y cnwd, nis gall dyn oddi wrtho. Os deifir ef gan ormod gwres, nis gall ef ei achub; neu os wedi ei fallu gan ormod gwlybaniaeth, nis gall efe wrth hynny. Prïodol, ynte, y dywedodd Dafydd, "Mor llïosog yw dy weithredoedd, O Arglwydd, gwnaethost hwynt oll mewn doethineb: llawn yw y ddaear o'th gyfoeth. Yr Hwn wyt yn dyfrhâu y bryniau o'th ystafelloedd, y ddaear a ddigonir o ffrwyth dy weithredoedd. Yr Hwn sydd yn peri i'r gwellt dyfu i'r anifeiliaid, a llysiau i wasanaeth dyn: fel y dycco fara allan o'r ddaear."

Ni a welwn ddaioni Duw yn fawr yn hyn, pe meddyliem am y canlyniadau echrydus a gymmerai le pe bae Duw yn attal ei roddion hyn i ni. Oni bae fod Duw fel hyn, blwyddyn ar ol blwyddyn, yn rhoddi i ni o dde-

fodol wythnosau y cynhauaf, elai llafurwyr y ddaear i ddiddyfndra, darfyddai peiriannyddion y byd, syrthiai celfyddydau a dyfeisiadau dynoliaeth i dîr anghof; dadfeiliai pob rhyw fasnach, diflannai pob gwyddorion a gwybodaeth ddynol o'r byd; plannu ac adeiladu fyddent yn ddifudd, heb i Dduw o'i drugaredd anfon cynhauaf a chnwd ar y ddaear. Pe bae Duw yn attal ffrwythau ein daear am ychydig amser y fath olwg druenus fyddai ar ein gwlad—dim ond swn marwolaeth a newyn yn dinystrio trigolion y byd; llwyr ddifethid bywiolion y greadigaeth, yn ddyn ac yn anifail, yn ehediad ac ymlusgiad y ddaear.

Ystyriwn mor anhaeddiannol ydym o drugareddau Duw. Onid yw ein pechodau yn uchel alw, yn fynych, am ddialedd yr Hollalluog; ond yw ein beiau yn aneirif, ein calonnau yn mhell oddi wrth Dduw, a'n meddyliau yn wammal a chyfnewidiol? Wrth ystyried daioni Duw i ni, priodol iawn y gallwn ddweyd yn ngeiriau Dafydd, "Nid yn ol ein pechodau y gwnaeth Efe â ni; ac nid yn ol ein hanwireddau y talodd Efe i ni."

Gwelwn, ynte, oddi wrth hyn, mor ddaionus a graslawn yw Duw—mor ryfedd yn ei weithredoedd—mor ddoeth yn ei holl ffyrdd, yn llawn gras a thrugaredd—ac mai ar ei ddaioni Ef y mae pob creadur yn byw, yn symmud, ac yn bod. Poed i ni gydnabod ein rhwymedigaethau iddo, trwy fyw ar er ogoniant. Dysgwn hefyd edrych trwy y trugareddau tymhorol at rai ysprydol—llafuriwn yn bennaf nid am y bwyd a dderfydd, ond am y Bara a bery i fywyd tragywyddol. Bydd trugareddau tymhorol drosodd yn fuan—pleserau daearol yn diflannu—cyfeillion heb gymhorth i'w estyn—y breintiau o'n gafael—ein hamser ar derfynu, a thragywyddoldeb yn agor ei ddorau i'n derbyn. "Am hyny yr wyf yn attolwg i chwi, frodyr, er trugareddau Duw, roddi o honoch eich cyrph yn aberth byw, sanctaidd, cymmeradwy gan Dduw; *yr hyn yw* eich rhesymmol wasanaeth chwi." (Rhuf. xii. 1.)

## GWEDDIAU O DDIOLCHGARWCH AM Y CYNHAUAF.

BOREUOL WEDDI.—(Darllener Ps. lxv.)

TAD ein trugareddau, a ffynnon ein holl gysuron, ydwyt Ti, O Arglwydd. Ynot Ti yr ydym ni yn byw, yn symmud, ac yn bod; llygaid pob peth a ddisgwyliant wrthyt; ac yr ydwyt yn rhoddi eu bwyd iddynt yn ei bryd; gan agoryd dy law, a diwallu pob peth byw â'th ewyllys da. Teilwng ydwyt Ti, O Arglwydd ein Duw, i dderbyn anrhydedd a gogoniant, moliant a dïolch, cariad ac ufudddod oddi wrthym ni, dy greaduriaid annheilwng, am na phallodd dy drugareddau tu ag attom. Yr ydwyt wydi coroni y flwyddyn hon etto â'th ddaioni, ac wedi rhoddi i ni ddefodol wythnosau y cynhauaf. Gallasai yr hâd farw a bod heb fywhâu, yn y ddaear; neu gallasai yr ŷd wedi addfedu bydru o flaen ein llygaid: ond wele ni yn dy brofi eleni etto yn Dduw ffyddlon i'th addewid—pryd hâu, a chynhauaf, a hâf, a gauaf, a dydd a nos, ni phaid mwy holl ddyddiau'r ddaear; ac fel yr ydwyt Ti yn llanw ein hysguboriau â digon oldeb, felly llanw ein calonnau â dy ras, fel y byddo i ni fyw i Ti, fel ag yr ydym yn byw arnat Ti, ac y caffom, yn nerth dy drugareddau, dy wasanaethu yn gywir holl ddyddiau

ein bywyd. Ti a wyddost, ein Tad nefol, tra yr ydym yn y bywyd hwn, ein bod yn sefyll mewn angen o roddion dy Ragluniaeth er cynnaliaeth ein cyrph, ac yr ydym yn gofyn gennyt y cyfryw gyfran o'r byd hwn ag y byddo dy ddwyfol ddoethineb yn gweled fod yn oreu er ein lles. Ond tra yr ydym yn dïolch i Ti am ein bara beunyddiol, dïolchwn i Ti, uwch law pob dim, am y bara a ddaeth i waered o'r nef, i gadw yn fyw yr enaid---sef Iesu Grist. Efe yw bara'r bywyd, a'r hwn sydd yn credu ynddo Ef sy ganddo fywyd tragywyddol. Dyro i ni ffydd, Arglwydd, i bwyso ar ei anfeidrol haeddiant Ef, ac amynedd i ddisgwyl am ei ymddangosiad Ef, pryd y bydd raid i'r byw a'r meirw sefyll ger ei fron. Y cynhauaf mwyaf ei bwys yw diwedd y byd; ac yr ydym ni, O Arglwydd, yn addfedu i'r cynhauaf hwnnw---yn addfedu i'r nefoedd neu i uffern---bydd y gwenith yn cael ei gasglu i'r ysgubor, eithr yr ûs a losgir â thân anniffoddadwy. Cynnorthwya ni i gredu hyn yn awr, O Arglwydd grasol, ac i lafurio nid am y bwyd a dderfydd yn benaf, ond am y bwyd a bery i fywyd tragywyddol. Yn awr yw'r amser cymmeradwy; yn awr yw dydd yr iachawdwriaeth. Bendithia ni â gras i weithio tra y mae tymmor gras yn para arnom, rhag i ni, trwy ein hesgeulusdra, orfod dywedyd yn awr angau, "Darfu'r hâf, aeth y cynhauaf heibio, ac nid ydym ni gadwedig."

O cadw ni, Arglwydd, i'th deyrnas yn y nefoedd, a derbyn ni yn ddaionus, yn awr a byth, er mwyn rhyglyddon a haeddedigaethau Iesu Grist, dy Fab Di, a'n Harglwydd ni. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

PRYDNHAWNOL WEDDI.—(Darllener Rhuf. xii.)

HOLLALLUOG Dduw, Tad ein holl drugareddau, ac Awdwr pob gras. Trugarog a graslawn fuost tu attom bob amser. Yn nhrefn dy Ragluniaeth y flwyddyn hon yr wyt wedi dangos mai trugaredd a ewyllysi, ac nid barn. Cnydiaist ein daear â ffrwythau toreithiog etto eleni. Teilwng wyt, O ein Duw, o bob derchafiad ac addoliad gan dy holl greaduriaid, am ddangos gradd o wênau dy ffyddlondeb, a'th drugaredd fawr at ddynolryw yn gyffredinol.

O Dduw, rho galonnau i ni fod yn ddiolchgar i ti am dywallt o'th fendithion graslawn ar y ddaear, ac ar ein gwlad: ac am roddi hin dêg i gasglu ffrwythau ac ymborth dros y flwyddyn hon.

Gwelaist yn dda, Arglwydd, roddi cnwd mawr ar y maesydd: y mae dy ogoniant i'w ganfod ym mhob tywysen, a phob gwelltyn yn dangos mawredd dy weithredoedd Di. Er cael ein hanrhegu â chnwd toreithiog, etto ni buasai un cysur i drigolion y ddaear oni buasai i Ti weled yn dda symmud y cymmylau duon, a chodi'r niwl a'r tarth tywyll

ar hyd wyneb y greadigaeth, a pheri i wres yr haul dywynnu, ac addfedu ffrwythau'r ddaear. Nertha ni, O Arglwydd, i edrych trwy dy fendithion i'r corph at fendithion i'r enaid. Nid digon yw derbyn yn helaeth o ymborth i'r corph a bod yr enaid yn ol. O portha ein heneidiau â'r Gwir Fara sydd yn dyfod i waered o'r nef, fel y byddom byw yn dragywydd. Caniattâ, Arglwydd, ein bod yn byw i ti ar bwys dy drugareddau, gan ymroddi i'th wasanaethu mewn gostyngeiddrwydd; mewn newydd-deb yspryd; mewn perffeithrwydd a gwirionedd, ac mewn sancteiddrwydd a chyfiawnder dros ein holl fywyd. "Canys nid oes yr un o honom yn byw iddo ei hun, ac nid yw yr un yn marw iddo ei hun. Canys pa un bynnag yr ydym ai byw, i'r Arglwydd yr ydym yn byw; ai marw, i'r Arglwydd yr ydym yn marw; am hynny, pa un bynnag yr ydym ai byw, ai marw, eiddo yr Arglwydd ydym. O am nerth, Arglwydd, i ymwadu â ni ein hunain, ac i ymgyssegru fyth i Ti; gan roddi ein cyrph a'n heneidiau, ein bywyd a'n meddiannau, ein hamser a'n talentau, yn dy waith ac er dy ogoniant, fel y bo i ni gael cyflawn feddiant o'th bresennoldeb tu draw i'r bedd. Caniattâ, O Arglwydd, faddeu ein pechodau yn dy erbyn, a derbyn ni yn ddaionus, er teilyngdod dy Fab, Iesu Grist. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## MYFYRDOD AR DDIWEDD BLWYDDYN.

RHYFEDD fel y mae ein blynyddoedd yn myned heibio! Mae ein dyddiau fel cysgod yn cilio, a'n blynyddoedd yn treiglo ymaith gyd â buandra o'r fath, fel nad ydym yn gallael eu canfod. Nid oes ond ychydig iawn o amser er pan oeddym yn ein mabandod; a phan ddel ychydig flynyddoedd, ni a rodiwn lwybr, ar hyd yr hwn ni ddychwelwn. Mae pob peth mewn natur yn dangos mai byr yw ein hamser, a darfodedig yw ein bywyd. Mae oerni a diffrwythdra'r ddaear a choedydd y maes yn dangos eu bod yn heneiddio. Mae gwywdra a diffyg nerth dynion yn dangos i ni bob dydd fel y mae'r byd hwn yn gwisgo ymaith. "Pob cnawd" (medd Esay) "sydd wellt, a'i holl odidowgrwydd fel blodeuyn y maes. Gwywa y gwelltyn, syrth y blodeuyn; canys Yspryd yr Arglwydd a chwythodd arno: gwellt yn ddïau yw y bobl." Gan hynny, reitied yw i bawb ymholi pa fodd y maent yn treulio eu hamser, ac i ymroi i ddysgu marw.

Byddai Titus, yr Ymherawdwr Rhufeinig, yn galw ei hun i gof bob nos am waith y dydd fyddai wedi myned heibio; ac os elai un dydd heibio heb iddo wneuthur rhyw ddaioni, efe a ysgrifenai ar ei gof-lyfr, "*Mi a gollais ddiwrnod.*" Buddiol iawn yw i ninnau ar ddiwedd blwyddyn alw i gof y breintiau a'r trugareddau a gawsom gan Dduw yn ystod y flwyddyn hon, a holi ein hunain pa fodd y darfu i ni eu defnyddio, a pha effaith er daioni y maent wedi ei adael arnom. Ydyw ein cynnydd mewn gras yn gyfattebol i rifedi a gwerth ein manteision? Os nad yw ein talentau (a pheth yw y rhai hyn ond talentau) yn elwa, byddant yn ddinystriol;—os na achubant, hwy a'n condemniant;—os nad yn arogl o fywyd i fywyd, byddant yn arogl o farwolaeth i farwolaeth. Derbyniasom drugareddau lawer gan yr Arglwydd—yn dymmorol ac yn ysprydol—o fewn y flwyddyn hon. Cawsom ein porthi—ein dilladu—ein gwaredu o beryglon lawer—a'n dwyn megis o byrth y bedd. Cawsom foddion gras yn helaeth, a Gweinidogion Duw i'n rhybuddio, ac i'n galw i edifeirwch, ac i

ddeisyf arnom dros Grist i ymgymmodi â Duw. Yr oedd y trugareddau hyn yn dra gwerthfawr, wrth ystyried yr amgylchiadau a fwyhânt eu gwerth; pa mor angenrheidiol, mor amserol, mor anhaeddiannol, a pha mor effeithiol oeddynt! Ystyriwn gan hynny ein cyfrifoldeb i Dduw am yr holl drugareddau hyn; a boed i ni ymroddi yn fwy i'w wasanaethu; i ymysgwyd o'n dïofalwch, a chodi a gweithio yn fwy egnïol a diwyd y rhan sy'n ol o'n bywyd.

Na offrymmwn (ebe Dr. Sutton) flaen-ffrwyth ein gwin-gynhauaf i ddifyrrwch pechod, a gwaddod ein hoes i wasanaeth Duw. Na roddwn flodau ein hoes i ffiaidd wŷniau natur bechadurus, a chadw'r dail crinion i Dduw. Ein gofal a ddylai fod, nid yn gymmaint pa beth i'w wneuthur, ond pa beth y dymunwn ryw ddydd na wnelsem mo hono. Gan hynny awn trwy'r byd hwn fel yr aeth yr Israeliaid trwy wlad Edom, y rhai a ofynasant gennad yn unig i fyned trwyddi heb amcanu preswylio dim ynddi. Pa beth! A ymddigrifwn ni ym mhleserau Edom y byd hwn? Passio trwyddo yw'r hyn oll a ddylem ei ddymuno; a'r matter mwyaf yw ymbarottôi erbyn ein hymadawiad o hono. Mae amser yn rhy werthfawr i'w golli, ac nid oes gennym warrant am ei barhâd un munud yn hŵy: gan hynny na wastraffwn ychwaneg o'r ychydig oriau gwerthfawr sy gennym. Rhodiwn tra fyddo gennym y goleuni: edifarhawn tra fo gennym amser. Bydd blodau ein hoes drosodd yn ebrwydd: dygir ni ymaith, nis gwyddom pa mor fuan: mae angau a barn yn prysuro: ac a gawn ni esgeuluso'r cyfleusdra, a ninnau yn gwybod y pethau hyn? Na atto Duw! "Y nos a gerddodd ym mhell, a'r dydd a nesâodd: am hynny bwriwn oddi wrthym weithredoedd y tywyllwch, a gwisgwn arfau y goleuni. Rhodiwn yn weddus, megis wrth liw dydd; nid mewn cyfeddach a meddwdod, nid mewn cydorwedd ac anlladrwydd, nid mewn cynnen a chenfigen. Eithr gwisgwch am danoch yr Arglwydd Iesu Grist, ac na wnewch rag-ddarbod dros y cnawd, er mwyn *cyflawni ei* chwantau *ef*." Rhuf. xiii. 12, 13, 14.

## GWEDDI AR DDIWEDD BLWYDDYN.

YR Hollalluog a'r Anfeidrol Jehofah! Wele ni, a ni yn llwch ac yn lludw, yn dyfod ger dy fron, ar ddiwedd un flwyddyn etto, i dalu ein cydnabyddiaeth o barch i'th Enw mawr a gogoneddus, ac i roddi dïolch i ti am yr holl ddaioni a dderbyniasom oddiar dy law. Er fod amser yn peri cyfnewidiadau ynom ac arnom ni, yr un ydwyt Ti, heb gyfnewidiad na chysgod tröedigaeth. O dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb tydi ydwyt Dduw. Un yw dy ddydd di, a hwnnw yw y tragywyddoldeb mawr. O! ni a ddymunem ryfeddu wrth ystyried dy ogoniant, canys nid oes dechreuad i ti; ac wrth feddwl am dy fawredd, canys nid oes derfyn ar dy hanfod. Nid oes arall fel tydi, canys tydi yw y cyntaf a dechreuad pob peth. Nid oes arall fel tydi, canys yr ydwyt yn hunan-fodol, ac y mae pob gwrthddrych wedi deilliaw o honot, ac yn ymddibynu arnat am barhâd.

Ninnau hefyd ydym grëaduriaid o'th eiddo di. Newydd darddu o'th law greadigol yr ydym; ond rhyfedd mor fuan y mae ein hamser yn cyflymu yn ei flaen, ac yn ein cludo o'r byd hwn, lle y mae cyfnewidiadau mor fawrion, tua y byd rhyfeddol hwnnw lle nad yw treigliad blynyddoedd yn effeithio cyfnewidiad ar ei breswylwyr. Yma yr ydym yn myned drwy flynyddoedd ieuengctid, pan

y mae ein cyfrinach â'r byd; yr addysg a dderbyniwn, a'r gweithredoedd a gyflawnwn, yn effeithio i ffurfio ein nodweddiad, nid yn unig ym mysg ein cyd-ddynion, ond ger dy fron di, Arglwydd Iôr, yr hwn wyt a'th olygon fel fflammau tân, yn gweled pawb a a phob peth. O, trugarhâ wrth y rhai sydd yn ieuaingc o honom, a bydded fod y naill flwyddyn ar ol y llall yn ein gadael mewn gwell cyflwr, yn fwy edifeiriol am bechu yn dy erbyn, yn fwy penderfynol yn erbyn drwg, ac yn fwy ymroddiadol i'th wasanaethu yn ein dydd a'n cenhedlaeth. Y mae blynyddoedd yn dwyn dynion i ganol eu hoedran ar y ddaear, a chyd âg amser y mae trafferthion daearol, a phrofedigaethau y fuchedd hon, yn ymfyddino o amgylch pob un. Trwmlwythog a blinderog ydym, O Arglwydd, gan ofalon a gofidiau, ac felly yn sefyll mewn angen o ras dwyfol i'n dal, onidê gan fawredd ein gwendid, ni a syrthiwn ac a gollir. Cynnorthwya ni i drysori i ni ein hunain drysor yn y nef, lle nad oes na gwyfyn na rhwd yn llygru, a'r lle nis cloddia lladron trwodd ac nis lladrattânt. I'r rhai o honom ag sydd heb gyrhaedd dyddiau blinion henaint a phenllwydni, dyro ddoethineb fel y byddo i ni fod wedi ymgynefino â chrefydd, ac na byddo yn rhaid i ni ddysgu gwaith ein Duw wedi myned dros oedran dysgu a diwygio. Ebrwydd y derfydd y dyddiau blin-

ion hynny, a ninnau a ehedwn ymaith. O dyro i ni y gras a'r parottôad meddwl ag sydd angenrheidiol i ddal dan y profedigaethau sydd o'n blaen, megis y parottôad sydd raid ei gael i rodio ar hyd glyn cysgod angau.

Gwna ni yn ystyriol o drugareddau y flwyddyn a aeth heibio. Cawsom ddaioni naturiol lawer. Cedwaist ni yn fyw, a phorthaist ni â digonedd o fara. Cawsom ein cynnesu gan wisgoedd, a'n llonni gan weithrediad iachusol elfenau anian. Ac wele ni, ar ddiwedd y flwyddyn hon, ar dir y rhai byw, yn gof-golofnau o fawr ddaioni a thrugaredd ein Duw. Caniattêaist i ni dy Air i'w ddarllen; anfonaist dy weision i gyhoeddi Efengyl hedd i'n clyw, yr hon sydd yn llawn bendithion achubol; a chawsom dy ordinhadau i'n dysgu a'n llonni ar daith ein pererindod. Pa beth a dalwn i'r Arglwydd am ei holl ddoniau i ni? Ni a roddwn i ti ein diolchgarwch ffyddlonaf. Nyni a gymmerwn phiol iachawdwriaeth, ac a alwn ar dy enw. Talwn i ti ein haddunedau.

Dysg ni hefyd i fod yn ystyriol o golliadau a phechodau y flwyddyn a aeth heibio. O mor aml fu y rhai hyn! Er eu bod wedi myned dros gof gennym ni, y maent wedi eu hysgrifenu yn dy lyfr di, a ffiaidd iawn, ger bron dy olygon sanctaidd, yw pob pechod. Ein calon, yr hon sydd yn fwy ei thwyll na dim, a esgorodd ar filoedd o feddyliau halogedig. Ein geiriau ydynt wedi bod, yn fynych

yn ofer, yn lle yn gyfryw ag a roddant ras i'r gwrandawyr. Ein cyflawniadau hefyd ydynt wedi bod, yn aml iawn, yn bechadurus, ac y maent oll wedi bod yn ammherffaith. O mor lïosog fu ein pechodau yn ystod y deuddeng mis sydd wedi myned ymaith. Maddeu, Arglwydd, nyni a attolygwn i ti, er mwyn Iesu Grist, yr hwn a fu farw drosom. O na chyfrif ein pechod i'n herbyn! Os edrychi ar anwireddau, Arglwydd, O Arglwydd, pwy a saif!

Dyro ras i ni, O Dad nefol, i ddiwygio o hyn allan. Bydded y flwyddyn ddyfodol, os cawn fywyd i'w threulio, yn fwy sanctaidd a defnyddiol na'r un sydd wedi terfynu. O dysg ni i gyfrif ein dyddiau fel y dygom ein calon i ddoethineb. Gwared ni rhag defnyddio y dalent werthfawr o amser mewn oferedd nac mewn segurdod. Dyro ein bod yn elwa bob dydd, fel y byddo gennym drysor erbyn yr amser a ddaw. Dyro oleuni i ni mewn gwybodaeth, fel y deallom dy feddwl sanctaidd yn dy Air. Caniattâ dy Yspryd Glân i ddylanwadu ar ein calon, fel y byddo pob moddion, rhagluniaethol ac efengylaidd, yn ein sancteiddio oddiwrth bob anwiredd. Os oes profedigaethau i'n cyfarfod, dysg ni i'w goddef mewn tawelwch a chyd âg amynedd. Na âd ni i flino neu i ymollwng yn ein heneidiau, ond i ni, megis ein Rhagflaenor, orphen ein tymmor, a chyflawni ein gwaith, gan dderbyn

cymmeradwyad gennyt ti, ein Tad nefol, yn ngeiriau rhyfedd ein Harglwydd Iesu Grist, "Da, was, da a ffyddlawn: buost ffyddlawn ar ychydig, mi a'th osodaf ar lawer, dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd."

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## GWEDDI WRTH DDECHREU YSGOL SABBATHOL.

HOLLALLUOG a thragywyddol Dduw, yn ostyngedig yr attolygwn i ti fendithio ein cyd-gynhulliad y tro presennol. Llwydda ymdrechiadau athrawon yr ysgol hon. Cynnysgaedda hwynt â doethineb oddi uchod, a dysg hwynt yn dy wirionedd, fel y gallont ddysgu y plant a ymddiriedir i'w gofal; a'u cyfarwyddo yn y ffordd y dylent rodio ynddi, fel pan yr heneiddiont, nad ymadawont â hi. Poed dy ogoniant Di, a lles eneidiau, yn bethau pennaf yn eu golwg. Dyro ras, O Arglwydd, i'r plant hyn i gyflawni'r addunedau a wnaed drostynt yn eu bedydd, sef "i ymwrthod â Diafol a'i holl weithredoedd, rhodres a gorwagedd y byd anwir hwn, a holl bechadurus chwantau'r cnawd; ac i gadw dy wynfydedig ewyllys a'th orchymynion, a rhodio ynddynt holl ddyddiau eu bywyd;" fel y byddont yn wir aelodau i Grist, yn blant i Dduw, ac yn etifeddion Teyrnas Nefoedd. Argrapha yn ddwfn ar eu calonnau yr holl hyfforddiadau a'r cynghorion, athrawiaethol a moesol, a

glywant o'th Air, neu o enau dy weinidog, y dydd hwn. Dyro iddynt ychwaneg o ras bob tro y delont fel hyn ger dy fron; ac o'r diwedd gwna hwynt yn gymmwys i'th deyrnas dragywyddol.

Attolygwn i ti, O Arglwydd, ein cymmorth â'th Yspryd Glân i fyned trwy ddyledswyddau'r dydd hwn: gostwng ein calonnau i wrando ac i dderbyn dy Air gyd âg addfwynder a pharodrwydd meddwl; a chaniattâ i ffrwyth ein hymdrechiadau crefyddol ar ol y dydd heddyw ymddangos yn ein bucheddau drwy'r wythnos, fel y bo i'r naill Sabbath ar ol y llall ddwyn ym mlaen ein gorchwyl ysprydol, a'n cymmwyso i'r orphwysfa dragywyddol sydd etto'n ol i bobl Dduw.

Caniattâ wrando ein gweddïau ammherffaith, a dyro i ni oll yr hyn a fyddo mwyaf buddiol er ein lles, trwy ein hunig Gyfryngwr a'n Pryniawdwr. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## UN ARALL.

O ARGLWYDD Dduw, yr hwn a wyddost bob peth, nyni yn ostyngedig a ddïolchwn i ti am fendithion y dydd hwn; ac am y fraint yma a gawsom o ymgynnull ynghyd i ddarllen a dysgu ein gilydd yn dy Air sanctaidd. Bendithia ymdrechiadau athrawon yr ysgol hon, a boed iddynt gael eu dysgu gennyt Ti yn dy Air sanctaidd, fel y

byddo i'w heneidiau dderbyn lles a bendith wrth ddarllen a myfyrio dy Air. Parottôa galonnau y plant hyn i dderbyn gwirioneddau yr Efengyl. Poed iddynt gynnyddu mewn gras, fel y cynnyddont mewn dyddiau, fel y paront lawenydd a chysur i'w rhïeni, ac y gogoneddont eu Tad yr hwn sydd yn y nefoedd. Bendithia eu rhïeni, a dyro iddynt ras i ddwyn eu plant i fynu yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd. Attolygwn dy fendith arnom oll, yn athrawon ac yn ysgolheigion; a dyro i ni oll ras i nesâu attat y dydd hwn, nid â'n gwefusau yn unig, ond â'n holl galon, ac mewn iawn ymsyniad o'th Fawrhydi. Danfon dy Yspryd Glân i'n gwneuthur yn ddifrifol ac yn dduwiol. Pâr i ni weddïo arnat yn daer, a gwrando dy Air gyd â llawn fwriad o'i gadw; fel gan dy wasanaethu yn ddiffuant yn dy Eglwys yma, y caffom ein derbyn yn y diwedd i'th deyrnas yn y nefoedd, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## GWEDDI WRTH DDIWEDDU'R YSGOL.

HOLLALLUOG Dduw, ein Tad nefol, yr hwn wyt yn llywio pob peth yn y nef a'r ddaear; ac yn Noddwr pawb oll y sydd yn ymddiried ynot; heb ba un nid oes dim nerthog, na dim sanctaidd. Attolygwn i Ti dywallt arnom ddyfal wlith dy fendith. Dysg i ni alw arnat mewn gwirionedd: poed i'r

geiriau a glywsom ac a ddarllenasom heddyw gael eu plannu yn ein calonnau oddi mewn, fel y dygont ynom ffrwyth buchedd dda. Poed i'r gair a leferir gan dy was gael lle yn ein calonnau. Sancteiddia ni yn dy wirionedd: rhyddhâ ni o gaethiwed pechod, a dyro i ni ras i'th wasanaethu, ac i ymhyfrydu yn dy ffyrdd holl ddyddau ein bywyd.

Bendithia ieuengctid y plwyf hwn, yn neillduol y rhai a arferant ymgynnull yn y lle hwn i ddarllen a myfyrio dy Air sanctaidd. Poed iddynt gynnyddu mewn gras a doethineb; tywallt dy Yspryd Glân arnynt: dyro iddynt bob peth angenrheidiol, yn gystal i'w heneidiau ac i'w cyrph; rhynged bodd i Ti eu cadw a'u hamddiffyn ym mhob perygl ysprydol a chorphorol; a chadw hwynt rhag pob pechod ac anwiredd, rhag eu gelyn ysprydol, a rhag angau tragywyddol. Dysg hwynt i'th wasanaethu yn awr ym moreuddydd eu bywyd, ac i wneuthur a ddylent ym mha ryw fuchedd bynnag y rhyngo bodd i Ti i'w galw.—Caniattâ ein gwrando er mwyn dy un Mab, Iesu Grist, ein Harglwydd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## UN ARALL.

O ARGLWYDD, ein Tad nefol, ni a attolygwn i Ti ddilyn â'th fendith ein cydgynhulliad presennol. Dod dy gyfraith ym

meddyliau'r ieuengctid hyn, ac ysgrifena hwynt yn eu calonnau. Bydd di yn Dduw iddynt, a chaniattâ iddynt hwy fod yn blant i ti trwy ffydd yng Nghrist Iesu. Poed iddynt ymadael â'r lle hwn gyd â chasineb at bechod—gyd âg hyfrydwch yn dy Air a'th ffyrdd, a chyd â llawn fwriad i'th wasanaethu Di mewn sancteiddrwydd a chyfiawnder holl ddyddiau eu bywyd. Bendithia ein hymdrechiadau i'w dysgu yn dy Air: cadw eu calonnau rhag drwg, a'u gwefusau rhag adrodd twyll: poed iddynt ddilyn yr hyn sydd dda: ymgadw rhag pob rhith drygioni; a chynnyddu mewn gras a gwybodaeth ein Harglwydd Iesu Grist. Nyni a erfyniwn arnat fendithio ymdrechiadau athrawon yr ysgol hon: cryfhâ eu dwylaw yn dy waith; chwanega eu zel dros dy Enw, fel y delo holl ddyledswyddau crefydd yn hoff ac yn hyfryd ganddynt. Dyro ras i ni i ddal ar yr hyn a glywsom y dydd heddyw. Bydded i had dy Air ddwfn-wreiddio yn ein calonnau, a dwyn ffrwyth lawer er gogoniant dy Enw, a lles ein eneidiau; a hyn a erfyniwn er mwyn Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

# GWEDDIAU DROS Y CLEIFION.

## GWEDDI DROS WRAIG AR EI THRAFAEL.

O DDUW, Noddwr pawb oll y sydd yn ymddiried ynot; Cynhaliwr y gwan, a chymmorth yr anghenog. Yr ŷm ni yn y modd gostyngeiddiaf yn gorchymyn dy wasanaeth-wraig hon, yn ei chyfyngder presennol, i'th ofal di a'th fendith; gan attolwg i ti roddi iddi rasol ymwared, a'i hesmwythau o'r baich y mae hi yn trafaelu arno. Yr ydym ni ein hunain yn esamplau o'r drugaredd yr ŷm yn ei herfyn gennyt Ti. Tydi a'n dygaist i'r byd hwn, ac a ddattodaist y rhwymau â pha rai y'n hamgylchwyd ynghrôth ein mammau. Ni a gawsom hefyd wastadol brawf o'th barodrwydd i'n cymmorth, ac i wneud daioni i ni o hynny hyd yr awr hon, yn fynych uwch law ein gobaith, a phob amser uwch law ein haeddiant. Teilynga, O Arglwydd, yn rasol gymmwyso dy nerth i wendid dy wasanaeth-wraig hon, ac megis y daeth poen a gofid arni, dyro iddi nerth i bwyso arnat ti, ei hunig borth, yn amser angenoctid, a chraig ei hiachawdwriaeth: a gwna hi, yn dy amser da, yn llawen fam plentyn gobeithiol, a wnelo ddaioni yn ei genhedlaeth, gan fod yn offeryn er chwanegu dy ogoniant yma, ac yn etifedd bendigedig dy deyrnas dragywyddol yn y byd a ddaw; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## DIOLCHGARWCH AM RYDDHAD YMWAREDOL YN Y MAWR BERYGL WRTH ESGOR.

BENDIGEDIG fyddo dy Enw, O Arglwydd, am ostwng o honot dy glust i wrando ein llef, pan alwasom arnat. Graslawn yw yr Arglwydd, a chyfiawn; a thosturiol yw ein Duw ni. Dymunem fel teulu, gydnabod dy ddaioni am dy dyner drugaredd yn dwyn yn ddïogel dy wasanaeth-wraig trwy y mawr boen a'r perygl ar enedigaeth dyn bach; ac am waredu y fam a'r plentyn. Oddi wrth y mawr boen ar ei enedigaeth, dymunem ddysgu ein cyflwr wrth natur, a drwg pechod: ac yn y waredigaeth o'r perygl hwnnw, a'r llawenydd o enedigaeth dyn bach i'r byd, ni a gydnabyddwn, O Arglwydd, dy ddaioni. Dymunem gofio yn yr amgylchiad hwn am y Bachgen a aned i ni, a'r Mab a roddwyd i ni; a thrwy yr hwn y mae i ni waredigaeth, nid yn unig oddi wrth beryglon y bywyd hwn, ond hefyd rhag tragywyddol drueni, os parhawn mewn ffydd, cariad, a sancteiddrwydd, heb yr hwn ni chaiff neb weled yr Arglwydd. Talwn ein haddunedau i'r Arglwydd, yn awr yngŵydd dy holl bobl: poed i'th drugareddau ein cymmell i gyflwyno ein hunain yn ebyrth byw, sanctaidd, a chymmeradwy yn dy olwg Di, yr hyn yw ein rhesymol wasanaeth ni. Caniattâ, ni a attolygwn i Ti, drugarog Dad, allu o'th wasanaeth-wraig trwy dy gynnorthwy Di, fyw yn ffydd-

lon, a rhodio yn ol dy ewyllys Di yn y fuchedd bresennol hon, ac hefyd bod yn gyfrannog o'r gogoniant tragywyddol yn y byd a ddaw. Cymmorth ni hefyd i ddwyn i fynu y plentyn a roddaist i ni, yn dy addysg a'th athrawiaeth Di. I Ti, O Arglwydd, yr ydym yn ei gyflwyno, gan attolygu i Ti ei gadw rhag drygau y byd hwn, a'i nerthu i fyw er dy ogoniant, a pharhâu yn *filwr* ffyddlon ac yn *was* i Grist holl ddyddiau ei einioes, fel yr arhoso byth yn nifer dy ffyddlon blant etholedig, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## GWEDDI DROS DDYN A FO NEWYDD FYNED YN GLAF.

(GWEDDI ESGOB TAYLOR.)

HOLLALLUOG Dduw, trugarog a graslawn, yr hwn yn dy gyfiawnder a ddanfonaist wylofain a dagrau, clefyd a marwolaeth, i'r byd, yn gospedigaeth am bechod dyn; ac a gauaist bawb dan bechod, ac o fewn y cyfammod athrist hwn o ddïoddefiadau, nid er ein difetha, ond er dangos trugaredd i bob dyn, gan wneud dy gyfiawnder yn achos o drugaredd, a'n byr ysgafn gystudd o dragywyddol bwys gogoniant; megis y rhyngodd bodd i Ti droi pechodau dy *was hwn* yn glefyd, felly tro, ni a attolygwn i Ti, *ei glefyd* yn achos o sancteiddrwydd a duw-

ioldeb, o drugaredd a maddeuant, o ffydd a gobaith, o ras a gogoniant. Tydi a'i gelwaist ef yr awr hon i ddïoddef; Arglwydd, bydded i'w gyflwr presennol ef, trwy rinwedd dy grefydd sanctaidd, gael felly ei sancteiddio, fel y bo i'w ddïoddefiadau gael eu huno â dïoddefaint ei Arglwydd; modd y bo i Ti felly dosturio wrtho, a'i gynnorthwyo ef, ysgafnhâu ei ofid a chynnal ei yspryd, cyfarwyddo ei feddyliau, a sancteiddio holl ddamweiniau ei glefyd, fel y bo cospedigaeth ei bechod yn fendithiol i'w enaid. Gwna iddo ymddwyn yn dduwiol, megis mab dan gerydd, yn ostyngedig ac yn ddi-rwgnach, yn dawel ac yn edifeiriol, fel, trwy'r moddion hyn, y dygir ef yn nês attat Ti; ac fel, os bydd iddo fwynhâu ei gynnefin iechyd, y gallo ddychwelyd at y byd â mwy o nerth ysprydol i redeg ei yrfa yn uniawnach ac yn sancteiddiach; neu os ymedy oddi yma trwy byrth angau, y gallo lawenhâu yn y gobaith o gael ei dderbyn i'r gymdeithas nefolaidd, yn yr hon y bydd dy holl seintiau a'th weision yn cael eu huno hyd oesoedd tragywyddol. Caniattâ hyn, er mwyn Iesu Grist, ein bendigedig Arglwydd a'n Hiachawdwr. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## FFURF O ADAEL Y CLAF I NAWDD DUW.

(ALLAN O WAITH Y DIWEDDAR DR. SUTTON.)

YR Arglwydd a'th wrandawo yn nydd trallod: Enw Duw Jacob a'th ddiffynno; anfoned i ti help o'i gyssegr, a nerthed di o Sïon. Rhodded Iesu Grist, Mab y tragywyddol Dduw, ei ddïoddefaint rhwng dy bechodau a barn i ddyfod. Yr Yspryd Glân a fyddo'n Ddiddanydd i ti hyd y diwedd.

## PSALMAU PRIODOL I'R CLAF.

Psalm i. iv. vi. xix. xxiii. xxvii. xxviii. xxx. xxxii. xxxiv. li. lv. lxiii. lxxi. lxxvi. lxxxvi. xci. xcii. ciii. cxvi. cxxi. cxxx. cxciii. cxcv.

Hefyd darllener i'r claf hanes dïoddefaint Crist.—Luc xxii. xxiii. St. Ioan xiv. Dat. vii. 1 Cor. xv.

## CYMMERER GOFAL,

1. FOD i'r claf wneuthur cyffes ufudd a diffuant o'i holl bechodau. 2. Fod o hono'n foddlon o eigion ei galon i fyw neu i farw, yn ol fel y gwelo Duw yn dda. 3. Fod iddo benderfynu ymgymmodi â'r holl fyd, gan ddymuno maddeuant, a chan faddeu ei hunan bob camwedd a wnaeth neb i'w erbyn. 4. Fod iddo gymmeryd yn hynaws yr ymweliad hwn a anfonwyd arno, i ymbarottôi i farw yn was i Dduw pan alwo Efe am dano. 5. Fod iddo orchymyn ei hun yn gwbl i drugaredd Duw, yn unig gyfryngdod Crist Iesu, ei Achubwr.

### GALWED Y CLAF I GOF,

1. Y rhaid i bawb, o bob cyflwr a sefyllfa, ymadael â'r byd trangcedig hwn. 2. Bod plant Duw, fel y gellir gweled trwy holl lyfr yr Ysgrythyr, ac ysgrifeniadau'r hen awdwyr, bob amser yn ewyllysgar yn ymroddi yn amser eu hymweliad. 3. Nad aeth Crist ei hun ddim i ogoniant, heb fyned yn gyntaf trwy borth angau. 4. Fod marwolaeth ei weision yn werthfawr yngolwg Duw; a'u bod yn gorphwys oddi wrth eu llafur.

### ANNOGER Y CLAF I YSTYRIED YN DDIFRIF,

1. NA ddaeth Crist i alw y rhai cyfiawn, ond pechaduriaid i edifeirwch: gan mai pechadur yw *efe*, daeth Crist i'w alw *ef*. 2. Mai Crist yw gwir Oen Duw, yr Hwn a ddaeth i dynnu ymaith bechodau'r byd. 3. Ei fod Ef yn Noddfa i bawb sy'n flinderog a llwythog. 4. Mai Efe yw ein cyfiawnder ni. 5. Os bydd y claf byw, mai i'r Arglwydd y mae'n byw; ac o bydd farw, mai i'r Arglwydd y bydd farw; pa un bynnag ai byw ai marw a wna, eiddo'r Arglwydd ydyw.

### ANNOGER Y CLAF I DDYWEDYD

1. Gyd â Dafydd brophwyd, "*Arglwydd, cofia dy was yn ei holl flinder.*" 2. Gyd â'r

publican, "Duw, bydd drugarog wrthyf fi bechadur." 3. Gyd â'r wraig o Ganaan, "Iesu, Fab Dafydd, trugarhâ wrthyf." 4. Gyd â Job, "Myfi a wn fod fy Mhrynwr yn fyw, ac y saif yn y diwedd ar y ddaear; yr hwn a gaf fi i mi fy hun ei weled, a'm llygaid a'i gwelant, ac nid arall." 5. Gyd â St. Stephan, "Arglwydd Iesu, derbyn fy yspryd." Ac i adrodd geiriau Crist ar y groes, "Arglwydd, i'th ddwylaw Di y gorchymynaf fy yspryd."

DYWEDED HEFYD,

IESU, dyro i mi amynedd yn fy nghystudd: cysur yn fy nhrallod: nerth yn dy drugareddau: ymwared yn dy amser da dy Hun.

## GWEDDI DROS Y CLAF.

O DRUGAROCCAF Arglwydd, yr ydym ni, y rhai nid ydym deilwng i weddïo drosom ein hunain, yn awr yn gweddïo dros arall, gan attolygu i Ti edrych i lawr o'r nef yn lliosowgrwydd dy drugaredd ar dy *was hwn* sydd yma yn ymweledig â selni. Goleua ei *feddwl;* cadw ei synhwyrau; parhâ *iddo* dy ras; lliniara ei *boen;* ac, os rhynga bodd yn dy olwg, estyn ei *ddyddiau,* fel yr estynaist ddyddiau Hezecïah: os amgen, derbyn *ef* i Arch dy drugaredd. Yn y cyfamser dyro *iddo* amynedd yn ei *gystudd,* diddanwch

yn ei *drallod,* dianwadalwch yn ei brofedigaethau, a buddugoliaeth ar ei holl elynion ysprydol. Glanhâed a golched gwaed dy anwyl Fab holl frychau a brynti ei *bechodau.* Gorchuddied dy gyfiawnder Di ei anghyfiawnder ef. Clywer am dano yr hyfryd leferydd hwnnw, "Heddyw y byddi gyd â mi ym Mharadwys. Caniattâ hyn, O Arglwydd, er anrhydedd a gogoniant dy sanctaidd Enw, trwy yr unrhyw Iesu Grist, ein hunig Iachawdwr a'n Prynwr. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## GWEDDI DROS BLENTYN CLAF.

HOLLALLUOG Dduw a thrugaroccaf Dad, i'r hwn yn unig y perthyn dibenion bywyd ac angau; Edrych i lawr o'r nef, yn ostyngedig ni a attolygwn i ti, â golygon dy drugaredd ar y plentyn hwn, y sydd yr awrhon yn gorwedd ar ei *glaf* wely; ymwêl, O Arglwydd, *âg ef* â'th iachawdwriaeth; gwared *ef* yn dy nodedig amser da o'i *boen* gorphorol, ac achub ei enaid er mwyn dy drugareddau: fel, os bydd dy ewyllys i estyn ei *ddyddiau* yma ar y ddaear, y byddo *iddo* fyw i Ti, a hyfforddio dy ogoniant, gan dy wasanaethu yn ffyddlon, a gwneuthur daioni yn ei *genedl;* os amgen, derbyn *ef* i'r preswylfeydd nefol hynny, lle mae eneidiau'r sawl a hunant yn yr Arglwydd Iesu yn

mwynhâu anorphen orphwysfa a dedwyddwch. Caniattâ hyn, Arglwydd, er dy drugareddau yn yr unrhyw dy Fab di, ein Harglwydd ni Iesu Grist; yr hwn sydd yn byw ac yn teyrnasu gyd â Thi a'r Yspryd Glân, byth yn un Duw, heb drangc na gorphen. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## GWEDDI I'W HARFERYD GAN Y CLAF EI HUN.

O ARGLWYDD Iesu, yr Hwn wyt yr adgyfodiad a'r bywyd, yn yr Hwn pwy bynnag a gredo, er iddo farw, a fydd byw; nid wyf yn deisyf arnat estyn fy oes farwol hon, nac ychwaith gymmeryd o honot fi ymaith yn gynt; ond yn unig yr wyf yn fy ngorchymyn fy hun yn hollol i'th ewyllys Di. Ymddwg tu ag attaf, drugaroccaf Geidwad, yn ol cyfoeth dy ddaioni. Gennyt Ti y'm cynhaliwyd er pan ddaethum i'r byd. Yr wyf yn drist ddarfod i mi mor aml dy dramgwyddo, a Thithau mor dda wrthyf; ac yr wyf yn galaru na byddai fy nhristwch yn fwy. Yr wyf yn appelio, Arglwydd, fel ymbiliwr gostyngedig, at orsedd gras, ac yn crefu yno am gael ar dy law faddeuant o'm holl bechodau, trwy haeddedigaethau dy ddïoddefaint chwerw. Yr wyf yn offrymmu i Ti galon edifeiriol am yr amser a aeth heibio, ac yn

addaw diwygio fy muchedd, os rhynga bodd i'th ddwyfol ddoethineb barhâu dros ychydig etto fy mhererindod ar y ddaear, yn yr hyn yr wyf yn ymroddi'n gwbl i'th ewyllys nefol Di, mewn gobaith o adgyfodiad gwell i fywyd tragywyddol, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## UN ARALL.

ALLAN O WAITH Y PARCH. G. JONES, LLANDDOWROR.

O ARGLWYDD graslawn a thrugarog, yr hwn nid wyt yn dirmygu calon gystuddiedig, nac adduned y gorthrymedig. Wele fi, bechadur annheilwng, yn dymuno nesâu at borth dy drugaredd yr awrhon! Y mae fy enaid yn glaf; y mae fy nghorph hefyd yn glaf; ac yr wyf fi yn sicr o farw yn dragywydd dan dy ddigofaint di, oni wêl dy fawredd yn dda drugarhâu wrthyf, a'm cadw yn fyw, er mwyn yr Arglwydd Iesu. [Pan yr edrychwyf yn ol ac ystyried y modd y treuliais fy mywyd hyd yma; nid wyf yn gallu canfod fod i mi gysur oddi wrth ddim a wnaethum i erioed; ond yn hytrach, fod y cwbl yn achos o ofid calon i mi; canys treuliais fy holl fywyd mewn oferedd, a gwrthryfel yn dy erbyn di.] Nis gallaf alw yn ol gymmaint ag un awr na munud o'r amser gwerthfawr a aeth heibio; ac ni wn i lai nad wyf yr awrhon dan alwad i ym-

ddangos ger dy fron di, yn nhragywyddoldeb: pa beth a ddaw o'm henaid truan, oni weli di fod yn dda drugarhâu wrthyf, a maddeu i mi y cwbl yn rhad, er mwyn dy Fab Iesu. Er bod fy ngwrthryfel i yn fawr, etto y mae dy drugaredd di yng Nghrist yn anfeidrol fwy! Po mwyaf pechadur wyf, cymmaint a hynny yn fwy yw'r eisiau sydd arnaf am faddeuant a thrugaredd. Trugarhâ wrthyf, O Dduw, cyn disgyn o honof i'r pwll. O Arglwydd, dyro i mi nerth ac amynedd dan y cystudd hwn, fel na bo i mi anfoddloni na grwgnach yn erbyn dy ewyllys di. Pâr i mi ystyried dy fod di yn fy nghospi yn llawer llai nag yr haeddai fy mhechodau. Wele fi yma, O Arglwydd, dan dy law di; os cedwi fi yn fyw, byw fyddaf; ac yr wyf yn bwriadu, trwy gymmorth dy ras di, fyw yn well o hyn allan, nag y bûm i hyd yma, os rhynga bodd i ti arbed fy mywyd y waith hon, a rhoddi i mi ychydig fwy o amser i fyw yn y byd. O gariad at fy enaid, gwared fi o bwll llygredigaeth, a thafl fy holl bechodau o'r tu ol i'th gefn. Nid yw fy nyddiau ond ychydig, brysia, O Dduw, a gwared fi; cyn myned o honof lle na ddychwelwyf, i dîr tywyllwch a chysgod angau. Cofia fi, O Arglwydd, yn ol dy raslonrwydd i'th bobl, a sancteiddia yr ymweliad hwn i mi, fel y byddwyf well o'i blegid, ac y caffwyf achos, ar ol hyn, i'th garu a'th fendithio di am dano. O parottôa fi erbyn yr amser

y bo i'm daearol dŷ o'r babell hon gael ei ddattod, a phâr i'm hymddattodiad, pan ddel, fod mewn tangnefedd. Yr wyf yn llesg ac yn egwan iawn! Y mae fy nghnawd a'm calon yn pallu; O bydd di yn nerth i'm calon, ac yn rhan dragywyddol i mi. Yr wyf yn awr yn gorchymyn fy hun i'th ddwylaw di, O Dad, yn enw Iesu Grist, fy unig Geidwad a'm gobaith, gan weddïo ym mhellach arnat, fel y dysgodd Efe ei hun i ni, gan ddywedyd, Ein Tad, &c.

Gras ein Harglwydd, &c.

## GWEDDI DROS DDYN CLAF PAN YMDDENGYS RHYW OBAITH O WELLHAD.

NYNI a ddïolchwn i ti, O Dad, Arglwydd nef a daear, am i ti wrando ein gweddïau dros dy wasanaethwr cystuddiol, a rhoi iddo beth seibiant a gobaith o wellhâd o'i glefyd. Bendigedig a fo dy enw, na wnaeth efe mo'i wely yn y llwch, ond ei fod yn debygol i aros yn hŵy yn ein plith yn nhir y rhai byw. Moliannus fyddo dy ddaioni am y fath drugaredd fawr iddo ef, hyd yn hyn tu hwnt i'n disgwyliad. Caniattâ ymweled âg ef â'th ddiddanwch nefol oddi uchod. Llanw ef âg ymsyniad cysurus o'th gariad, ac o dyner ofal a thosturi ein Harglwydd Iesu Grist tu ag at ei holl weision cystuddiol. Cynnysgaedda ef fwy fwy âg ymddarostyngiad ufudd i'th

ewyllys; a nertha ef i ddisgwyl yn amyneddgar wrthyt Ti, nes i Ti gwblhâu ei wellhâd, a gwna iddo barhau yn ddïysgog yn ei lawn fwriad i'th wasanaethu Di yn ffyddlonach â'i nerth arferedig, trwy Iesu Grist, ein bendigedig Iachawdwr a'n Prynwr. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## GWEDDI DROS DDYN CLAF LLE NA WELIR FAWR OBAITH O'I WELLHAD.

O DAD y trugareddau, a Duw pob diddanwch, ein hunig borth yn amser anghenoctid; Attat ti y rhedwn am gymmorth dros dy *wasanaethydd hwn,* yn gorwedd yma dan dy law di mewn dirfawr wendid corph. Edrych *arno* yn rasusol, Arglwydd, a pho mwyaf y gwanycho y dyn oddi allan, nertha *ef* fwy fwy, ni a attolygwn i ti, â'th Lân Yspryd yn y dyn oddi mewn. Dyro *iddo* ddiffuant edifeirwch am holl gyfeiliorniad ei *fuchedd* o'r blaen, a ffydd dïysgog yn dy Fab Iesu; fel y dilëer ei *bechodau* trwy dy drugaredd di, ac y selier ei *bardwn* yn y nef, cyn iddo fyned oddi yma, ac na weler *ef* mwyach. Da y gwyddom, Arglwydd, nad oes un gair rhy anhawdd i ti; ac y gelli, os mynni, ei *godi ef* etto ar ei *draed,* a chaniattau *iddo* hŵy hoedl yn ein plith. Er hynny, yn gymmaint a bod (hyd y gwel dyn) amser ei *ddattodiad* ef yn tynnu yn agos, felly parottôa a chymhwysa *ef,* ni

a attolygwn i ti, erbyn awr angau; fel, ar ol ei *ymadawiad* oddi yma mewn tangnefedd, ac yn dy ffafr di, y derbynier ei *enaid ef* i'th deyrnas dragywyddol, trwy haeddedigaethau a chyfryngiad Iesu Grist dy unig Fab di, ein Harglwydd ni, a'n Hiachawdwr. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

FFURF O ORCHYMYN YR ENAID I DDUW AR EI YMADAWIAD O'R CORPH.

DERBYN, Arglwydd, enaid dy *wasanaethydd hwn.* Na ddos i farn âg *ef;* arbed *ef,* yr *hwn* a brynaist â'th werthfawroccaf waed, a gwared *ef* (dros yr *hwn* y dïoddefaist farwolaeth) oddiwrth bob drwg ac anffawd; oddi wrth ystryw a chyrch y cythraul; oddi wrth ofn angau, ac oddi wrth farnedigaeth dragywyddol. Amen.

NEU.

I'TH rasusaf drugaredd a'th nodded y gorchymynwn *ef.* Duw Dad, bendithia a chadw *ef.* Duw Fab, llewyrcha dy wyneb *arno,* a thrugarhâ *wrtho.* Duw Yspryd Glân, dyrcha dy wyneb *arno ef,* a dyro *iddo* dy dangnefedd, yr awr hon ac yn oes oesoedd. Amen.

GWEDDI DROS DDYN CLAF AR DRANGCEDIGAETH.

O HOLLALLUOG Dduw, gyd â'r hwn y mae yn byw yspryd oedd y rhai cyfiawn

a berffeithiwyd, wedi cael eu gwared o'u carcharau daearol: Yr ŷm yn ostyngedig yn gorchymyn enaid dy *wasanaethydd hwn*, ein *brawd* anwyl, i'th ddwylaw di, megis i ddwylaw Creawdwr ffyddlawn ac Iachawdwr trugaroccaf, gan attolygu i ti gael *iddo* fod yn werthfawr yn dy olwg. Golcha *ef*, ni a erfyniwn arnat, yngwaed yr Oen difrycheulyd hwnnw, a laddwyd er mwyn dileu pechodau'r byd. Trugarhâ *wrtho*, a maddeu ei holl bechodau, fel y caffo ei *gyflwyno* yn bur ac yn ddifeius yn dy olwg di. A dysg i ninnau, y rhai ŷm yn byw ar ei *ol ef*, ganfod yn *hwn*, àc eraill, gyffelyb ddrychau marwoldeb, mor freuol yw ein bywyd ein hunain, ac felly i gyfrif ein dyddiau, fel y dygom ein calonnau i ddoethineb, ac y caffom ein derbyn gennyt yn y diwedd i fywyd tragywyddol, trwy haedd-edigaethau Iesu Grist, dy unig Fab di, ein Harglwydd ni. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## CYFARWYDDYD I ORCHYMYN Y CLAF YN AWR ANGAU I DDWYLAW DUW.

DUW Dad, yr hwn a'th greodd, Duw Fab, yr hwn a'th brynodd, Duw Yspryd Glân, yr hwn a dywalltodd ei ras i'th fewn, a'th gynnorthwyo yn dy holl brofedigaethau, ac a'th arweinio yn y ffordd i fywyd tragywyddol. *Atteb*, Amen.

Crist, yr Hwn a fu farw drosot, a'th gadwo rhag pob drwg. Amen.

Crist, yr Hwn a'th brynodd, a'th nertho ym mhob temtasiwn. Amen.

Crist, yr Hwn a'th garodd mor anwyl, a'th adgyfodo, gorph ac enaid, yn adgyfodiad y cyfiawn. Amen.

Crist, yr Hwn sy'n eistedd ar ddeheulaw Duw yn y nef, a'th ddycco i lawenydd tragywyddol. Amen.

Caniattâed Duw mai yn monwes Abraham y byddo dy le. Amen.

Caniattâed Duw i ti gael gweled dy fendigaid Geidwad mewn gogoniant. Amen.

Caniattâed Duw fod dy farwolaeth yn werthfawr yn ei olwg Ef, yn yr Hwn y cei orphwyso byth. Amen.

## FFURF O WEDDIAU BYRION.

O DRUGAROCCAF Dad, i Ti yr ydym yn gorchymyn dy was hwn, gwaith dy ddwylaw dy Hun: i Ti yr ydym yn gorchymyn ei enaid, yn haeddiant Crist Iesu ei Bryniawdwr. Derbyn, O Arglwydd, dy greadur dy Hun; maddeu iddo, attolwg, ba beth bynnag a wnaeth ar fai trwy ei wendid dynol; a gorchymyn i'th angylion ei ddwyn i dir o dragywyddol hedd. *Atteb*, Amen.

Cadw, Arglwydd, enaid dy was, fel y cedwaist Noah yn y diluw. Amen.

Cadw, Arglwydd, enaid dy was, fel y cedwaist Lot rhag tân Sodom. Amen.

Cadw, Arglwydd, enaid dy was, fel y cedwaist Job yn ei holl adfyd. Amen.

Cadw, Arglwydd, enaid dy was, fel y cedwaist yr Israeliaid rhag gallu Pharaoh a gorthrymder yr Aipht. Amen.

Cadw, Arglwydd, enaid dy was, rhag malais Satan, fel y cedwaist Ddafydd rhag ei holl elynion. Amen.

Cadw, Arglwydd, enaid dy was, fel y cedwaist Daniel rhag safnau'r llewod. Amen.

Cadw, Arglwydd, enaid dy was, fel y cedwaist y tri llangc o'r ffwrn dân. Amen.

Cadw, Arglwydd, enaid dy was, fel y cedwaist Elïas rhag y gau brophwydi a geisiasant ei ddistrywio. Amen.

Cadw, Arglwydd, enaid dy was, ac achub ef, fel yr achubaist dy apostolion o garchar. Amen.

Rhag y tywyllwch eithaf,
Gwared ef, O Arglwydd.
Rhag poenau uffern,
Gwared ef, O Arglwydd.
Rhag melldith dragywyddol,
Gwared ef, O Arglwydd.
Drwy dy enedigaeth,
Gwared ef, O Arglwydd.
Drwy dy grog a'th ddïoddefaint,
Gwared ef, O Arglwydd.
Drwy dy ddisgyniad i uffern,
Gwared ef, O Arglwydd.

Drwy dy adgyfodiad y trydydd dydd o feirw,
Gwared ef, O Arglwydd.
Drwy dy esgyniad i'r nefoedd,
Gwared ef, O Arglwydd.

I'th ddwylaw trugarog Di, O nefol Dad, y gorchymynwn enaid dy was sydd yn awr yn ymadael. Cydnebydd ef, attolwg i Ti, yn ddafad o'th gorlan ac yn oen o'th braidd dy Hun. Derbyn ef i freichiau dy drugaredd. Gan wybod nas gall y peth hwnnw a rodder i'w gadw i Ti ddim cyfrgolli, yr ydym yn erfyn arnat, drugaroccaf Iesu, dderbyn ei yspryd ef mewn tangnefedd. Amen.

## BENDITH Y CLAF.

IESU Grist a'th ollyngo oddi wrth dy holl bechodau. *Atteb,* Amen.
Iesu Grist, yr Hwn a fu farw drosot, a ddileo dy holl gamweddau. Amen.
Iesu Grist, yr Hwn sy'n dy alw, a'th dderbynio i'w deyrnas nefol. Amen.
Yr Arglwydd a'th fendithio ac a'th gadwo. Amen.
Gwneled yr Arglwydd i'w wyneb dywynnu arnat. Amen.
Dyrched yr Arglwydd ei wyneb arnat, a rhodded i ti adgyfodiad llawen i fywyd tragywyddol. Amen.
Ymado, dydi enaid Cristionogol, yn enw Duw Dad a'th greodd, Duw Fab a'th

brynodd, Duw Yspryd Glân a'th sancteiddiodd, un bywiol a thragywyddol Dduw; i'r Hwn y byddo'r gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

## GWEDDI I'W HARFERYD AR YMADAWIAD Y CRISTION.

HOLLALLUOG a thragywyddol Dduw, gan ddarfod i Ti deilyngu cymmeryd dy was hwn allan o drallodau'r byd pechadurus hwn i'th nefol deyrnas, am yr hyn yr ydym yn bendigo dy enw; gwna ni, y rhai sydd yngweddill, attolwg i Ti, yn feddylgar am ein marwoldeb, fel y rhodiom ger dy fron Di mewn cyfiawnder a sancteiddrwydd holl ddyddiau ein heinioes: a phan ddelo dydd ein hymadawiad, poed i ni orphwys ynot Ti megis y mae ein gobaith fod dy was hwn; fel y gallom ni gyd âg ef, a chyd â'r holl rai a ymadawsant yn ffydd dy sanctaidd Enw, gyd-lawenychu yn dy dragywyddol ogoniant, trwy Grist Iesu ein Harglwydd. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

## GWEDDI I'W HARFER MEWN GWYLNOS.

HOLLALLUOG a thragywyddol Dduw, caniattâ ein cynnorthwyo y tro hwn i nesâu yn ostyngedig o'th flaen, gan gyfaddef dy law yn yr ymweliad yma o'th eiddo, trwy ymddifadu'r teulu hwn o un ag oedd

anwyl ganddynt. Ti, Arglwydd, a roddaist fywyd i ni ar y dechreu, sydd yn ein cynnal yn y byd, ac yn ein dwyn ymaith pan y gweli yn oreu. Rhybuddir ni yn fynych o'n marwoldeb ein hunain, trwy farwolaethau eraill ag oeddynt yn byw yn ein plith: eu lle nid edwyn neb mo hono mwy: a phan ddel ychydig flynyddau, yna ni a rodiwn lwybr ar hyd yr hwn ni ddychwelwn byth mwy. Y mae ein dyddiau yn myned heibio yn gyflym, ie, yn fwy cyflym na gwennol gwehydd; a'r ychydig sydd yn ol fyddant wedi terfynu yn ebrwydd iawn. Dysg ni, attolygwn i Ti, O Arglwydd, i ddefnyddio'r amser sy'n ol o'n heinioes yn dy wasanaeth Di: poed i ni fod fel y gweision hynny yn disgwyl am ddyfodiad eu Harglwydd, ac yn barod i'w dderbyn bob amser. Caniattâ nerthu y teulu hwn i ymostwng yn dawel ac yn ddi-rwgnach o dan dy Dadol gospedigaeth hon iddynt. Pâr i'r amgylchiad sobr a ddaeth i'w cyfarfod fod yn fendithol iddynt hwy, ac i bawb o honom ninnau sydd yma yn awr ger dy fron, fel y dyger ni oll i ymddiried yn unig ynot Ti, O Arglwydd, ac nid mewn braich o gnawd. Os ŷm ni fel hyn, trwy golli perthynasau anwylaf ac agosaf, yn cael ein hymddifadu o'n cysuron pennaf yma ar y ddaear, dwg ni i weled, a chredu, dy fod Di etto gyd â ni, i'n cynnal a'n hamddiffyn ym mhob cyfyngder. "Ti, Arglwydd, a roddaist, a Thi a gymmeraist ymaith, dysg ni

i allu dweyd, "Bendigedig fyddo dy Enw." Gwna ni yn wir ddïolchgar i Ti, na thorraist monom ni i lawr etto, na'n suddo y'mhydew dinystr, a ninnau mor gyfiawn wedi ei haeddu; eithr ein bod ni hyd yn hyn mewn byd, lle yr wyt yn maddeu pechodau. O! maddeu ein mawrion bechodau, cyn yr elom, ac na byddom mwy. Dysg i ni oll felly gyfrif ein dyddiau, fel y dygom ein calonnau i ddoethineb, ac i drefnu ein tŷ, canys "marw fyddwn ac ni byddwn byw." Pâr i farwolaeth ein *brawd* ddwyn ar gof i bawb o honom sydd ar ei ol, freuolder ac ansicrwydd ein heinioes ein hunain---sobreiddia ein meddwl, a dwg ni i hyderu llai ar bethau gwael y byd hwn, ac i lynu wrthyt Ti, ein Harglwydd a'n Duw, gan ddweyd gyd â Dafydd, "Y Duw hwn yw ein Duw ni byth ac yn dragywydd, Efe a'n tywys ni hyd angau." Parottôa ni oll, a chymhwysa ni felly beunydd, O Arglwydd graslawn, erbyn y dydd hwnnw, pan fydd raid i bob un o honom, drosto ei hun, roddi cyfrif i Dduw, fel ein caffael yn gymmeradwy yn dy golwg Di, a derbyn y fendith a ddatgan dy garedig Fab, yr amser hwnnw, i bawb a'r a'th ofnant ac a'th garant, gan ddywedyd, "Deuwch chwi, fendigedigion blant fy Nhad, meddiennwch y deyrnas, a barottôwyd i chwi er pan seiliwyd y byd." Caniattâ hyn, ni a attolygwn i Ti, O drugarog Dad, trwy Iesu Grist, ein Cyfryngwr a'n Pryniawdwr. Amen.

Ein Tad, &c. Gras ein Harglwydd, &c.

# PAROTTOAD BYR I'R CYMMUN,

WEDI EI GRYNHOI

## ALLAN O WAITH Y DIWEDDAR ESGOB WILSON, AC ERAILL.

---

Y MAE Sacrament Swpper yr Arglwydd yn ordinhâd bwysig, wedi ei hordeinio gan ein Hiachawdwr ei hun, er mwyn tragywyddol gôf am Ei farwolaeth ar y Groes, ac er mwyn y lleshâd yr ydym ni yn ei dderbyn oddi wrtho. Mae hefyd yn wystl i'n sicrhâu ni o'i gariad, ac fel moddion ac arwydd gweledig oddi allan i amlygu, yn gystal a chynnyddu, ein cariad ninnau atto Ef.

Y mae iawn barottôad i'r Swpper Sanctaidd, yn ddyledswydd llwyr angenrheidiol. Ni ddylem fyned ynghylch unrhyw ddyledswydd mewn yspryd anystyriol a dïofal: po mwyaf pwysig fo'r ddyledswydd, mwyaf oll hefyd ddylai fod ein difrifoldeb ninnau i'w chyflawni. Felly, "Holed dyn ef ei hun, ac felly bwyttaëd o'r bara, ac yfed o'r cwppan. Canys yr hwn sydd yn bwytta ac yn yfed yn annheilwng sydd yn bwytta ac yn yfed barnedigaeth iddo ei hun, am nad yw yn iawn farnu corph yr Arglwydd."

Ni ddylai neb ddyfod heb radd o wybodaeth am natur a diben yr ordinhâd—arwyddocâd yr elfenau—a diben a digonolwydd

Aberth Crist, canys heb hyn ni ellir "*iawn farnu corph yr Arglwydd.*" Angenrhaid hefyd yw ein bod yn meddu bywiol ffydd yng Nghrist—yn ei garu yn ddiffuant—yn ddifrifol yn edifarhau am ein pechodau,—yn byw mewn undeb a chariad â phawb,—yn sicr amcanu dilyn buchedd newydd, canlyn gorchymynion Duw, a rhodio o hyn allan yn ei ffyrdd sancteiddiol Ef, "fel yr harddom athrawiaeth Duw, ein Hiachawdwr, ym mhob peth."

Y mae yr holl Gymmunwyr ag sydd yn atteb i'r nodweddiad uchod, drwy y Sacrament bendigedig hwn, yn dal ac yn cynnal i fynu gymmundeb parhâus â'u Harglwydd yn y nefoedd, ac â holl aelodau ei gorph, y rhai ydynt yn derbyn maeth a chynnydd oddi wrtho Ef, fel y canghennau oddi wrth y pren, ym mha un eu himpiwyd, ac nis gallant ddwyn ffrwyth pan eu gwahanir oddi wrtho; ac nid ydynt yn gymhwys i ddim ond i gael eu llosgi.

Po amlaf, ar ein hedifeirwch cywir, y coffiom am Angau Crist, yn y dull a ordeiniodd Efe, mwyaf o rasusau a dderbyniwn gan Dduw, cadarnaf fydd ein *ffydd*, sicraf fydd ein *pardwn*, a mwyaf cysurlawn fydd ein *gobaith* o'i gyfarfod Ef, nid fel *gelyn*, eithr fel *Cyfaill*, wrth fwrdd yr Hwn y buom mor fynych yn gwledda. Ac yn gymmaint a bod gwybodaeth o natur a diben yr ordinhâd

ynghyd â diben a digonolrwydd Aberth Crist, mor wir angenrheidiol i bob gwir Gymmunwr i allael *iawn farnu corph yr Arglwydd*, buddiol iawn yw myfyrio ar y rhannau hynny o'r Ysgrythyr ag sydd yn darlunio dïoddefaint Crist, megis Esay liii.; Ei farwolaeth, Ioan xix.; natur y cyfammod newydd, Heb. viii.; hanes ordinhâd y Sacrament, Mat. xxvi. 26–30.; Marc xiv. 22—26; Luc xxii. 15–20. Ynghyd â'r hyn a ddywed ein Hiachawdwr am natur ffydd, yr angenrheidrwydd, a'r bendithion o honi, Ioan vi. 23–71.

Awn yn mlaen yn awr i sylwi yn fwy manwl ar yr hyn sy'n ofynol er ein parottôi i fod yn weddus gyfrannogion o Swpper yr Arglwydd.

Cawn hyn wedi ei grynhôi yn dra eglur a chynnwysfawr, mewn attebiad a roddir i gwestiwn ar y pwngc hwn yn Nghatechism ein Heglwys. Gofynir ynddo fel hyn, "Pa beth sy raid i'r rhai a ddêl i Swpper yr Arglwydd ei wneuthur?" Yr atteb a roddir yw, "Eu holi eu hunain, a ydynt hwy yn wir edifeiriol am eu pechodau a aeth heibio, ac yn sicr amcanu dilyn buchedd newydd; a oes ganddynt ffydd fywiol yn nhrugaredd Duw trwy Grist, gyd â dïolchus gôf am ei angau Ef; ac a ydynt hwy mewn cariad perffaith â phob dyn."

1. *Y peth cyntaf, ynte, a ofynir ydyw holi i natur ein hedifeirwch.*—Wrth edifeirwch yr ydym i ddeall, galar dwys am bechod: neu

waith dyn yn condemnio ei hunan am wneuthur rhyw beth i anfoddloni Duw; sef, naill ai cyflawni y pethau hynny a waharddodd Duw, er ein cadw rhag dinystrio ein hunain; neu esgeuluso y dyledswyddau hynny a orchymynodd Efe, er ein cymhwyso i ddedwyddwch pan fyddom farw. Ym mha le bynnag y mae'r Edifeirwch hwn, y mae yno hefyd gasineb at bechod, ac ymgais difrifol am waredigaeth o hono: mae'r galon wedi ei dwys-bigo gan yr Yspryd Glân; y mae'r pechadur wedi derbyn calon ac yspryd newydd; y mae yn cofio ei ffyrdd drygionus, a'i weithredoedd nad oeddent dda, ac yn ffieiddio ei hun am ei anwiredd, ac yn benderfynol, trwy nerth yr Yspryd, i ymadael â'i bechodau, ac i ddilyn, yn

2. *Buchedd newydd,* hynny yw, bywyd Cristionogol, yr hyn yw yr ail beth a ofynir. Wrth hyn y meddylir ein bod yn ymroddi yn llwyr i wasanaeth Duw, gan ymdrechu byw yn sobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol yn y byd sydd yr awrhon. Hyn yw ein dyled,—Caru Duw â'n holl galon, ei ofni, a'i barchu, a gwneuthur pob peth i ryngu ei fodd Ef. Fod gennym barch mawr i bob peth a berthyn iddo, *i'w Enw,* gan ofalu na fydd i ni ei arferyd i unrhyw ddiben ofer neu ddrwg; *i'w Ddydd,* gan ei gadw yn sanctaidd a defosionol; *i'w Dŷ a'i Addoliad,* gan ofalu ymarweddu yn barchus a chrefyddol tra yn ei

wydd; gwrando ei Air gyda sylw manwl, a pharchu ei ordinhadau.

Ni fydd dim yn ormod gennym i ymadael â hwynt er ei fwyn: gwell fydd gennym ymadael â phob peth mor anwyl a *llaw ddehau*, neu *lygad dehau*, yn hytrach na'i ddigio *Ef*, yr hwn a ddichon ddinystrio corph ac enaid yn uffern.

3. Y peth nesaf a ofynir yw, a oes gennym *ffydd fywiol yn nhrugaredd Duw trwy Grist?* Ydyw'r ymsyniad o'n trueni wedi ein dwyn, fel pechaduriaid colledig, i ymwrthod â phob gau a hunan ymddiried, ac i ymorphwys ar haeddiant Iesu, fel yr unig obaith am ein bywyd? A ydym ni wedi ffoi atto fel y llofrudd i'r noddfa, gyd â'r awyddfryd mwyaf i gymmeryd gafael ar y gobaith a osodir o'n blaen yn yr addewid? ac a ydym ni wedi dychwelyd atto ar annogaeth ei Air yn yr addewid, yngwyneb yr annheilyngdod a'r tlodi mwyaf, am dderbyniad, ac am bob peth ganddo? Ac a ydym ni yn ymddiried yn ei ddigonolrwydd, ei allu, a'i ffyddlondeb, ac yn pwyso arno, fel sylfaen gadarn o osodiad dwyfol?—Holwn, ynte, ar beth yr ydym yn adeiladu ein gobaith? Ar beth yr ydym yn ymddibynnu am ein Hiachawdwriaeth? Ac ond i ni adeiladu ein gobaith ar ei haeddiant Ef, a byw trwy nerth ei Ysbryd, i bob rhyngu bodd iddo Ef, yna bydd i ni iawn ystyried corph yr Arglwydd; ni a gawn yn ysprydol

fwytta ei gnawd ac yfed ei waed Ef, ac a dderbyniwn nerth a diddanwch i'n heneidiau trwy Gorph a Gwaed Crist, megis y mae'n cyrph yn eu cael trwy'r bara a'r gwin.

4. Y pedwerydd peth a ofynir gennym yw, *A oes gennym ddïolchus gôf am angau Crist!* A ydym ni wedi ein goleuo i ganfod ein trueni a drwg pechod; fod yn gofyn Aberth mor fawr a bywyd Iesu Grist? A feddwn ni galonnau dïolchgar i Dduw am anfon ei Fab i'n prynnu? ac i sicrhâu i ni fendithion gwerthfawr ei angau a'i ddïoddefaint Ef, sef maddeuant pechod, heddwch â Duw, a bywyd tragywyddol? Os ydym yn wir ddïolchgar am y bendithion hyn, ni a garwn Iesu yn fwy na phob peth: ïe, yn fwy na ni ein hunain; ac ymwadwn â phob peth er ei fwyn ef.

Y peth olaf a ddylem ymholi iddo ydyw, *A ydym ni mewn perffaith gariad â phob dyn?* "*Câr dy gymmydog fel ti dy hun,*" yw y gorchymyn a roddwyd i ni gan ein Harglwydd bendigedig. Gan hynny, rhaid i ni gymmeryd gofal neillduol rhag bod un dyn â'r hwn nid ydym mewn heddwch; yr hwn nis gallwn faddeu iddo, a gweddïo trosto, a gwneud iddo bob daioni a ellir yn rhesymol ddisgwyl oddi wrthym. Hefyd, ein bod yn barod i wneuthur iawn i bob rhyw ddyn a niweidiwyd gennym, neu yr hwn a allasai yn gyfiawn fod wedi tramgwyddo wrth ein

geiriau neu ein gweithredoedd; gan fod hyn yn ddyledswydd a orchymynwyd gan Iesu Grist ei hunan, Matt. v. 23. A'n bod yn barod i faddeu i bawb a ddichon fod wedi ein niweidio ninnau, fel ag yr ydym ninnau yn disgwyl maddeuant gan Dduw.

Wedi sylwi, fel hyn, yn fyr ar natur y parottöad sydd yn ofynol cyn myned i Swpper yr Arglwydd; ystyriwn yn y lle nesaf y mawr berygl sydd o esgeuluso yr ordinhâd hon.

Yr ydym yn euog o bechod rhy debyg i wadu yr Arglwydd yr hwn a'n prynodd. Yr ydym yn dwyn anair ar ordinhâd Crist, fel pe na byddai yn werth ei chadw; yr ydym yn peri i bobl ddrwg ymgaledu yn eu hanffyddiaeth, a'u hesgeulusdra o'u hiachawdwriaeth, drwy alw ein hunain yn Gristionogion, a byw fel paganiaid, mewn diystyrwch o un o brif foddion iachawdwriaeth. Yr ydym yn byw mewn cyflwr ym mha un y bydd i'n holl weddïau, pa un bynnag ai cyhoeddus ai dirgel, ai drosom ni ein hunain ai dros eraill, gael eu gwrthod. Mewn gair, yr ydym yn annog Duw bob dydd i attal ei ras yn fwy-fwy oddi wrthym, i'n gadael i'n ffordd lygredig ein hunain o fyw, hyd oni chyflawnom fesur ein hanwiredd, ac y parottôwn i ni ein hunain ddedfryd nad ellir ei chlywed heb grynu:—*Yr wyf yn dywedyd wrthych, na chaiff yr un o'r rhai hynny a wahoddwyd,*

*brofi o'm swpper i;* swpper neithior yr Oen yn y nefoedd.

Gwedi y cwbl, nid yw hyn i annog neb i fyned i supper yr Arglwydd heb y *wisg briodas*, heb iawn olygu y ddyledswydd; o blegid gall dyn fyned mor annheilwng, fel ag i dderbyn *barn* yn lle *bendith*. Er esampl, *y sawl* sydd yn byw mewn unrhyw bechod adnabyddus, heb edifarhâu o'i herwydd; *y sawl* sydd heb wir amcanu byw a chymmeryd eu llywodraethu gan gyfreithiau hyspys yr Efengyl; *y sawl* sydd yn byw mewn anghydfod â'u cymmydogion, heb fod yn ewyllysgar i ymgymmodi; *y sawl* a wnaethant gam, ac ni wnant iawn, yn ol eu gallu; yn olaf, *y sawl* a ânt yn unig o ran defod, heb ystyried *diben*, neu lesâd yr ordinhâd; ac a ddychwelant at eu rhyddid pechadurus fel arferol, cyn gynted ag y byddo y gwasanaeth drosodd.

Dylai yr holl rai hyn wybod, eu bod wedi myned yn annheilwng; ac os oes ganddynt unrhyw ofal cywir am eu heneidiau, hwy a ystyriant yn well, ac a osodant eu hunain dan fanylach rhwymedigaethau, cyn yr elont drachefn i Swpper yr Arglwydd.

Ond etto, na foed i neb, ar berygl eu heneidiau, ymddwyn yn dwyllodrus, a gwneud hyn yn esgus i beidio a myned i'r ordinhâd rhagllaw, rhag iddynt gyffroi Duw *i'w gadael iddynt eu hunain*, yr hyn yw un o'r barnedigaethau mwyaf a ddichon ddisgyn arnynt.

Ar y llaw arall, na fydded i neb Cristionogion diffuant, gymmeryd eu *digalonni* gan *ofnau* eu bod wedi myned i Swpper yr Arglwydd yn annheilwng, ac felly ymattal, am nad ydynt yn canfod fod yr holl *les* a'r *cyfnewidiad* a ddisgwyliasant, wedi cael eu gweithio ynddynt; ond boed iddynt gofio, er eu cysur, ddarfod i Iesu Grist ei hunan gyhoeddi ei holl ddisgyblion (oddieithr y bradychwr) yn lân, hynny yw, yn *gymhwys* i dderbyn y Sacrament, yr oedd efe yn myned i weinyddu iddynt, er ei fod yn gwybod eu bod yn agored i *ffaeleddau* a *gwendidau* mawrion, y rhai a ymddangosant ar fyrder, pan ddarfu iddynt oll ei adael, yn groes i'w haddewidion difrifol; ond hwy a edifarhasant o blegid hyn, a maddeuodd eu Hiachawdwr tosturiol iddynt.

*Yn olaf*, os ydych gan hynny yn caru Duw a'ch cymmydog, *er nad mor wresog* ag yr ewyllysiech, os oes ynoch *ddymuniad* gwirioneddol i fod yn well nag y canfyddwch eich hunain yn bresennol; os ydyw ffrwythau yr Yspryd Glân, er mewn graddau isel, yn ymddangos yn eich bywyd; ac os ydych yn gweddïo bob dydd am ras Duw i'ch gwneud, yn ei amser da ei hun, yr hyn a ewyllysia Efe i chwi fod, ac heb fyw mewn unrhyw bechod adnabyddus, na fydded i chwi, ar un cyfrif, beidio myned i'r ordinhâd hon, mor fynych ag y caffoch gyfleusdra; ac ym-

ddibynwch ar fendith Duw, ac ychwanegiad o'i rasusau.

## CYFFES PECHODAU.

O DAD Hollalluog a thrugarog, yr Hwn nid wyt yn casâu dim a'r a wnaethost, ac a faddeui bechodau pawb sydd edifeiriol, dyro i mi galon newydd ddrylliedig; gwna fi yn ddiffuant alarus am fy holl gamweddau. Yr wyf wedi dy ddigio mewn amryw ffyrdd o'm hieuengctid; gwnaethum yr hyn a waherddaist, ac esgeulusais yr hyn a orchymynaist. Maddeu, Arglwydd daionus, yn ostyngedig mi a attolygaf i Ti, fy holl bechodau, fy esgeulusdra, a'm hanwybod; a nertha fi drwy dy Ysprydd Sanctaidd, i wellhâu fy muchedd, er mwyn dy Fab Iesu Grist, yr Hwn a fu farw dros bechaduriaid, ac ar haeddedigaethau yr Hwn yn unig y mae fy holl ymddiried am faddeuant a chymmorth. Amen.

## GWEDDI CYN DERBYN Y CYMMUN.

HOLLALLUOG Dduw, trwy drugaredd yr Hwn yr wyf ar fedr cyfrannu o'r Cymmun bendigedig er coffâu marwolaeth Iesu Grist, dyro i mi ras fel y gallwyf gyflawni y ddyledswydd hon gyd â duwioldeb a difrifwch. Pura fy nghalon, a phâr i mi

osod fy serch ar bethau sydd uchod. Maddeu wendid fy ngweddïau, a derbyn fy neisyfiad cywir i'th wasanaethu yn gymmeradwy. Ychwanega ynof, yr wyf yn attolwg i Ti, ffydd, gostyngeiddrwydd, a chariad, a gwna fi drwy dy ras yn gyfrannog cymhwys o'th sanctaidd Sacrament, er mawr ac annherfynol ddiddanwch i'm henaid. Caniattâ hyn, O Dad nefol, yr wyf yn erfyn arnat, er mwyn Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

## GWEDDI AR OL DERBYN Y CYMMUN.

O DRUGAROCCAF Dduw, yr wyf fi, dy was annheilwng, yn diolch i Ti yn ostyngedig am yr holl fendithion daionus a dderbyniais i ar dy law er pan aned fi i'r byd; ond yn enwedig yr wyf yn deisyf dy glodfori am y gras a'r trugaredd a brynodd dy Fab Iesu Grist i ni, ac am ganiattâu o honot i mi, yr hwn nid wyf yn haeddu y lleiaf o'th ddoniau caredig, gyfrannu o Gymmun ei gorph a'i waed Ef. Maddeu, O Arglwydd, anmherffeithrwydd fy ngweddïau y dydd heddyw; a rhynged bod i Ti fy nghadarnhâu mewn duwioldeb tu ag attat Ti, a chariad tu ag at fy nghymmydog. Nertha fi, modd y gallwyf gyflawni y bwriadau da a wnaethum heddyw wrth dy allor; ac os digwydd i mi drwy lygredigaeth, syrthio i bechod ar ol hyn, pâr i mi weled fy mai mewn pryd, a dyro

i mi ras i edifarhau, a throi attat Ti â'm holl galon. Na fydded i Ti fy ngadael, O Dad trugarog. Cadw fi yn dy ffydd, a'th ofn, a'th gariad yn ddianwadal, a gwna i mi dy wasanaethu yn well nag y darfu i mi erioed wneud, drwy Iesu Grist ein Hachubwr. Amen.

## CYNGHOR I'R SAWL A DDERBYNIASANT Y SACRAMENT.

NA feddyliwch eich bod yn rhyddion i droi at eich hen ffyrdd drygionus, ond ymosodwch yn hollol i gadw y bwriadau da a ddarfu i chwi eu hadnewyddu wrth fwrdd yr Arglwydd. Ac er gwneuthur hyn, gwrthsefwch yn union ac yn gadarn bob profedigaeth i bechod. Y mae rhai pobl yn cymmeryd cennad i fod yn euog o feïau bychain, gan ddywedyd na feidrant mo'u gochelyd; ond rhaid i chwi ystyried, mai nid bychan yw un math o bechod drwy yr hwn y byddwn o'n gwirfodd yn troseddu Gair Duw, ac nad oes un bai nas gallwn drwy ras Duw ei orchfygu, os ymegnïwn o ddifrif yn ei erbyn. Gochelwch bob peth a eill eich arwain i bechod, meddyliau ofer, cwmpeini ofer, gwag siarad, a phob afreolaeth, ac anghymmedroldeb.

Holwch eich calonnau yn aml, a ydych chwi mewn gwirionedd yn ymegnïo i gadw yr hyn a fwriadasoch ei gadw pan ddarfu i

chwi gymmuno ddiweddaf; a lle y gwelwch eich bod wedi troseddu, edifarhewch allan o law. Os gwnewch hyn, pe b'ai ond am ychydig o funudau bob Sul, bid sicr gennych, y gwelwch eich hunain yn gwellhâu yn rhyfedd mewn pob rhinweddau Cristionogol. Cedwch y Sabbath yn sanctaidd hyd y mae ynoch. Darllenwch y Bibl yn aml, ac yn enwedig y Testament Newydd, lle y cewch weled buchedd ac athrawiaeth ein Hiachawdwr Crist. Yn ddiweddaf, nac esgeuluswch er dim weddïo ar Dduw nos a bore. Heb ei fendith Ef ofer yw eich holl ymegniadau. Eithr gellwch ymddiried iddo mewn sicrwydd, a gweddïo arno heb ammeu. Canys y mae Efe yn hoffi y rhai a weddïant arno, ac yn ddiball yn eu cynnorthwyo yn eu gorchwyl ysprydol. Gweddïwch gyd â gostyngeiddrwydd a difrifwch meddwl, a gobeithiwch gael eich gwrando, er mwyn Iesu Grist. Ond rhaid i chwi gofio un peth; cs bydd i chwi weddïo am ras heb ymegnïo'n gadarn i wrthsefyll pechod, nid ydych ond gwatwor Duw, a pheri iddo ddigio wrthych.

---

DIWEDD.

---

# LIST OF SUBSCRIBERS.

---

Asaph, The Right Rev. the Lord Bishop of St., 8 copies
Asaph, Very Rev. C. S. Luxmore, M.A., Dean of St., 8 ditto

Bangor, The Right Rev. the Lord Bishop of, 8 ditto
Bangor, The Very Rev. J. H. Cotton, B.C.L., Dean of, 8 ditto
Briscoe, Rev. R., D.D., V. Whitford
Briscoe, Rev. Thomas, B.D., Fellow and Tutor of Jesus Coll. Oxon.
Briscoe, Rev. W., M.A., Fellow of Jesus Coll. Oxon.
Binns, Rev. B. J., B.A., Principal of T. Institution, Carnarvon
Bishop, Miss, Priory, Carnarvon
Baker, W. H., Esq., Church-street, ditto
Barton, Miss, Uxbridge-square, ditto

Clough, The Ven. Archdeacon, V. Mold 4 copies
Cleaver, Rev. W., M.A., Leamington 8 ditto
Cleaver, Rev. J. F., M.A., Great Coxwell, Farringdon, 4 ditto
Carter, W. Henry, Esq., Segontium Terrace, Carnarvon

Davids, Very Rev. Llew. Lewellin, D.C.L., Dean of St. 2 copies
Davies, Rev. M., M.A., R., Llanrwst, 2 ditto
Davies, Rev. J. E., M.A., P.C. St. Mary's, ditto, 2 ditto
Davies, Rev. J., C. and Lecturer of Mold, 2 ditto
Davies, Rev. D., P.C. Treuddyn, Mold
Davies, Rev. T., R. Trawsfynydd
Dillon, Anthony, Esq., Wrexham

Davies, Capt., Carnarvon
Davies, Mr. Morris, ditto
Davies, Miss E., ditto
Davies, Mr. David, 10, Well-street, Gray's Inn Road, London
Davies, Mr. John, Porth.

Edwards, R. Lloyd, Esq., Nanhoron, 16 copies
Ellis, Rev. J. Williams, M.A., R. Llanhaiarn 2 ditto
Ellis, Rev. J., M.A., P.C. Kyffin 2 ditto
Ellis, Rev. P.C., M.A., P.C. Llanfaes & Penmon, 2 ditto
Edwards, Rev. J., M.A., R. Newtown
Edwards, Rev. W., M.A., V. Llangollen
Edwards, Rev. G., M.A., P.C. Minerva
Edwards, Rev. R. W., M.A., Gwersyllt
Edwards, Rev. H. G., C. Llanbeblig
Edwards, Thomas Francis, Esq., Surgeon, Denbigh
Evans, Rev. John, Incumbent of the Welsh Church, Ely Place, London
Evans, Rev. D. M., P.C. Llanfair-talhaiarn
Evans, Rev. W., C. Gelligaer, Glamorganshire
Evans, Rev. T., C. Llanbedr
Evans, Rev. Ed., Capel Garmon
Evans, Rev. D. S., C. Llangian
Evans, O., Esq., Ty'n-y-coed, Pwllheli
Ellis, R. Lloyd, Esq., Twthill, Carnarvon
Evans, Mr., Schoolmaster, Llandwrog.

Foley, Mrs., Twthill, Carnarvon
Foster, Mr., Carnarvon

Griffith, Mrs., Llanfair Hall, nr. Carnarven, 2 copies
Grace, Miss, Tŷ-coch
Gore, Col., Carnarvon
Griffith, Rev. J., M.A. V. Llanynys
Griffith, Rev. George, Cae'n-y-coed, Maentwrog
Griffith, Rev. Thomas, V. Llanfawr, Bala
Griffith, R., Esq., Jesus Coll., Oxon.
Griffith, Mr. R. Druggist, Carnarvon

Griffith, Mrs., Church-street, ditto
Griffith, Miss Erasmus, Beaumaris
George, Mr. P., Lay Assistant, Carnarvon
Griffith, Mr. J., Clarence-steet, Liverpool
Griffith, Mr. T., ditto
Griffith, Miss, ditto

Hughes, W. B., Esq., M.P., Plascoch, 8 copies
Hill, G. W., Esq., Twthill, 4 ditto
Hill, Rev. R. Head Master Grammar School, Beaumaris
Heaton, Rev. Ch. W., B.D., Fellow of Jesus College, Oxon., 2 copies
Hunt, Mrs., Glangwna, 2 ditto
Hughes, Rev. L., M.A., Gogarth, 3 ditto
Hughes, Rev. M., P.C. St. Anne's, Llandegai, 6 ditto
Hughes, Rev. E. O., M.A., R. Llanddeiniolen, 2 ditto
Hughes, Rev. W, M.A, C. Trefdraeth
Hughes, Rev. Mr., C. Llanwnda
Harding, G. W., Esq., Priory, 2 ditto
Hayden, H. S., Esq., Carnarvon
Humphreys, Mr., Dolbadarn Hotel, Llanberis, 6 ditto
Humphreys, Mr. R., Twthill, Carnarvon
Hughes, Mr. R., Ysgubor newydd
Hughes, Mrs., Llanfair-tal-haiarn
Hughes, Mrs., Newborough Arms, Carnarvon
Hughes, Mrs., Terrace, ditto
Hughes, Mr. J., Glanymorfa
Hughes, Mrs., Fronheulog

Jacobson, Rev. W., D.D., Regius Professor of Divinity Oxford
Ironmonger, Capt., Carnarvon, 2 copies
Jones, F. J. W., Esq., Barrister at Law, Carnarvon
Jones, Miss, Hengwrt ucha, Dolgelley, 4 copies
Jones, Rev. J., M.A., R. Llanllyfni, 4 ditto
Jones, Mrs., ditto
James, Rev. D., M.A., Warden of W. Institution, Llandovery
Jones, Rev. J. W., M.A., Heneglwys. 2 copies

Jones, Rev. J., M.A., R. St. George, 2 copies
Jones, Rev. H., M.A., V. Holywell
Jones. Rev. R., M.A., R. Bottwnog
Jones, Rev. Rees, P.C. Court-y-bella, Monm.
Jones, Rev. H. H., R. Llanidan
Jones, Rev. J., B.A., P.C. Beddgelert
Jones, Rev. J. Ll., C. Beaumaris
Jones, Rev. J., M.A., C. Llangar
Jones, Rev. W., C. Llansannan
Jones, Rev. E., M.A., C. Llanrhaiadr yn Mochnant
Jones, Rev. R. H., Bolton le Moors
Jones, Rev. W., V. Nevyn
Jones, Owen, Esq., Castle-square, Carnarvon
Jones, Anthony, Esq., Liverpool, 4 ditto
Jones, H., Esq., Jesus Coll., Oxon.
Jenkin, D., Esq., ditto
Jones, Rev. D., Carnarvon
Jones, Capt., Uxbridge-square, ditto
Jones, Mr., R. I., Tremadoc
Jones, Miss, Liverpool
Jones, Mr. R., Market-street, Carnarvon
Jones, Mr. G., Draper, ditto
Jones, Mrs., S. Pen'rallt, ditto
Jones, Mrs., Twthill, ditto
Jones, Mr. R. P., Clerk, Llanbeblig
Jones, Mr. O., Mallwyd
Jones, Mr. Hugh, Llanllyfni
Jones. Mr. W., Hendre

King, Mrs., Twthill 2 ditto

Lady A, 40 ditto
Llandaff, The Lord Bishop of
Lewis, Rev. J., V. Llanrhystid, 12 ditto
Leigh, Rev. Edmund, P.C. Bedwellty, Monm.
Lewis, Rev. E., B.A., P.C. Llanllechid
Lewis, Miss, Bangor-street
Lloyd, Rev. D., B.A., P.C. Bodewryd, 2 ditto
Lloyd, Rev. H. N., P.C. Llangristiolus

Lidoux, Paul, Esq., B.A., B S., F.R.C.C., Carnarvon
Lewis, D., Esq., Manchester
Lloyd, Mr. Morgan, Churchwarden, Llanbeblig

Michell, Rev. R., B.D., V.P. Magdalen Hall, Public Orator, & one of the Public Examiners of Oxford, 2 copies
Mason, Mrs., Plas Bowman, Carnarvon
Mason, Rev. R. W., M.A., Bodafon
Morgan, Rev. B., P.C. Aberdovey, 2 ditto
Morgan, Rev. M., M.A., V. Conway
Morgan, Rev., W., M.A., P.C. Llandegai
Morgan, Rev. J., MA., C. Llanrhaiadr
Morice, Thos., Esq., B.A., Fellow of Jesus Coll., Oxon.
Morgan, Rev. H., P.C. Bangor Chapel, near Aberystwyth
Morgan, Rev. Thomas, C. Festiniog
Morgan, J., Esq., Bank, Carnarvon
Morgan, J. T., Esq., Ty'n llidiart, Aberystwyth
Morice, Hallan, Esq., Jesus College, Oxon.
Morris, Mr. A. F., Bangor
Morgan, Mr. O., Bridge-street, Carnarvon
Matthews, Mr. W., Victoria Hotel, Llanberis

Nanney, Major, Gwynfryn, 16 copies
Newcome, Rev. R., M.A., V. Llanrhaiadr yn Cinmerch, and Archdeacon of Merioneth
Norman, R. A., Esq., Carnarvon

Owen, Rev. H.D., D.D., Rector Trefdraeth, 2 ditto
Owen, Rev. Griffith, M.A., Rural Dean, Ymwlch, 4 ditto
Owen, Rev. W. H., M.A., V. St. Asaph, 2 ditto
Owen, W., Esq,, Tan y gyrt
Owen, Miss, Beaumaris
Owen, Miss, Palace-street, Carnarvon
Owen, Mrs., Ty coch, ditto
Owen, Mr. G., Druggist, ditto
Owen, Mrs. Castle-square, ditto

Priestley, J., Esq., Hirdrefaig, Anglesea 8 ditto

Poole, Rev. W. J., M.A., R. Aberffraw, 4 copies
Poole, Mrs., Twthill
Poole, Mrs., Market-street, Carnarvon, 2 ditto
Powell, E. G., Esq., Solicitor, ditto, 2 ditto
Powell, E. P., Esq., Jesus College, Oxon.
Pugh, Rev. E., M.A., V. Bangor, 2 ditto
Pugh, Rev. R., M.A., Llanycil, 2 ditto
Parry, Rev. James, P.C. Bettws Garmon
Pugh, Rev. D., M.A., V. Abereirch
Pugh, D. R., Esq., Clynnog
Pugh, D. W., Esq., Surgeon, Brondirion
Parry, Mrs., Twthill, Carnarvon
Parry, Miss, Penditch, Carnarvon

Ruthin, The Rev. the Warden of
Roberts, Rev. D., R. Caerwys
Rogers, Rev. Thos., Curate of Ystalyfera, Swansea, 4 copies
Roberts, Rev. W. A., M.A, C. Llanefydd
Roberts, Rev. H.. M.A., V. Aberdaron
Robers, Mrs., ditto
Richards, Rev. H., S.C.L., C. Aberdare, 2 copies
Roberts, Rev. D., Incumbent of Mostyn
Richards, J. Esq.. Treiorwerth
Roberts, W. Watkin, Esq., Surgeon, Carnarvon
Roberts, Miss M., Quay House, ditto
Raven, Miss, Quellyn ditto
Roberts, Mr. J., Aberkinsey
Roberts, Miss, ditto
Rowlands, Adam, Esq., Glan'rafon, Monm.
Rae, Mrs., Carnarvon
Richards, Mr. Evan, Bangor-street, ditto
Roberts, Mr. Ellis, Waenfawr
Rowlands, Mr,. Stamp-office, Carnarvon
Roberts, Mr. John, Castle, Carnarvon

Smart, Rev. E., M.A., P.C. Henllan
Snell, Rev. J. H., B.A., C., Bolton le Moors
Salusbury, J., Esq., Surgeon, Conway
Smith, Mrs., Bron Seiont, Carnarvon

Thomas, Rev. D., M.A., Glancgwen
Thomas, Rev. D., M.A., C. Pwllheli
Thomas, Rev. Lewis, S.C.L., C. Bedwellty
Turner, Thomas, Esq., Carnarvon, 2 copies
Taylor, A. L., Esq., M. A., ditto
Tarleton, Mrs., Quay House
Thomas, Mr. O., Iron Foundry, Churchwarden, Llanbeblig
Thomas, Mr. Henry, Harp Inn, Carnarvon

Vincent, Rev. James, M.A., C. Llantrissaint

Watkins, Mrs., Caecinnamon 8 copies
Williams, The Misses, Bronhyfryd Cottage, 2 ditto
Welch, Miss, the Manor House
Williams, Miss, Green Edge, Bangor
Wynne, Charles, Esq., Cefnamwlch 2 ditto
Whalley, G. H., Esq., M.P., Plasmadoc
Williams, Rev. W. W., M.A., Menaifron 4 ditto
Williams, Rev. Charles, B.D., Holyhead 4 ditto
Williams, Rev. Rowland, B.D., V. P. St. David's Coll. Lampeter
Williams, Rev. R., M.A., V. Clynnog 2 copies
Williams, Rev. D., R. Landwrog 2 ditto
Williams, Rev. W., M.A., R. Llanychan
Williams, Rev. E. O., M.A., C. Llangefni, 2 ditto
White, Rev. H. W., M.A., R. Dolgelley 2 ditto
Williams, Rev. O. G., M.A., Rhiwlas
Watkins, Rev. J., S.C.L., C. Cadoxton 4 ditto
Williams, Rev. St. Geo. Armstrong, M.A., Plas Hên
Williams, Rev. M., M.A., Amlwch 2 copies
Williams, Rev. W., M.A., V. Llanrhaiadr ym Mochnant
Williams, Rev. Thos. Jones, M.A., R. Llanfair-pwll-gwyngyll
Williams. Rev. P. B., M.A., V. Llanrug 2 copies
Williams, Rev. D. L., M.A., C. Ruthin 2 ditto
Williams, Rev. W., M.A., R. Llansantffraid-glan-Conwy
Williams, Rev. W. Rees, M.A., Vice-Principal of the Training Institution, Carnarvon

Williams, Mrs, Pendre, Carnarvon
Williams, Rev. Eleazer, B.A., C. Llangeinwen
Williams, Rev. P., M.A., V. Llansannan
Williams, A. W., M.D., Carnarvon
Williams, W. R., Esq., Surgeon, ditto
Williams, Mrs W. R. ditto
Williams, J. Lloyd, Esq., ditto, ditto
Williams, Peter, Esq., T.C.D. 2 copies
Willams, Mr., Penstreet, Llanychan
Williams, Mr. J. O., High-street, Carnarvon
Williams, Mr. Rowland, Dinorwig 3 copies
Williams, Mr. R., Bryn-y-ffynon, Denbigh
Williams, Mr. J. ditto
Williams, Messrs. and Hughes, Stationers, Carnarvon
Williams, Mr. B., Liverpool
Williams, Mr. James, Denbigh
Williams, Mr. Jeremiah, Twthill
Wynne, Mr. John, Liverpool
Williams, Mr. Edward, Abergele
Williams, Mr. Thomas, ditto
Williams, Mr. Robert, Llandulas
Williams, Mr. Thomas, Colwyn

ARGRAFFWYD GAN H. HUMPHREYS,
CASTLE SQUARE, CAERNARFON.